Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Arolwg 2023 o
Etholaethau Seneddol

Cynigion Diwygiedig

This document is available in English.
Mae’r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio’r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: cffg@ffiniau.cymru

Mae’r ddogfen hon ar gael o’n gwefan hefyd yn: www.comffin-cymru.gov.uk

Rhagair

Ar 8 Medi 2021, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol yng Nghymru. Wedyn, dechreuodd proses o ymgynghori ar y cynigion hyn. Derbyniodd y Comisiwn 1,367 o gynrychiolaethau ysgrifenedig ac 81 o gynrychiolaethau llafar ar y cynigion cychwynnol. Cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus ledled Cymru er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i fynegi'u barnau ar y cynigion cychwynnol, ac i awgrymu sut gellid eu diwygio a'u gwella. Mae'r Comisiwn yn hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi diwygio'r cynigion cychwynnol. Mae wedi cynnig newidiadau, sy'n newidiadau sylweddol yn aml, i 22 o'r 32 o etholaethau arfaethedig. Mae hefyd wedi cynnig enwau gwahanol ar gyfer 9 o'r etholaethau. Mae cyfle nawr i wneud cynrychiolaethau ar y cynigion diwygiedig hyn cyn bod y Comisiwn yn llunio'i adroddiad terfynol ar etholaethau Seneddol arfaethedig yng Nghymru.

Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad cychwynnol, mae'n rhaid cynnal yr arolwg o etholaethau yn unol â darpariaethau'r statud perthnasol, sef Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Ddeddf yn pennu bod 650 o seddau yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r dull o gyfrifo'r dyraniad seddau rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar y gyfran o etholwyr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig ym mhob gwlad, sy'n rhoi ffigur a adwaenir fel y 'cwota etholiadol'. Mae'n rhaid i bob etholaeth yn y Deyrnas Unedig fod â nifer etholwyr o fewn 5% i'r ffigur hwnnw. Mae'r cyfrifiad hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru – o'r 40 o etholaethau presennol i 32. Mae'n golygu'r newid mwyaf arwyddocaol i etholaethau Cymru mewn canrif.

Mae'n rhaid cwblhau'r arolwg hwn erbyn 1 Gorffennaf 2023. Bydd argymhellion y Comisiwn yn cael

eu rhoi ar waith gan y rheol 'awtomatigrwydd'. Mae hyn yn golygu na fydd yn ofynnol mwyach i'r argymhellion gael cymeradwyaeth Seneddol. Mae'n rhaid i'r argymhellion terfynol gael eu rhoi ar waith fel yr amlinellwyd yn adroddiad terfynol y Comisiwn. Bellach, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer 5 o etholaethau gwarchodedig ledled y Deyrnas Unedig. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y Deyrnas Unedig, ac sydd wedi'i gwarchod felly neu wedi'i heithrio o'r arolwg, yw Ynys Môn.

Wrth ddatblygu ei gynigion, mae'r Comisiwn wedi ystyried y ffactorau statudol y gall roi sylw iddynt. Lle bo modd, mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth i ffiniau Seneddol a llywodraeth leol presennol; mae hefyd wedi ceisio osgoi neu leihau torri cysylltiadau lleol; ac ar brydiau, mae'r Comisiwn wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Cafodd 4 Comisiynydd Cynorthwyol eu penodi ar gyfer arolwg 2023 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus a darparu adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig yn ystod cyfnodau'r ymgynghoriad cychwynnol a'r ail ymgynghoriad. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd hyd yma yn yr arolwg, ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol.

Mae'r Comisiwn bellach yn dechrau ei drydydd cyfnod ymgynghori. Gall aelodau'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cynigion diwygiedig a ddisgrifir yn y ddogfen hon o 19 Hydref 2022 i 15 Tachwedd 2022. Bydd y Comisiwn yn edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a ddaw i law i weld a ellir diwygio a gwella'r cynigion diwygiedig. Fodd bynnag, bydd rhaid i'r Comisiwn bwyso a mesur y materion a godir mewn cynrychiolaethau yn erbyn yr holl ffactorau eraill y mae'n rhaid iddo eu hystyried, yn ogystal â'r cyfyngiadau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth.

Yn olaf, ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'r Comisiynwyr – Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam A Hartley – am eu cyfraniadau amhrisiadwy, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd a swyddogion eraill y Comisiwn am eu cymorth yn ein gwaith. Hoffwn ddiolch hefyd i'n haseswyr statudol yn yr Arolwg Ordnans a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am eu cymorth a'u cyfraniadau.

Meistres Ustus Jefford DBE

Dirprwy Gadeirydd

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad	8
Pennod 2	Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol	10
	Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)	10
	Cylch arolygu	10
	Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023	10
	Dosbarthiad etholaethau	10
	Amrediad etholwyr statudol	11
	Ffiniau llywodraeth leol perthnasol	11
	Ffactorau statudol eraill	12
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	12
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	12
	Ffiniau etholaethau presennol	13
	Yr anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu	13
	Cydadwaith yr ystyriaethau	13
	Ffactorau nad yw'r Comisiwn yn eu hystyried	14
	Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol	14
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	14
	Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020	15
	Enwi a dynodi etholaethau	15
	Enwi	15
	Dynodi	16
Pennod 3	Datblygu etholaethau	17
	Nifer yr etholwyr	17
	Maint etholaethau	17
	Patrwm etholaethau	17
	Cynigion cychwynnol	18
	Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol	19
	Cynigion diwygiedig	20
Pennod 4	Crynodeb o'r cynigion diwygiedig	21
Pennod 5	Cynigion diwygiedig	24
Pennod 6	Cynigion diwygiedig yn fanwl	26
	Aberafan Porthcawl	32
	Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)	37
	Bangor Aberconwy	42
	Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)	48
	Brecon, Radnor and Cwm-tawe (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe)	53
	Bridgend (Pen-y-bont)	58
	Caerfyrddin (Carmarthen)	63
	Caerphilly (Caerffili)	68
	Cardiff East (Dwyrain Caerdydd)	73
	Cardiff North (Gogledd Caerdydd)	78
	Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)	83

	Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)	88
	Ceredigion Preseli	92
	Clwyd East (Dwyrain Clwyd)	97
	Clwyd North (Gogledd Clwyd)	103
	Dwyfor Meirionnydd	108
	Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)	114
	Llanelli	119
	Merthyr Tydfil and Upper Cynon (Merthyr Tudful a Chynon Uchaf)	123
	Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)	128
	Monmouthshire (Sir Fynwy)	133
	Montgomeryshire and Glyndwr (Maldwyn a Glyndŵr)	138
	Neath and Swansea East (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe)	144
	Newport East (Dwyrain Casnewydd)	150
	Newport West and Islwyn (Gorllewin Casnewydd ac Islwyn)	154
	Pontypridd	159
	Rhondda	164
	Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)	169
	Torfaen	175
	Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)	179
	Wrexham (Wrecsam)	183
	Ynys Môn	188
Pennod 7	Manylion cyhoeddi	190
	Cyhoeddi cynigion diwygiedig	190
	Mannau adneuo	190
Pennod 8	Y trydydd cyfnod ymgynghori: 19 Hydref 2022 i 15 Tachwedd 2022	191
	Cyhoeddi cynrychiolaethau	192
	Y Gymraeg	193
Pennod 9	Gwybodaeth ychwanegol	194
	Hawlfraint y Goron	194
	Ymholiadau	194
Atodiad 1	Cynigion diwygiedig: etholaethau	195
Atodiad 2	Mynegai o'r etholaethau presennol	197
Atodiad 3	Mannau adneuo	198

Pennod 1:

Cyflwyniad

1. Ar 5 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau arolwg 2023 o etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Gellir gweld crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn at yr arolwg yn nogfen y Comisiwn 'Canllaw i'r Arolwg 2023', sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Comisiwn: www.comffin-cymru.gov.uk.

2. Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 8 Medi 2021. Aeth y cynigion yn eu blaenau ar sail y meini prawf statudol newydd. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai cynigion dros dro oeddent. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn ddechrau cyfnod ymgynghori o 8 wythnos pan wahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig.

3. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori 8 wythnos cychwynnol hwn. Roedd cyfnod 6 wythnos statudol pellach ar gael wedyn i unigolion a sefydliadau wneud sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Yn ystod yr ail ymgynghoriad, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig neu i fynychu un o'r 5 gwrandawiad cyhoeddus a gynhaliwyd ledled Cymru, ac a gadeiriwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth a thîm o Gomisiynwyr Cynorthwyol. Aeth y Comisiynwyr Cynorthwyol ati i adolygu'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, a llunio adroddiad i'r Comisiwn.

4. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi cynigion diwygiedig yn awr i ymgynghori'n gyhoeddus arnynt. Mae'r Comisiynwyr wedi ystyried adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae'r cynigion

diwygiedig yn adlewyrchu'r ystyriaeth fwyaf gofalus o'r barnau a fynegwyd, gan gadw at y rheolau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth.

5. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi ei gynigion diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Mae natur y fframwaith statudol a'r meini prawf yn golygu y bu'n angenrheidiol cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan.

6. Rhoddir pwys mawr ar y cyfle sy'n cael ei gynnig yn awr i bawb sydd yn gysylltiedig wneud cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a ydynt yn cefnogi'r cynigion diwygiedig neu'n eu gwrthwynebu. Hwn fydd y cyfle olaf i'r rheiny sydd â diddordeb i leisio'u barnau. Rhoddir manylion am sut i wneud cynrychiolaethau ym Mhennod 8 yn y ddogfen hon.

7. Ym mis Gorffennaf 2023, bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i argymhellion terfynol i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin (fel Comisiynau Ffiniau eraill y Deyrnas Unedig). Ar ôl i'r Llefarydd dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae'n rhaid iddo neu iddi ei gyflwyno gerbron y Senedd. Pan fydd adroddiadau gan y 4 Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'w Fawrhydi yn Ei Gyngor i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau.

8. Wrth baratoi'r drafft, ni chaiff y Llywodraeth addasu argymhellion unrhyw un o Gomisiynau Ffiniau'r Deyrnas Unedig, oni bai y gofynnwyd iddi wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig a chyda rhesymau) gan y Comisiwn Ffiniau perthnasol yn y Deyrnas Unedig.

9. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn dod i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae'n rhaid i unrhyw is-etholiadau a gynhelir yn y cyfamser gael eu cynnal ar sail yr hen etholaethau (presennol).

Pennod 2:

Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol

Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

1. Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon yn gymwys i'r arolwg o etholaethau Seneddol.

Cylch arolygu

2. Mae gofyniad yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) ('y Ddeddf') yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar arolwg o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Gorffennaf 2023, adroddiad arall erbyn 1 Hydref 2031, ac adroddiad bob 8 mlynedd ar ôl hynny.

Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023

3. Mae'r Ddeddf yn pennu pa ffigurau etholwyr y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu defnyddio wrth gynnal arolwg. Ar gyfer Arolwg 2023, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio cyfanswm nifer yr unigolion yr oedd eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol gyhoeddedig ar 2 Mawrth 2020.
4. Mae'r Comisiwn wedi cael y ffigurau etholwyr hyn ar gyfer arolwg 2023 o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn ar ei wefan: www.comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/01-21/arolwg-2023.

Dosbarthiad etholaethau

5. Mae'r Ddeddf yn datgan bod nifer benodedig o 650 o etholaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fformiwla fathemategol i bennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o 4 rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yn seiliedig ar eu ffigurau etholwyr.
6. Yn unol â'r fformiwla honno, mae 32 o etholaethau wedi'u dyrannu i Gymru o dan y Ddeddf.

Mae'n rhaid i'r Comisiwn, felly, wneud argymhellion, yn ei adroddiad 2023, sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru o'u nifer bresennol: 40. Mae'n rhaid i etholaethau Cymru fod yn gyfan gwbl o fewn Cymru, ac ni allant gynnwys ardaloedd rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

Amrediad etholwyr statudol

7. Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu nifer o reolau sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Yr un pennaf o'r rhain yw Rheol 2, sy'n darparu – heblaw am 5 eithriad penodedig yn y Deyrnas Unedig – bod rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig ar gyfer Arolwg 2023, i'r rhif cyfan agosaf, yw 73,393.
8. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn.
9. Felly, ar wahân i Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 69,724 ac nad yw'n fwy na 77,062. Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at y paramedrau hyn fel yr 'amrediad etholwyr statudol'.

Ffiniau llywodraeth leol perthnasol

10. Mae'r Ddeddf yn datgan y caiff y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth iddo ddatblygu ei gynigion ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae'r Ddeddf yn diffinio ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol a oedd yn bodoli neu'n "arfaethedig" ar "ddyddiad yr arolwg".
11. Ar gyfer arolwg 2023, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rhai hynny a oedd mewn grym ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Mae'r ffiniau llywodraeth leol hyn i'w gweld yng nghynnyrch mapio 'Boundary-Line' yr Arolwg Ordnans (fersiwn mis Hydref 2020 sydd ar gael yn: https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/boundaryline).

Ffactorau statudol eraill

12. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau eraill y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth iddo ddatblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol. Yn benodol, gall y Comisiwn ystyried:

- ystyriaethau daearyddol arbennig – gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu

Ystyriaethau daearyddol arbennig

13. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd yr ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol – fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd – yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau eraill posibl ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â chysylltiadau lleol.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

14. Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion a'i argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol.
15. Bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
16. Bydd y Comisiwn yn defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
17. Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac y mae dealltwriaeth dda ohonynt. Yn

gyffredinol maen nhw'n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau pan fydd yn ddymunol rhannu wardiau etholiadol, yn enwedig wrth ystyried yr holl ffactorau a amlygwyd yn Rheol 5, er nad yw ein cynigion diwygiedig yn rhannu unrhyw wardiau etholiadol.

18. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu i gydnabod cysylltiadau lleol, a'u bod felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, polisi'r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol, oni bai nad oes unrhyw ddatrysiad arall ar gael a fyddai'n galluogi cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

Ffiniau etholaethau presennol

19. Mae'r Comisiwn yn bwriadu parchu etholaethau presennol lle y bo'n bosibl gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod etholaeth bresennol wedi'i diogelu rhag newid dim ond oherwydd bod ei nifer etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y bydd etholaeth sydd fymryn yn unig y tu allan i'r amrediad statudol yn cael ei diwygio ychydig bach yn unig i ddod o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau yng Nghymru fydd y gall yn wir fod angen newid etholaethau presennol sydd â nifer etholwyr o fewn yr amrediad statudol. Mae hyn oherwydd yr angen i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ledled Cymru.

Yr anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu

20. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai newidiadau arwain at anghyfleustra. Er enghraifft, gall newidiadau effeithio ar ba mor hawdd yw hi i bobl bleidleisio'n bersonol. Mae'r Comisiwn yn ceisio lliniaru materion o'r fath trwy gadw wardiau presennol a chydnabod cysylltiadau lleol lle bynnag y bo modd.

Cydadwaith yr ystyriaethau

21. Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Reol 2.

22. Mae'n rhaid i etholaethau yng Nghymru (heblaw am Ynys Môn) gydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn ceisio creu etholaethau â nifer etholwyr sydd mor agos â phosibl i gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ystyried ei bod yn briodol dilyn amcan polisi o wyro cyn lleied â phosibl oddi wrth gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5. Er enghraifft, pe bai gan un etholaeth amrywiant o 4% oddi wrth gwota etholiadol y Deyrnas Unedig a'i bod yn parchu wardiau etholiadol presennol, a bod gan etholaeth arall amrywiant o 1% yn unig ond ei bod yn rhannu wardiau etholiadol, byddai'r Comisiwn yn argymell yr etholaeth flaenorol.

Cyn belled ag y bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio argymell etholaethau:

- sydd wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol cyfan sy'n agos i'w gilydd
- nad ydynt yn cynnwys rhannau datgysylltiedig; hynny yw, lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol

Ffactorau nad yw'r Comisiwn yn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

23. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Fel y cyfryw, nid yw patrymau pleidleisio presennol na ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

24. Y ffiniau llywodraeth leol y caiff y Comisiwn eu hystyried yw'r rhai hynny a fodolai yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Fel y cyfryw, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau llywodraeth leol newydd nad oeddent yn bodoli, ac na ddarparwyd ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth, ar y dyddiad hwnnw.
25. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r argymhelliad yn yr adroddiad ar ddiwygio'r Senedd a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig y Senedd fod y 32 o etholaethau Seneddol terfynol y

Deyrnas Unedig a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael eu paru i greu 16 o etholaethau aml-aelod newydd ar gyfer etholiadau Senedd 2026. Fodd bynnag, ni all y Comisiwn ac nid yw'r Comisiwn wedi ystyried hyn yn ei drafodaethau.

Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020

26. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020. Ni all ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru etholwyr honedig mewn ardaloedd penodol ar y dyddiad hwnnw.

Enwi a dynodi etholaethau

27. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

28. Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os nad yw etholaeth wedi'i newid i raddau helaeth, dylid cadw enw presennol yr etholaeth, fel arfer. Fel y cyfryw, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros wneud hynny.
29. Ar gyfer etholaeth newydd, dylai'r enw fel arfer adlewyrchu enw'r prif gyngor (neu'r prif gynghorau) sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau sy'n cynnig awgrymiadau amgen i'r enwau arfaethedig. Lle mae mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol i enw amgen addas, bydd y Comisiwn yn argymell y dewis amgen hwnnw fel arfer.
30. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) pan nad oes enw mwy addas. Pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ardal y prif gyngor neu hen gyngor dosbarth, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir fel arfer yn ffurfio rhagddodiad (er enghraifft, Canol a De Sir Benfro). Yn Saesneg, pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ganolfan

boblogaeth, bydd cyfeiriad y pwynt cwmpawd yn ffurfio ôl-ddodiad yn gyffredinol (er enghraifft, Swansea West).

31. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Felly, bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion y dylai dewisiadau amgen swyddogol gael eu darparu yn y Gymraeg ar gyfer enwau etholaethau yn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Fel hyn, bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Ni fydd enw amgen swyddogol pan fydd enw etholaeth yn dderbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dynodi

32. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n "etholaeth sirol" (county constituency) neu'n "etholaeth fwrdeistrefol" (borough constituency). Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.

Pennod 3:

Datblygu etholaethau

Nifer yr etholwyr

1. Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 42,657 (Arfon CC) i 78,238 (Cardiff South and Penarth BC). O dan y ddeddfwriaeth, mae nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu lleihau o 40 i 32, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr. Dim ond un etholaeth bresennol, sef Vale of Glamorgan CC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn y bennod flaenorol, nid mater ydyw bod etholaeth bresennol yn cael ei gwarchod rhag newid dim ond oherwydd bod nifer ei hetholwyr o fewn yr amrediad statudol. Mae hyn oherwydd y gallai fod angen newid i greu etholaethau hyfyw mewn ardaloedd eraill. Yn wir, fel y gellir gweld yn y bennod nesaf, mae'r Comisiwn wedi dewis newid ffiniau Vale of Glamorgan CC i fodloni'r rheolau statudol yn y ffordd orau yn yr ardal amgylchynol.

Maint etholaethau

2. Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17 o gilomedrau sgwâr (km2) (Cardiff Central BC) i 3,014km2 (Brecon and Radnorshire CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth dan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km2 . Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru.

Patrwm yr etholaethau

3. Nifer gymharol fach o etholwyr a geir mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae'n anochel, felly, o dan y trefniadau newydd, y bydd rhai etholaethau yn fawr iawn (o ran arwynebedd). Yn ogystal, oherwydd y niferoedd cymharol isel o etholwyr yn rhai o Gymoedd De Cymru, bydd yn rhaid i etholaethau gwmpasu mwy nag un cwm. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd trefol, gall fod angen i brif gynghorau gael eu rhannu. Bydd angen gwneud cyfaddawdau er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cadw at y rheolau yn y ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y bydd

hyd yn oed newidiadau bach i un etholaeth yn esgor ar ganlyniadau i ardaloedd cyfagos – ac yn ehangach o bosibl.

Cynigion cychwynnol

4. Byddai unrhyw set o gynigion gan y Comisiwn yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r trefniadau presennol. Mae'r Comisiwn wedi cael y gorchwyl o gynllunio cynigion ar gyfer y 32 o etholaethau gofynnol yn lle'r 40 o etholaethau presennol. Wrth wneud hynny, mae wedi'i gyfyngu ymhellach gan y gofyniad pennaf fod rhaid i nifer etholwyr bob etholaeth fod o fewn yr amrediad statudol. Mae'r rhain yn ffactorau statudol sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth.
5. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn. Mae hwn yn ffactor statudol sydd wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae rhyddid y Comisiwn i weithredu ystyriaethau statudol eraill, ar adegau, wedi bod yn gyfyngedig. Mae'r Comisiwn wedi derbyn 9 o gynrychiolaethau yn ymwneud â'r eithriad hwn ar gyfer ardal Ynys Môn. Yn yr un modd, wrth ystyried rhinweddau cynlluniau amgen, mewn rhai achosion, canfuwyd nad yw rhai datrysiadau amlwg yn hyfyw gan na ellir darparu ar eu cyfer o fewn y gofynion ar gyfer nifer yr etholwyr neu oherwydd eu heffaith ganlyniadol ar etholaethau eraill, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion hyn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn, ar bob cam o'i drafodaethau, wedi ceisio nodi'r datrysiadau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.
6. Derbyniodd y Comisiwn 101 o gynrychiolaethau'n ymwneud â'r newid yn nifer yr etholaethau yng Nghymru, a 23 o gynrychiolaethau'n ymwneud â'r amrediad etholwyr statudol. Nid yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw rannau o gynrychiolaethau lle gwnaed sylwadau ar nifer y seddau Seneddol a ddyrannwyd i Gymru nac ar yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r rhain wedi'u pennu gan y Senedd ac ni all y Comisiwn eu newid. Hefyd, mae'r Comisiwn yn dymuno pwysleisio bod ei gynigion yn ymwneud ag etholaethau Seneddol yng Nghymru yn unig, ac ni fyddant yn effeithio ar ffiniau etholaethau'r Senedd; prif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, wardiau etholiadol na ffiniau cymunedol; trethi; na gwasanaethau. Nid yw'r Comisiwn, felly, wedi ystyried unrhyw

gynrychiolaeth a wnaed ynglŷn â'r materion hyn.

7. Roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym Medi 2021, yn cyflwyno map diwygiedig o etholaethau Seneddol yng Nghymru gyda newidiadau i bob etholaeth bresennol ac eithrio Ynys Môn. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol, gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gymwys i Gymru gyfan, neu ardaloedd sylweddol o Gymru. At ei gilydd (yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori), derbyniwyd 1,367 o gynrychiolaethau ysgrifenedig – naill ai trwy lythyr, e-bost, deisebau neu gyfraniadau a wnaed drwy'r wefan – a siaradodd 81 o unigolion mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn.

Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

8. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, i benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Cafodd 4 Comisiynydd Cynorthwyol eu penodi ar gyfer arolwg 2023 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus mewn modd teg ac effeithlon, ac o fewn terfynau amser statudol a chanllawiau gweithdrefnol a bennwyd gan y Comisiwn, gan gynnwys galw siaradwyr cofrestredig i roi'u cyflwyniadau, a gofyn a chaniatáu cwestiynau er budd eglurder, fel y bo'n briodol.

9. Aeth y Comisiynwyr Cynorthwyol ati i adolygu'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, ynghyd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Yn dilyn eu hystyriaethau, darparont adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r hyn a oedd ym marn y Comisiynwyr Cynorthwyol yn bwyntiau amlwg a godwyd gan y cynrychiolaethau, a

gwnaethant argymhellion i'r Comisiwn ar ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r cynigion cychwynnol. Gellir gweld adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar wefan y Comisiwn.

Cynigion diwygiedig

10. Mae Adran 5(5) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn i ddiwygio'i gynigion cychwynnol yng ngoleuni cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
11. Yng ngolau'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â'i gynigion cychwynnol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio'i gynigion. Wrth ddatblygu'r cynigion diwygiedig hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.
12. Disgrifir yr etholaethau arfaethedig yn fanwl ac fe'u dangosir mewn mapiau amlinellol ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn. Mae mapiau manylach ar gael hefyd ar wefan y Comisiwn yn www.cffg-arolygon.org.uk ac maent ar adnau mewn lle dynodedig ym mhob etholaeth arfaethedig (gweler Atodiad 3 am fanylion cyfeiriad y man adneuo dynodedig ym mhob etholaeth arfaethedig).
13. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori 4 wythnos ar y cynigion diwygiedig, a fydd yn rhedeg o 19 Hydref i 15 Tachwedd 2022, bydd y Comisiwn yn ystyried p'un ai gwneud unrhyw newidiadau pellach i'w gynigion. Ym mis Gorffennaf 2023, bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i argymhellion terfynol i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin.

Pennod 4:

Crynodeb o'r cynigion diwygiedig

1. Ar ôl archwilio'r cynrychiolaethau a wnaed, a chan ystyried argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi diwygio'r canlynol:

- 22 o'i gynigion cychwynnol o ran eu cyfansoddiad daearyddol, gyda rhai o'r newidiadau hyn yn rhai helaeth
- 9 o enwau'r etholaethau arfaethedig

2. Yr unig etholaeth bresennol yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y Deyrnas Unedig a bennwyd yn y Ddeddf yw Ynys Môn. Mae Ynys Môn, felly, yn aros heb ei newid yng nghynigion diwygiedig y Comisiwn. Ar gyfer rhai ardaloedd eraill, mae'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol.
3. Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw 73,393. Ceir goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (69,724 a 77,062 yn y drefn honno). Ar hyn o bryd mae 38 o etholaethau yn is na'r lleiafswm nifer o etholwyr. Mae un etholaeth (Cardiff South and Penarth BC) yn uwch na'r uchafswm nifer o etholwyr. Mae un etholaeth (Vale of Glamorgan CC) yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. O dan y cynigion diwygiedig, byddai'r holl etholaethau (ac eithrio Ynys Môn) o fewn yr amrediad statudol; byddai 18 yn is na chwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a byddai 14 yn uwch na'r cwota etholiadol.
4. Mae rhai wardiau etholiadol wedi'u rhannu ar hyn o bryd ar draws fwy nag un etholaeth Seneddol bresennol oherwydd newidiadau i ffiniau wardiau llywodraeth leol ers yr arolwg diwethaf o etholaethau Seneddol. Yn y cynigion diwygiedig, mae'r cyfryw wardiau wedi'u cyfuno i ffurfio un ward etholiadol o fewn un etholaeth bresennol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Dinas Powys wedi'i rhannu, gyda 3 o etholwyr o fewn etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth BC, a 6,385 o etholwyr o fewn etholaeth Vale of Glamorgan CC. (Gweler y tabl ar dudalen 23).
5. O dan y cynigion diwygiedig, byddai 6 phrif gyngor (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr

Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaethau arfaethedig. Byddai 15 o etholaethau presennol (Aberavon, Aberconwy, Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Cardiff North, Cardiff West, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Montgomeryshire, Rhondda, Torfaen, Wrexham ac Ynys Môn) wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaethau arfaethedig. Byddai 15 o enwau etholaethau presennol yn aros yr un peth.

6. O dan y cynigion, byddai gan 6 etholaeth arwynebedd dros 1,000km2 (Bangor Aberconwy, Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe, Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai 4 o'r rhain rhwng 2,000km2 a 3,000km2 (Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai un yn fwy na 3,000km2 (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe).
7. Mae'r Comisiwn wedi cynnig y dylai wardiau etholiadol sydd wedi'u rhannu ar hyn o bryd ar draws fwy nag un etholaeth Seneddol bresennol gael eu dyrannu, yn eu cyfanrwydd, i un etholaeth. Dangosir hyn yn y tabl canlynol.

Ward etholiadol	Dyraniad etholaeth bresennol (nifer yr etholwyr)	Dyraniad etholaeth (nifer yr etholwyr)
Clydach	Gower CC (5,713)	Gower CC (5,821)
	Swansea East BC (108)	
Cocyd	Swansea West BC (10,003)	Swansea West BC (10,473)
	Swansea East BC (470)	
Gogledd Croesyceiliog	Monmouth CC (2,664)	Monmouth CC (2,745)
	Torfaen CC (81)	
Dinas Powys	Vale of Glamorgan CC (6,385)	Vale of Glamorgan CC (6,388)
	Cardiff South and Penarth BC (3)	
Dyfnant	Swansea West BC (3,490)	Swansea West BC (3,494)
	Gŵyr CC (4)	
Glandŵr	Swansea East BC (4,712)	Swansea East BC (4,821)
	Swansea West BC (109)	
Llangyfelach	Gower CC (3,841)	Gower CC (3,946)
	Swansea East BC (105)	
Llanhari	Ogmore CC (3,022)	Ogmore CC (3,221)
	Pontypridd CC (199)	
Martletwy	Carmarthen West and South Pembrokeshire CC (1,134)	Carmarthen West and South Pembrokeshire CC (1,603)
	Preseli Pembrokeshire CC (469)	
Pontprennau/Pentref Llaneir-wg	Cardiff North BC (7,964)	Cardiff North BC (8,047)
	Cardiff South and Penarth BC (83)	
Pont-y-clun	Pontypridd CC (5,371)	Pontypridd CC (6,061)
	Ogmore CC (690)	
Tonysguboriau	Pontypridd CC (1,955)	Pontypridd CC (1,965)
	Ogmore CC (10)	

Pennod 5:

Cynigion diwygiedig

1. Mae Pennod 6 yn disgrifio pob etholaeth newydd ddiwygiedig yn fanwl, ac yn eu dangos mewn mapiau amlinellol. Mae mapiau manylach o'r etholaethau arfaethedig i'w gweld ar wefan y Comisiwn: www.comffin-cymru.gov.uk. Mae'r mapiau ar gael ar ffurf argraffedig hefyd, ochr yn ochr â chopïau o'r ddogfen hon, mewn man adneuo dynodedig ym mhob etholaeth arfaethedig (gweler Atodiad 3). Mae'r mapiau i'w defnyddio ar y cyd â'r wybodaeth ystadegol yn ymwneud â'r wardiau etholiadol a ddisgrifir yn y cynigion. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'w lawrlwytho hefyd o wefan y Comisiwn, ar ffurf Excel.
2. Byddai cynigion diwygiedig y Comisiwn, o'u mabwysiadu, yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r trefniadau presennol. Mae'r Comisiwn wedi cael y gorchwyl o gynllunio cynigion ar gyfer y 32 o etholaethau gofynnol yn lle'r 40 o etholaethau presennol. Mae'r Comisiwn wedi ymdrechu i weithredu'r ystyriaethau statudol. Fodd bynnag, mae ei allu i wneud hynny, o reidrwydd, wedi'i gyfyngu gan y gofyniad pennaf fod rhaid i bob etholaeth (ac eithrio Ynys Môn) fod o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Fe allai hyd yn oed newidiadau cymharol fân i ffiniau mewn un etholaeth gael effeithiau canlyniadol mewn etholaethau eraill.
3. Mae'r Comisiwn wedi ceisio nodi'r datrysiadau mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol, ledled Cymru, y gellir darparu ar eu cyfer o fewn y rheolau statudol – a'r amrediad etholwyr statudol yn benodol.
4. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio mai barnau'r Comisiwn ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol y mae'r cynigion hyn yn eu cynrychioli. Wrth lunio'u hadroddiad, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi rhoi ystyriaeth i'r cynrychiolaethau a'r cyflwyniadau llafar a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn yn croesawu

cynrychiolaethau gan y cyhoedd. Rhoddir manylion am sut i ymateb i gynigion y Comisiwn ym Mhennod 8. Ni fydd y Comisiwn yn ystyried cynrychiolaethau a wneir ar sail ffactorau na all y Comisiwn eu hystyried, fel y ddeddfwriaeth fel y'i pennir yn y Ddeddf, a materion yn ymwneud â diwygio'r Senedd.

Pennod 6:

Y cynigion diwygiedig yn fanwl

1. Disgrifir cynigion diwygiedig y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob etholaeth arfaethedig, mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

- enw a dynodiad yr etholaeth o dan y cynigion diwygiedig, gan gynnwys yr enw amgen swyddogol arfaethedig (os yw'n berthnasol)
- y wardiau etholiadol y byddai'n eu cynnwys a'i hamrywiant oddi wrth gwota etholiadol y Deyrnas Unedig
- dadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i gefnogi, neu wrthwynebu, y cynigion cychwynnol. Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a wnaed wrth benderfynu ar ddiwygiadau i'w gynigion. Ceir rhagor o fanylion am y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol
- barnau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol
- ymateb y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed
- esboniad o'r enw arfaethedig
- map o'r etholaeth arfaethedig

2. Er mwyn dangos y diwygiadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud, mae ffiniau etholaethau o'r cynigion cychwynnol yn cael eu dangos fel llinell felen o dan y ffiniau yn y cynigion diwygiedig (a ddangosir fel llinell las amlwg). Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl gweld yn union pa newidiadau sydd wedi'u gwneud.
3. Mae'r 4 dudalen ganlynol yn amlinellu darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol, cynigion

cychwynnol y Comisiwn a'i gynigion diwygiedig. Mae'r allwedd map, a ddangosir isod, yn esbonio'r lliwiau a'r llinellau a ddefnyddiwyd ym mhob map yn y bennod hon.

Allwedd Map

Y ffin etholaethol yn y cynigion diwygiedig

Y ffin etholaethol yn y cynigion

Y ffin etholaethau presennol

Y ffin wardiau etholiadol

Etholaethau Seneddol Presennol



Cynigion Cychwynnol



1. Aberafan Porthcawl (76,792)
2. Aberconwy (69,909)
3. Alun a Glannau Dyfrdwy (74,144)
4. Blaenau Gwent a Rhymni (71,079)
5. Aberonhddu a Maesyfed (72,113)
6. Pen-y-bont (74,388)
7. Caerfyrddin (70,606)
8. Canol Caerdydd (74,486)
9. Gogledd Caerdydd (71,143)
10. De Caerdydd a Phenarth (70,426)
11. Gorllewin Caerdydd (73,947)
12. Ceredigion Preseli (76,269)
13. Clwyd (76,380)
14. Delyn (76,074)
15. Dwyfor Meirionnydd (71,962)
16. Islwyn (70,735)
17. Llanelli (71,972)
18. Merthyr Tudful ac Aberdâr (71,218)
19. Canol a De Sir Benfro (74,614)
20. Sir Fynwy (72,681)
21. Maldwyn a Glyndŵr (72,363
22. Dwyrain Casnewydd (76,159)
23. Gorllewin Casnewydd a Chaerffili (74,394)
24. Pontypridd (71,237)
25. Rhondda (71,684)
26. Canol a Gogledd Abertawe (76,199)
27. Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd (75,641)
28. Gorllewin Abertawe a Gŵyr (75,214)
29. Torfaen (70,591)
30. Bro Morgannwg (70,426)
31. Wrecsam (75,596)
32. Ynys Môn (52,415)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

Cynigion Diwygiedig



1. Aberafan Porthcawl (75,270)
2. Alun a Glannau Dyfrdwy (75,695)
3. Bangor Aberconwy (70,468)
4. Blaenau Gwent a Rhymni (71,079)
5. Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe (72,113)
6. Pen-y-bont (76,464)
7. Caerfyrddin (72,683)
8. Caerffili ((72,325)
9. Dwyrain Caerdydd (72,463)
10. Gogledd Caerdydd (71,143)
11. De Caerdydd a Phenarth (72,269)
12. Gorllewin Caerdydd (73,947)
13. Ceredigion Preseli (74,063)
14. Dwyrain Clwyd (76,395)
15. Gogledd Clwyd (76,150)
16. Dwyfor Meirionnydd (69,803)
17. Gŵyr a Gorllewin Abertawe (75,214)
18. Llanelli (69,895)
19. Merthyr Tudful a Chynon Uchaf (74,805)
20. De a Canol Sir Benfro (76,820)
21. Sir Fynwy (72,681)
22. Maldwyn a Glyndŵr (76,953)
23. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (72,172)
24. Dwyrain Casnewydd (76,159)
25. Gorllewin Casnewydd ac Islwyn (76,367)
26. Pontypridd (73,743)
27. Rhondda (69,764)
28. Canol a Gogledd Abertawe (71,378)
29. Torfaen (70,591)
30. Bro Morgannwg (70,426)
31. Wrecsam (70,964)
32. Ynys Môn (52,415)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

Cynigion Diwygiedig a Cychwynnol



Cynigion Diwygiedig

Cynigion Cychwynnol

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

1. Aberafan Porthcawl

1.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Aberavon** ar hyn o bryd):

Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Bridgend** ar hyn o bryd):

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Corneli (5,359), Llangewydd a Brynhyfryd (1,878), Drenewydd (3,035), Notais (2,741), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967), y Pîl (5,545) a Rest Bay (1,990).

1.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,792 o etholwyr, sydd 4.6% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Aberafan Porthcawl.**

1.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a gododd bryderon ynglŷn â rhannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth. Roedd y cynrychiolaethau'n dweud ei bod yn afresymegol gosod

maestref o Ben-y-bont yn yr etholaeth gymdogol pan fo pentrefi eraill sydd â chysylltiad cryfach ag Aberafan y gellid eu trosglwyddo yn lle hynny. Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol, gyda rhai mân addasiadau yn ardal Pen-y-bont, gan yr Aelodau Seneddol dros Aberafan ac Ogwr. Cafodd y Comisiwn wrthwynebiad hefyd i gyfuno Porthcawl ag Aberafan yn seiliedig ar y ddadl bod gan Borthcawl fwy yn gyffredin â Phen-y-bont ar Ogwr nag ardal Aberafan. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn hefyd wedi cael cefnogaeth i'r cynnig cychwynnol yn dweud y byddai cyfuno'r ardaloedd sydd â glan môr helaeth yn dwyn ynghyd ardaloedd sydd â chymeriad tebyg.

1.4 Cyflwynwyd nifer o gynigion amgen ar gyfer yr ardal. Cytunodd y Blaid Geidwadol â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a chreodd etholaeth Pen-y-bont a oedd yn cynnwys Porthcawl ac ardal Canol Tref Pen-y-bont, ac o ganlyniad etholaeth Aberafan Maesteg a oedd yn uno Aberafan ag Ogwr trwy Gwm Gwynfi. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth Bro Morgannwg a Phorthcawl, ac etholaeth Pen-y-bont a oedd yn dilyn ffin eithaf tebyg i gynnig cychwynnol y Comisiwn. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig rhannu ardal Pen-y-bont rhwng 3 etholaeth: unwyd Canol Tref Pen-y-bont â Phorthcawl i ffurfio etholaeth Pen-y-bont; cyfunwyd Bro Ogwr â rhannau o etholaeth y Rhondda; ac unodd Maesteg ag etholaeth Aberafan gyda Maesteg a De-ddwyrain Abertawe.

1.5 Nid oedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol a gwnaethant ddarparu trefniant amgen, gan ddweud bod gwrthwynebiad sylweddol o'r ddwy ran o'r etholaeth arfaethedig a oedd yn canolbwyntio ar gysylltiadau lleol. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol etholaeth a fyddai'n cyfuno tref Castell-nedd â mwyafrif etholaeth bresennol Aberavon a'r ardal o amgylch Maesteg. Dywedasant fod y cysylltiadau trafnidiaeth, cymunedol a chysylltiadau eraill yn rhesymol gryf rhwng Dyffryn Afan a Maesteg, ond yn llawer llai felly â'r ardal ehangach yn etholaeth bresennol Ogwr. Byddai cynnig y Comisiynwyr Cynorthwyol yn gosod Porthcawl a'r ardal amgylchynol

mewn etholaeth gyda rhan fawr o etholaeth bresennol Vale of Glamorgan.

1.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu rhannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth, gyda wardiau etholiadol Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod digon o dystiolaeth wedi cael ei darparu i gefnogi argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Felly, mae'r Comisiwn wedi cynnig dychwelyd y wardiau etholiadol hyn i etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Er mwyn i'r etholaethau arfaethedig fodloni'r cwota statudol, mae'r Comisiwn wedi cynnwys tref Sgiwen (tair ward etholiadol Coedffranc) yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cysylltiadau cryf o fewn yr etholaeth arfaethedig, gan fod Sgiwen yn ffurfio rhan o etholaeth bresennol Aberavon a bod yr holl rannau o'r etholaeth arfaethedig o fewn yr un ardal cyngor bwrdeistref sirol. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau o ran y gwahaniaethau rhwng y 2 ardal a'r trefniadau amgen a gyflwynwyd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod cyfuno'r ardaloedd fel y cynigir yn briodol o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig.

1.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):

Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), Canol Coedffranc (2,892), Gogledd Coedffranc (1,811), Gorllewin Coedffranc (3,587), y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Bridgend ar hyn o bryd):

Corneli (5,359), Drenewydd (3,035), Notais (2,741), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967), y Pîl (5,545) a Rest Bay (1,990).

1.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,270 o etholwyr, sydd 2.6% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Aberafan Porthcawl.

Enw arfaethedig yr etholaeth

1.9 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a awgrymodd ddewisiadau amgen ar gyfer yr enw yn lle'r cynnig cychwynnol; roedd y rhain yn cynnwys De Morgannwg, ac Aberafan a Phorthcawl.

1.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant awgrymu enwau amgen.

1.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Aberafan Porthcawl. Mae 2 ran yr enw'n cynrychioli'r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd y bwriedir eu cyfuno yn yr etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn bod dwy ran yr enw yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Aberafan Porthcawl



2. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)

2.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Alyn and Deeside** ar hyn o bryd):

Aston (2,508), Gogledd-ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Bwcle: Dwyrain Bistre (2,653), Bwcle: Gorllewin Bistre (3,182), Bwcle: Mynydd (2,555), Bwcle: Pentrobin (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Connah (2,213), Cei Connah: Golftyn (3,688), De Cei Connah (4,494), Cei Connah: Gwepra (1,647), Ewloe (4,327), Penarlâg (1,623), Kinnerton Uchaf (1,373), yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Pen-y-ffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney: Cyffordd yr Wyddgrug (1,100), Saltney: Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Threuddyn (1,346);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd South** ar hyn o bryd):

Brymbo (3,021) a Mwynglawdd (1,870); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Delyn** ar hyn o bryd):

Argoed (2,167), Coed-llai (1,627) a New Brighton (2,414).

2.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,144 o etholwyr, sydd 1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Alyn and Deeside**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Alun a Glannau Dyfrdwy**.

2.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys gan yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam a De Clwyd, a oedd yn datgan bod wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd yn rhannu cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag Alun a Glannau Dyfrdwy i'r gogledd. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn dadlau na ddylai'r wardiau hyn gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ac y dylent aros o fewn etholaeth Wrecsam. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ardaloedd Bagillt a'r Fflint gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy, gan ddweud bod gan yr ardaloedd hyn fwy yn gyffredin ag etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy na'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Delyn. Roedd nifer sylweddol o'r cynrychiolaethau a gafwyd yn dadlau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio gan ystyried gwahanol ddiwylliannau ardaloedd, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol.

2.4 Roedd y pleidiau gwleidyddol yn cytuno y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig Wrecsam. Roedd y Blaid Geidwadol wedi cynnwys ardaloedd Bagillt a'r Fflint mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy hefyd. Roedd Plaid Cymru wedi rhannu'r ardal a chynnwys y Fflint mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy, a Bagillt mewn etholaeth Delyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gadw'r ardaloedd o fewn etholaeth Delyn.

2.5 Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr ardal yn boblog iawn a bod yr holl faterion

eraill sy'n ymwneud â chreu etholaethau yn israddol i oruchafiaeth bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Dywedasant fod sawl cynrychiolaeth yn dadlau o blaid cynnwys y Fflint a Bagillt mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd yn cynnwys mwy na 12,000 o etholwyr, sy'n golygu y byddai angen addasiadau mawr eraill i fodloni'r cwota etholiadol pe byddent yn cael eu cynnwys. Felly, ni wnaethant gynnwys y wardiau hyn yn eu hetholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy arfaethedig. Byddai trefniant amgen y Comisiynwyr Cynorthwyol yn trosglwyddo wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd allan o'r etholaeth arfaethedig a'u dychwelyd i etholaeth Wrecsam.

2.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a ddywedodd y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu cynnwys mewn etholaeth Wrecsam, a'r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ardaloedd Bagillt a'r Fflint yn rhannu mwy o gysylltiadau lleol â'r wardiau sydd wedi'u cynnwys yn Alun a Glannau Dyfrdwy.

2.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside ar hyn o bryd):

Aston (2,508), Gogledd-ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Bwcle: Dwyrain Bistre (2,653), Bwcle: Gorllewin Bistre (3,182), Bwcle: Mynydd (2,555), Bwcle: Pentrobin (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Connah (2,213), Cei Connah: Golftyn (3,688), De Cei Connah (4,494), Cei Connah: Gwepre (1,647), Ewloe (4,327), Penarlâg (1,623), Kinnerton Uchaf (1,373), yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Pen-y-ffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney:

Cyffordd yr Wyddgrug (1,100), Saltney: Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Threuddyn (1,346); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):

Dwyrain Bagillt (1,413), Gorllewin Bagillt (1,625), y Fflint: Castell (1,426), y Fflint: Cynswllt (2,938), y Fflint: Oakenholt (2,538), y Fflint: Trelawny (2,710).

2.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,695 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw Alyn and Deeside. Yr enw amgen swyddogol a awgrymir yw Alun a Glannau Dyfrdwy.

Enw arfaethedig yr etholaeth

2.9 Ni chafodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer etholaeth o wardiau etholiadol tebyg. Cafodd y Comisiwn un enw amgen, sef Alun, ar gyfer trefniant amgen o wardiau. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw arfaethedig.

2.10 Mae etholaeth arfaethedig y Comisiwn yn cynnwys etholaeth bresennol Alyn and Deeside yn ei chyfanrwydd. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Alyn and Deeside a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Alun a Glannau Dyfrdwy.

Alun a Glannau Dyfrdwy



3. Bangor Aberconwy

3.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Aberconwy** ar hyn o bryd):

Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capelulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwys-bach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid (1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) ac Uwch Conwy (1,276);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd West** ar hyn o bryd):

Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llangernyw (1,104), Mochdre (1,425) ac Uwchaled (1,139); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Arfon** ar hyn o bryd):

Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hirael (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697) a Thregarth a Mynydd Llandygai (1,628).

3.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,909 o etholwyr, sydd 4.7% islaw Cwota Etholiadol y

Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Aberconwy**.

3.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a ddywedodd y byddai'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal yn rhannu Dinas Bangor rhwng 2 etholaeth; dadleuwyd bod ward etholiadol Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau yn gwrthwynebu symud Dinas Bangor allan o etholaeth Caernarfon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn dweud bod Cyngor Tref Bae Colwyn yn cael ei rannu yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cyngor tref hwn yn cynrychioli cyfuniad o nifer o gymunedau yn yr ardal, ac roedd y cynrychiolaethau'n galw am gadw ward etholiadol Llandrillo-yn-Rhos gyda'r cymunedau eraill sy'n ffurfio'r cyngor tref.

3.4 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau yng ngogledd Cymru ar sail amgylcheddau diwylliannol tebyg. Roedd y trefniadau awgrymedig a dderbyniwyd yn rhan o'r cynrychiolaethau yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol yn cynnwys etholaethau a oedd y tu hwnt i'r amrediad etholwyr gofynnol. Fodd bynnag, roedd y trefniadau awgrymedig a ddarparwyd yn yr ail gyfnod ymgynghori yn cynnwys etholaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran y cwota etholiadol. Awgrymwyd mân newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn a oedd yn creu etholaethau o fewn y cwota etholiadol, ond nid oedd y rhain wedi ystyried yr effeithiau pellgyrhaeddol y byddai'r cynigion yn eu cael ar weddill Cymru.

3.5 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newid bach i etholaeth Aberconwy trwy gynnwys ward Pentir o etholaeth Dwyfor Meirionnydd. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys Pentir yn etholaeth Aberconwy hefyd, ac er mwyn gwneud hyn, gwnaethant ddileu wardiau etholiadol Llangernyw ac Uwchaled o Gonwy. Roedd cynnig Plaid Cymru yn cynnwys ail-lunio ffiniau etholaethau yng ngogledd Cymru i greu etholaeth Menai a oedd yn cynnwys Caernarfon a Bangor; fodd bynnag, roedd y cynllun hwn yn rhannu Cymuned Conwy rhwng etholaethau.

3.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod gwahaniaeth barn ynglŷn â ffurfweddiad yr etholaethau yn yr ardal. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnwys Pentir, Bethesda a Phenrhosgarnedd gyda gweddill Dinas Bangor ac etholaeth bresennol Arfon mewn etholaeth Menai. Gwnaethant hefyd ddychwelyd ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn i un etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, wrth greu'r etholaethau hyn, rhannodd y Comisiynwyr Cynorthwyol Gymuned Abergele.

3.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, er bod y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid oedd y Comisiwn o'r farn bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cyfiawnhau rhannu Cymuned Abergele. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd yn dweud bod ward Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor ac felly y dylai gael ei chynnwys yn yr un etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n dda gan gysylltiadau trafnidiaeth a'u bod yn debyg o ran cymeriad. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol. Mae'r Comisiwn hefyd yn cytuno â'r cynrychiolaethau sy'n datgan na ddylai ardal Cyngor Tref Bae Colwyn gael ei rhannu ar draws etholaethau.

3.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Aberconwy ar hyn o bryd):

Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capelulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwys-bach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid (1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) ac Uwch Conwy (1,276);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Betws-yn-Rhos (1,623), Llangernyw (1,104), Llansannan (1,495) ac Uwchaled (1,139);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Efenechtyd (1,321) a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,496); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hirael (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697), Pentir (2,159) a Thregarth a Mynydd Llandygai (1,628).

3.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,468 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth yw Bangor Aberconwy.

Enw arfaethedig yr etholaeth

3.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn ac a oedd hefyd yn awgrymu y dylai enw'r etholaeth newid i Aberconwy a Bangor i adlewyrchu'r 2 ardal wahanol sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Ystyriodd y Comisiwn yr enw Bangor a Chonwy hefyd yn unol â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn ag enw arfaethedig yr etholaeth.

3.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid sylweddol i drefniadau daearyddol ac felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

3.12 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Bangor Aberconwy. Mae 2 ran yr enw hwn yn cynrychioli'r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd y bwriedir eu cyfuno yn yr etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn bod dwy ran yr enw'n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.


Bangor Aberconwy
1.Bryn (1,390)
2.Capel Ulo (1,284)
3.Conwy (3,295)
4.Craig-y-Don (2,685)
5.Crwst (1,581)
6.Deganwy (3,289)
7.Gogarth (2,795)
8.Gower (850)
9.Llansanffraid (1,814)
10.Marl (3,539)
11.Mostyn (2,758)
12.Pandy (1,463)
13.Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167)
14.Penrhyn (3,874)
15.Pensarn (2,274)
16.Tudno (3,591)
17.Deiniol (920)
18.Dewi (1,301)
19.Garth (556)
20.Gerlan (1,696)
21.Glyder (1,257)
22.Hendre (940)
23.Hirael (1,066)
24.Marchog (1,579)
25.Menai (Bangor) (1,548)
26.Ogwen (1,697)
27.Pentir (2,159)
28.Tre-garth a Mynydd Llandygai (1,628)
Arllechwedd (1,091)
Caerhun (1,677)
Eglwysbach (1,257)
Betws-yn-Rhos (1,623)
Trefriw (1,026)
Betws-y-Coed (967)
Llansannan (1,495)
Llanrhaeadr-Yng-Nghinmeirch (1,496)
Llangernyw (1,104)
Uwch Conwy (1,276)
Uwchaled (1,139)
Efenechtyd (1,321)
Ardal Bangor
0
10
Cilomedrau
Graddfa: 1:273,100
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

4. Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)

4.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Blaenau Gwent** ar hyn o bryd):

Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Cendl (2,717), Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtyleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rasa (2,463), Sirhywi (4,210), Six Bells (1,740) a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Merthyr Tydfil and Rhymney** ar hyn o bryd):

Cwm Darran (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432) a Thwyn Carno (1,721);

3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n rhan o etholaeth sirol bresennol **Islwyn** ar hyn o bryd); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Caerphilly** ar hyn o bryd):

Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).

4.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Blaenau Gwent and Rhymney**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Blaenau Gwent a Rhymni**.

4.3 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol, gan ddadlau bod cyfuno'r ardaloedd fel y cynigir yn darparu etholaeth gywasgedig a hygyrch gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf trwy ffyrdd a rheilffyrdd. Dadleuodd y cynrychiolaethau hefyd fod yr ardaloedd cyfunol yn rhannu cysylltiadau lleol trwy dreftadaeth ddiwydiannol gyffredin glo, haearn a dur, ac y byddai'r etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardaloedd Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.4 Cafodd y Comisiwn bedair cynrychiolaeth yn erbyn yr etholaeth arfaethedig; roedd 2 o'r cynrychiolaethau hyn yn dadlau y byddai cyfuno'r ardaloedd fel y cynigir yn golygu bod 2 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd ac yn gymdeithasol yn cael eu gosod gyda'i gilydd. Darparodd Plaid Cymru drefniant amgen a fyddai'n creu etholaethau amgen newydd yn yr ardal. Byddai etholaeth Sirhywi yn cyfuno Gogledd Cwm Rhymni ag etholaeth bresennol Islwyn, a byddai etholaeth Blaenau Gwent a Phont-y-pŵl yn gweld Blaenau Gwent yn cael ei chyfuno ag ardaloedd o Dorfaen.

4.5 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol yn llwyr ac yn nodi'r gefnogaeth gan yr Aelod Seneddol presennol dros Flaenau Gwent.

4.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn parhau i gredu bod y cynnig cychwynnol yn cyfuno ardaloedd sy'n rhannu cysylltiadau trafnidiaeth da, ac y byddai'n ffurfio etholaeth gydlynol. Byddai'r etholaeth

arfaethedig hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn ddychwelyd cymuned gyfan Bargoed i un etholaeth ac yn galluogi'r Comisiwn i gadw at Reol 5 y ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi bod cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol i'r cynnig gan yr holl bleidiau cymwys, heblaw am Blaid Cymru.

4.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Blaenau Gwent ar hyn o bryd):

Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Cendl (2,717), Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtyleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rasa (2,463), Sirhywi (4,210), Six Bells (1,740) a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):

Cwm Darran (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432) a Thwyn Carno (1,721);

3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd; a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):

Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).

4.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Blaenau Gwent and Rhymney. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Blaenau Gwent a Rhymni.

Enw arfaethedig yr etholaeth

4.9 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r etholaeth arfaethedig ac enw arfaethedig yr etholaeth. Yr unig enwau amgen a gynigiwyd oedd y rhai hynny gan Blaid Cymru ar gyfer etholaethau amgen yn yr ardal. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw'r etholaeth arfaethedig.

4.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Blaenau Gwent and Rhymney a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Blaenau Gwent a Rhymni.

Blaenau Gwent a Rhymni



5. Brecon, Radnor and Cwm-tawe (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe)

5.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Brecon and Radnorshire** ar hyn o bryd):

Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Diserth a Threcoed (1,055), Felin-fach (1,102), y Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), y Gelli Gandryll (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafan Fawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llan-gors (901), Llangunllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd Wells (1,450), Llanllŷr (978), Maes-car/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr (1,589), St. David Within (1,263), St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Tal-y-bont ar Wysg (1,537), Tawe Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Ysgir (888) ac Ystradgynlais (1,935); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Neath** ar hyn o bryd):

Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r Graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebanos (1,092) ac Ystalyfera (2,169).

5.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Brecon and Radnor**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Aberhonddu a Maesyfed.**

5.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys y wardiau etholiadol o Gwm Tawe yn yr etholaeth arfaethedig. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau yn erbyn cynnwys yr ardal hon mewn etholaeth wledig iawn lle y byddai'r canol yn bell yn ddaearyddol. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r cynrychiolaethau a gafwyd mai'r anheddiad trefol mwyaf yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire oedd Ystradgynlais yn ardal dde-orllewinol yr etholaeth, ac felly byddai ychwanegu wardiau Pontardawe a'r ardal amgylchynol at yr etholaeth bresennol yn rhesymegol oherwydd bod yr ardaloedd yn rhannu cysylltiadau ffyrdd da.

5.4 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig trefniadau amgen. Cynigiodd Plaid Cymru ymestyn yr etholaeth bresennol i Sir Fynwy trwy ei chyfuno â'r Fenni, a chynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol ei hymestyn i Sir Drefaldwyn. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol na Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Pwysleisiodd cyflwyniad y Ceidwadwyr fod 30% o'r etholwyr presennol yn ardal Ystradgynlais a bod ychwanegu'r ardaloedd a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn estyniad naturiol o'r etholaeth bresennol.

5.5 Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod beth bynnag sy'n digwydd i ardal Brycheiniog a Maesyfed yn cael effaith sylweddol ar y cynigion ar gyfer gweddill Cymru. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai ardal Cwm Tawe gael ei chynnwys mewn etholaeth gyda wardiau yn Abertawe. Gwnaethant ddadlau bod achos cryfach, o bosibl, dros gynnwys ardal Ystradgynlais mewn etholaeth i'r de; fodd bynnag, cydnabuont y byddai hyn yn anodd o ganlyniad i'r rhifyddeg a ffactorau statudol. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad mai'r peth gorau fyddai cynnwys rhannau o

Sir Drefaldwyn mewn etholaeth arfaethedig gyda Brycheiniog a Maesyfed o ganlyniad i'r cysylltiadau o fewn Cyngor Sir Powys.

5.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y dadleuon a gyflwynwyd yn erbyn y cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn bwriadu cadw'r cynnig cychwynnol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r dref fwyaf yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yw Ystradgynlais, sy'n rhan o Gwm Tawe ac sydd â chysylltiadau da ag ardaloedd Pontardawe ac Ystradgynlais y bwriedir eu hychwanegu at yr etholaeth bresennol. Mae'r holl gymunedau hyn o fewn Cwm Tawe ac maen nhw'n debyg o ran natur ac yn rhannu cysylltiadau da. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gyflwynwyd, ond mae'n credu bod y cynnig cychwynnol yn tarfu lleiaf ar draws yr etholaethau amgylchynol sydd, yn ei dro, yn creu 'effaith ddomino' ar etholaethau pellennig eraill ledled Cymru.

5.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire ar hyn o bryd):

Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Diserth a Threcoed (1,055), Felin-fach (1,102), y Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), y Gelli Gandryll (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafan Fawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llan-gors (901), Llangunllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd Wells (1,450), Llanllŷr (978), Maes-car/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr (1,589), St. David Within (1,263),

St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Tal-y-bont ar Wysg (1,537), Tawe Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Ysgir (888) ac Ystradgynlais (1,935); a'r

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r Graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebanos (1,092) ac Ystalyfera (2,169).

5.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Brecon, Radnor and Cwm-tawe. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

Enw arfaethedig yr etholaeth

5.9 Cafodd y Comisiwn enwau amgen a threfniadau daearyddol amgen ar gyfer yr ardaloedd sydd dan sylw yn y cynnig cychwynnol, gan gynnwys Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe Uchaf neu Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

5.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gyfansoddiad daearyddol gwahanol ac felly gwnaethant gynnig enwau amgen, nad oeddent yn briodol ar gyfer ein cynnig diwygiedig.

5.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac yn cytuno y dylai'r enw adlewyrchu'r etholaeth arfaethedig gyfan yn well. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw Brecon, Radnor and Cwm-tawe, a'r enw amgen swyddogol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe



1.Aber-craf (1,143)
2.Llanfair-ym-Muallt (1,849)
3.Crucywel (2,410)
4.Cwm-twrch (1,557)
6.Dyserth a Threcoed (1,055)
7.Y Gelli (1,355)
8.Trefyclo (2,296)
9.Llanbadarn Fawr (925)
10.Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949)
11.Gogledd Llandrindod (1,517)
12.De Llandrindod (1,726)
13.Llangatwg (762)
14.Llangors (901)
15.Llangynidr (865)
16.Llanllyr (978)
17.Llanandras (2,174)
18.St. David Fewnol (1,263)
19.St. John (2,365)
20.St. Mary (2,194)
21.Ynyscedwyn (1,705)
22.Ystradgynlais (1,935)
23.Allt-wen (2,023)
24.Cwmllynfell (921)
25.Godre'r-graig (1,514)
26.Gwauncaegurwen (2,220)
27.Brynaman Isaf (1,040)
28.Pontardawe (4,283)
29.Rhos (1,997)
30.Trebanos (1,092)
31.Ystalyfera (2,169)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

6. Bridgend (Pen-y-bont)

6.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Ogmore** ar hyn o bryd):

Abercynffig (1,868), Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Caerau (4,795), Cefn Cribwr (1,180), Felindre (2,087), Hendre (3,175), Llangeinwyr (887), Llangynwyd (2,351), Dwyrain Maesteg (3,741), Gorllewin Maesteg (4,327), Nant-y-moel (1,745), Bro Ogwr (2,357), Penprysg (2,474), Pontycymer (1,773), Sarn (1,786) ac Ynysawdre (2,748); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Bridgend** ar hyn o bryd):

Bracla (8,276), Coety (3,006), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Morfa (3,210), y Castellnewydd (4,287), Oldcastle (3,783), Pendre (1,654) a Phen-y-fai (1,853).

6.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,388 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Bridgend**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Pen-y-bont**.

6.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a gododd bryderon ynglŷn â rhannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth, gan na fyddai wardiau Cefn Glas, a Llangewydd a Brynhyfryd yn cael eu cynnwys yn y cynnig cychwynnol ar gyfer Pen-y-bont. Dywedodd y cynrychiolaethau ei bod yn

afresymegol cymryd rhan o Ben-y-bont a'i rhoi mewn etholaeth gyfagos.

6.4 Rhoddodd nifer o gynrychiolaethau drefniadau amgen ar gyfer yr ardal. Cytunodd y Blaid Geidwadol â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a chynigiodd etholaeth Pen-y-bont a oedd yn cynnwys Porthcawl ac ardal Canol Tref Pen-y-bont, ac etholaeth Aberafan Maesteg a oedd yn uno Aberafan ag Ogwr trwy Gwm Gwynfi. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth Pen-y-bont arfaethedig a oedd yn dilyn ffin eithaf tebyg i'r cynnig cychwynnol ac yn mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd; fodd bynnag, mae eu cynnig yn rhannu cymuned Trelales. Cynigiodd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol rannu ardal Pen-y-bont rhwng 3 etholaeth. Roedd Canol Tref Pen-y-bont i'w uno â Phorthcawl i ffurfio etholaeth Pen-y-bont. Roedd Bro Ogwr i'w chyfuno â rhannau o etholaeth Rhondda, gyda Maesteg yn ymuno ag etholaeth "Aberafan gyda Maesteg a De-ddwyrain Abertawe".

6.5 Cytunodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd ei bod yn bwysig dychwelyd yr ardal a welir fel estyniad o dref Pen-y-bont i etholaeth Pen-y-bont. I gyflawni hyn, gwnaethant rannu cymuned Trelales rhwng 2 etholaeth.

6.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd; fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn o'r farn bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau rhannu cymuned Trelales. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol i rannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth. Felly, mae'r Comisiwn wedi dychwelyd ardal canol tref Pen-y-bont i gyd i etholaeth arfaethedig Pen-y-bont (trosglwyddo wardiau etholiadol Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd i'r etholaeth hon). Mae'r Comisiwn wedi gallu gwneud hyn heb greu cymuned hollt trwy drosglwyddo ardal Pencoed (gan gynnwys wardiau etholiadol Felindre, Hendre a Phenprysg) allan o'r cynnig cychwynnol.

6.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Abercynffig (1,868), Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Caerau (4,795), Cefn Cribwr (1,180), Llangeinwyr (887), Llangynwyd (2,351), Dwyrain Maesteg (3,741), Gorllewin Maesteg (4,327), Nant-y-moel (1,745), Bro Ogwr (2,357), Pontycymer (1,773), Sarn (1,786) ac Ynysawdre (2,748); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Bridgend ar hyn o bryd):

Bracla (8,276), Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Coety (3,006), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Llangewydd a Brynhyfryd (1,878), Morfa (3,210), y Castellnewydd (4,287), Oldcastle (3,783), Pendre (1,654) a Phen-y-fai (1,853).

6.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,464 o etholwyr, sydd 4.2% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Bridgend. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Pen-y-bont.

<u>Enw arfaethedig yr etholaeth</u>

6.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig. Derbyniodd gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu newid i enw Cymraeg yr etholaeth, sef Pen-y-bont.

6.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant daearyddol gwahanol a fyddai'n gweld yr ardal a amlinellir yn y cynigion cychwynnol yn cael ei rhannu ar draws 2 etholaeth, fel etholaeth Pen-y-bont ac etholaeth Castell-nedd, Aberafan a Maesteg.

6.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad, gan fod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Bridgend a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Pen-y-bont.

Pen-y-bont


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:93,490
1.Bryncoch (1,757)
2.Ynysawdre (2,748)
3.Cefn Glas (1,360)
4.Litchard (2,080)
5.Llangewydd a Brynhyfryd (1,878)
6.Morfa (3,210)
7.Castellnewydd (4,287)
8.Hengastell (3,783)
9.Pendre (1,654)
Caerau (4,795)
Blaengarw (1,333)
Nant-y-moel (1,745)
Dwyrain Maesteg (3,741)
Pontycymer (1,773)
Bro Ogwr (2,357)
Gorllewin Maesteg (4,327)
Llangeinor (887)
Llangynwyd (2,351)
Melin Ifan Ddu (1,839)
Betws (1,595)
Abercynffig (1,868)
Bryncethin (1,261)
Sarn (1,786)
Cefn Cribwr (1,180)
Pen-y-fai (1,853)
Coety (3,006)
Bracla (8,276)
Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574)
Llangrallo Isaf (1,160)
1
2
3
4
5
6
7
8
9
BRIDGEND / PEN-Y-BONT AR OGWR
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

7. Caerfyrddin (Carmarthen)

7.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Carmarthen East and Dinefwr** ar hyn o bryd):

Abergwili (1,912), Rhydaman (1,984), Betws (1,825), Cenarth (1,669), Cil-y-cwm (1,175), Cynwyl Gaeo (1,351), Garnant (1,558), Glanaman (1,802), Llanddarog (1,678), Llandeilo (2,307), Llanymddyfri (1,963), Llandybie (3,277), Llanegwad (2,040), Llanfihangel Aberbythych (1,503), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangadog (1,629), Llangeler (2,772), Llanybydder (2,027), Manordeilo a Salem (1,816), Pen-y-groes (2,347), Pontaman (2,092), Cwarter Bach (2,218) a Saron (3,353); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** ar hyn o bryd):

Gogledd Tref Caerfyrddin (3,691), De Tref Caerfyrddin (2,746), Gorllewin Tref Caerfyrddin (3,601), Cynwyl Elfed (2,468), Lacharn (2,161), Llanboidy (1,705), Llansteffan (1,656), Sanclêr (2,500), Trelech (1,754) a Hendy-gwyn ar Daf (1,830).

7.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,606 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Caerfyrddin**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Carmarthen**.

7.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi creu 2 etholaeth wedi'u ffurfio'n llwyr o wardiau etholiadol o Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, roedd cryn wrthwynebiad i gynnwys

ward Llangynnwr yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Fel y dywedwyd yn nifer o'r cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn, mae gorsaf drenau Caerfyrddin o fewn ward etholiadol Llangynnwr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu ardaloedd o etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr yn cael eu cynnwys mewn etholaeth Llanelli o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal.

7.4 Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn yr ail gyfnod ymgynghori a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardaloedd gwledig o Gaerfyrddin yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd y gwrthwynebiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwahaniaethau rhwng y 2 ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth hefyd o blaid etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn yr ail gyfnod ymgynghori.

7.5 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol nifer o drefniadau amgen, ond gwnaethant nodi nad oedd y rhain yn adlewyrchu cysylltiadau lleol ac felly roeddent yn cefnogi'r cynnig cychwynnol gyda newid i un ward etholiadol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod ward etholiadol Llangynnwr yn cael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin yn seiliedig ar y dadleuon a wnaed yn y cynrychiolaethau.

7.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y dryswch a fyddai'n cael ei greu trwy beidio â chynnwys ward etholiadol Llangynnwr, sy'n cynnwys gorsaf drenau Tref Caerfyrddin, yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Yn anffodus, o ganlyniad i'r angen i greu etholaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol, nid yw'r Comisiwn wedi gallu mynd i'r afael â'r pryderon eraill ynglŷn â wardiau etholiadol etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd; fodd bynnag, mae'r ddwy etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Gaerfyrddin.

7.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):

Abergwili (1,912), Rhydaman (1,984), Betws (1,825), Cenarth (1,669), Cil-y-cwm (1,175), Cynwyl Gaeo (1,351), Garnant (1,558), Glanaman (1,802), Llanddarog (1,678), Llandeilo (2,307), Llanymddyfri (1,963), Llandybie (3,277), Llanegwad (2,040), Llanfihangel Aberbythych (1,503), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangadog (1,629), Llangeler (2,772), Llangynnwr (2,077), Llanybydder (2,027), Manordeilo a Salem (1,816), Pen-y-groes (2,347), Pontaman (2,092), Cwarter Bach (2,218) a Saron (3,353); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Gogledd Tref Caerfyrddin (3,691), De Tref Caerfyrddin (2,746), Gorllewin Tref Caerfyrddin (3,601), Cynwyl Elfed (2,468), Lacharn (2,161), Llanboidy (1,705), Llansteffan (1,656), Sanclêr (2,500), Trelech (1,754) a Hendy-gwyn ar Daf (1,830).

7.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,683 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Caerfyrddin. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Carmarthen.

Enw arfaethedig yr etholaeth

7.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig ac a oedd hefyd yn awgrymu y dylai enw'r etholaeth gael ei gadw fel y'i cynigiwyd. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r enw gael ei gadw hefyd.

7.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Caerfyrddin a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Carmarthen.



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

8. Caerphilly (Caerffili)

8.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Islwyn** ar hyn o bryd):

Aber-carn (4,139), Argoed (2,035), y Coed-duon (6,330), Cefn Fforest (2,845), Crosskeys (2,527), Crymlyn (4,332), Maesycwmer (1,811), Trecelyn (4,892), Pengam (2,760), Penmaen (4,219), Pontllanfraith (6,343), Dwyrain Rhisga (4,611), Gorllewin Rhisga (3,973), Ynys-ddu (2,978); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Caerphilly** ar hyn o bryd):

Hengoed (4,055), Llanbradach (3,239), Sant Catwg (5,579) ac Ystrad Mynach (4,067).

8.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,735 o etholwyr, sydd 3.6% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Islwyn**.

8.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion cychwynnol yn yr ardal hon, ac un trefniant amgen yr oedd cryn gefnogaeth iddo o'r ardal leol. Byddai'r trefniant amgen hwn yn gweld Islwyn yn cael ei chyfuno â Gorllewin Casnewydd ac etholaeth newydd Caerffili yn cael ei chreu. Roedd y gefnogaeth i'r trefniant hwn wedi'i seilio ar y cysylltiadau lleol a'r cysylltiadau teithio yn yr ardal. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynigion cychwynnol yn yr ardal, gan gynnwys gan rai Aelodau Seneddol.

8.4 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal ac yn llwyr yn erbyn y gwrthgynnig a amlinellir uchod. Nid oeddent yn credu bod y cysylltiadau yn yr ardal yn y gwrthgynnig mor gryf â'r rhai yn y cynigion cychwynnol. Cododd y Ceidwadwyr fater ward amddifad Nelson a grëwyd gan y cynigion cychwynnol, nad oedd y trefniant amgen yn ymdrin ag ef, ac chynigiodd newidiadau i'r cynigion cychwynnol yn yr ardal (mae ward amddifad yn ward etholiadol sengl o ardal prif gyngor). Cafodd y Comisiwn wrthwynebiad ychwanegol i'r gwrthgynnig hefyd, gyda rhai sylwadau'n gwrthwynebu cynnwys y Coed-duon a Phontllanfraith mewn etholaeth Caerffili o ganlyniad i'w cysylltiadau ag Islwyn.

8.5 Cynigiodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol newidiadau sylweddol i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth Gorllewin Casnewydd a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga a Crosskeys yn unig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac etholaeth Caerffili a oedd yn cynnwys llawer o fasn Caerffili a rhannau o Islwyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol 2 etholaeth: Caerffili gyda Gogledd Islwyn a Gorllewin Casnewydd gydag Islwyn, a oedd yn drefniant gwahanol i'r gwrthgynnig a grybwyllwyd yn 8.3 uchod.

8.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod Islwyn yn rhan fwy uniongyrchol o gyffiniau Casnewydd na Chaerffili, yn enwedig o ran cysylltiadau rheilffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd yn seiliedig ar yr A467. Roeddent yn cytuno â'r trefniadau amgen a gynigiwyd ac yn eu hargymell yn seiliedig ar gysylltiadau lleol rhwng y dref a'r ardal amgylchynol uniongyrchol.

8.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r trefniant mwy naturiol ar gyfer Caerffili fyddai creu etholaeth wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod mwy o gysylltiadau lleol rhwng Gorllewin Casnewydd ac Islwyn na Gorllewin Casnewydd a basn Caerffili, ac felly mae wedi cynnig etholaeth sy'n adlewyrchu'r

dystiolaeth a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn hefyd wedi mynd i'r afael â mater ward amddifad Nelson.

8.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):

Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas a Machen (7,902), Hengoed (4,055), Llanbradach (3,239), Morgan Jones (5,636), Nelson (3,563), Penyrheol (9,021), Sant Catwg (5,579), St. James (4,267), Sant Martin (6,582) ac Ystrad Mynach (4,067); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):

Cefn Fforest (2,845), Maesycwmer (1,811), Pengam (2,760) a Phontllanfraith (6,343).

8.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,325 o etholwyr, sydd 1.5% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Caerphilly. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Caerffili.

Enw arfaethedig yr etholaeth

8.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn. Byddai'r trefniant daearyddol newydd yn cael ei adlewyrchu mewn enw mwy priodol hefyd. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth a oedd yn dweud y dylai'r enw ar gyfer y trefniant newydd adlewyrchu'r etholaeth bresennol ac enw'r prif gyngor, sef Caerffili.

8.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw i adlewyrchu'r trefniadau daearyddol newydd, gan argymell yr enw Caerffili.

8.12 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Caerphilly a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Caerffili.

Caerffili


0
5
cilomedrau
Graddfa 1:81,500
St. Cattwg
(5,579)
1
4
2
Pontllanfraith
(6,343)
Nelson
(3,563)
Ystrad
Mynach
(4,067)
Maesycwmmer
(1,811)
1. Cefn Fforest (2,845)
2. Hengoed (4,055)
3. Morgan Jones (5,636)
4. Pengam (2,760)
Llanbradach
(3,239)
Cwm Aber
(4,655)
Bedwas, Trethomas and Machen
(7,902)
3
Penyrheol
(9,021)
St. James
(4,267)
St. Martins
(6,582)
Comisiwn Ffiniau
i Gymru
Boundary Commission
for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

9. Cardiff East (Dwyrain Caerdydd)

9.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd, sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff Central** ar hyn o bryd):

Adamsdown (5,692), Cathays (13,099), Cyncoed (8,475), Pentwyn (10,783), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd, sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff South and Penarth** ar hyn o bryd):

Llanrhymni (7,758) a Rhymni (6,536).

9.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,486 o etholwyr, sydd 1.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff Central**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Canol Caerdydd**.

9.3 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a amlygodd y ffaith y byddai ward etholiadol Trowbridge yn cael ei datgysylltu o weddill etholaeth De Caerdydd a Phenarth o ganlyniad i gynnwys ward Rhymni yn etholaeth Canol Caerdydd.

9.4 Cynigiodd cyflwyniad y Blaid Geidwadol fân newidiadau ledled Dinas Caerdydd, gan ychwanegu ward etholiadol Rhymni at Dde Caerdydd a Phenarth, ac ychwanegu ward etholiadol Llanrhymni at Ogledd Caerdydd. O ganlyniad, byddai eu hetholaeth Canol Caerdydd yn cynnwys ward

etholiadol Glanyrafon o Orllewin Caerdydd. Cynigiodd Plaid Cymru greu etholaeth Canol a Dwyrain Caerdydd, a oedd yn cywiro mater Trowbridge trwy amnewid wardiau etholiadol Pen-y-lan, Pentwyn a Chyncoed â Glanyrafon, y Sblot a Trowbridge. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys ward etholiadol Gabalfa a throsglwyddo Rhymni i Dde Caerdydd a Phenarth. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol.

9.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth Canol a Dwyrain Caerdydd, a oedd yn cynnwys trosglwyddo ward etholiadol Gabalfa o Ogledd Caerdydd i Ganol a Dwyrain Caerdydd, gan gyfnewid wardiau etholiadol y Sblot a Trowbridge am Adamsdown yn eu hetholaeth arfaethedig y Barri, De Caerdydd a Phenarth.

9.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ward etholiadol Trowbridge wedi'i hynysu ac wedi mynd i'r afael â hyn trwy gynnig cynnwys ward etholiadol Trowbridge yn ei etholaeth Dwyrain Caerdydd arfaethedig, gyda ward etholiadol Cathays yn symud i Dde Caerdydd a Phenarth. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ward etholiadol Cathays yn ward dra phoblog a chysylltiedig sydd â chysylltiadau da â'r wardiau i'r de, ac felly ei bod yn briodol yn rhan o etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Ystyriodd y Comisiwn ystod o drefniadau amgen ar gyfer yr ardal, gan gynnwys y gwrthgynigion, mewn ymgais i fynd i'r afael â mater Trowbridge. Fodd bynnag, byddai'r opsiynau amgen sydd ar gael yn creu mwy o aflonyddwch a chanlyniadau annymunol ar gyfer etholaethau cymdogol a gefnogir yn dda. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr etholaethau arfaethedig yn cadw cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sydd â chysylltiadau agos.

9.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd):

Adamsdown (5,692), Cyncoed (8,475), Pentwyn (10,783), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):

Llanrhymni (7,758), Rhymni (6,536) a Trowbridge (11,076).

9.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,463 o etholwyr, sydd 1.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff East. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Caerdydd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

9.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn ac a oedd hefyd yn awgrymu y dylai enw'r etholaeth newid. Derbyniodd y Comisiwn enwau amgen gan gynnwys Dwyrain Caerdydd, a Chanol a Dwyrain Caerdydd. Roedd y dewisiadau amgen hyn yn adlewyrchu trefniadau daearyddol gwahanol.

9.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

9.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Cardiff East a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Caerdydd.

Dwyrain Caerdydd



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

10. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)

10.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff North** ar hyn o bryd):

Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Gogledd Llandaf (5,992), Llanisien (13,492), Pontprennau/Pentref Llaneirwg (8,047), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,928); a

2. Ward etholiadol Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Pontypridd** ar hyn o bryd).

10.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,143 o etholwyr, sydd 3.1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff North**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Gogledd Caerdydd**.

10.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid y cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, roedd rhai cynrychiolaethau yn erbyn y cynnig, a'r prif reswm dros y gwrthwynebiad oedd cynnwys Ffynnon Taf, sy'n rhan o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd un gynrychiolaeth hefyd yn argymell cynnwys ward etholiadol Radur yng Ngogledd Caerdydd. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, awgrymodd yr Aelod Seneddol dros Ogledd Caerdydd fod ychwanegu Ffynnon Taf at Ogledd Caerdydd yn synhwyrol o ganlyniad i'r cysylltiadau cyfathrebu a ffyrdd da, er bod yr ardal yn rhan o awdurdod lleol cymdogol. Roedd cynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd yn ymwneud â'r llinell derfyn rhwng Gogledd Caerdydd a Chanol Caerdydd, ac yn cynnig y dylid defnyddio Maendy fel llinell ffin naturiol o ganlyniad i'r ddaearyddiaeth leol.

10.4 Roedd cynnig y Blaid Geidwadol yn argymell trosglwyddo ward etholiadol Gogledd Llandaf i Orllewin Caerdydd a dychwelyd ward etholiadol Ffynnon Taf i etholaeth Pontypridd. Roeddent hefyd yn cynnig trosglwyddo ward etholiadol Llanrhymni i Ogledd Caerdydd. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys ward Llanrhymni o Ganol Caerdydd, a wardiau Pentyrch a Radur o Orllewin Caerdydd yn eu hetholaeth Gogledd Caerdydd, gan drosglwyddo wardiau etholiadol Gabalfa a'r Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr ail gyfnod ymgynghori, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi diwygio eu hetholaeth Gogledd Caerdydd i gynnwys ward y Mynydd Bychan o fewn etholaeth Gogledd Caerdydd newydd ei chynnig i greu ffiniau caled wrth yr A44 a'r llinell reilffordd i'r de a'r dwyrain, yn y drefn honno. Byddai hyn yn cael ei gydbwyso trwy drosglwyddo ward Llanrhymni o Ogledd Caerdydd i etholaeth Canol Caerdydd newydd ei chynnig. Nododd y Democratiaid Rhyddfrydol fod hyn ymhell o fod yn gyfuniad delfrydol oherwydd yr unig gysylltiad trafnidiaeth rhwng Llanrhymni a gweddill yr etholaeth yw pont droed/beicio, ac mae'r brif ffordd yn mynd heibio'n gyflym trwy ward etholiadol gymdogol Rhymni.

10.5 Cynigiodd Plaid Cymru gyfuniad sylweddol wahanol o wardiau etholiadol a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Pentwyn, Cyncoed, Rhiwbeina, Pontprennau a Phentref Llaneirwg, a Phen-y-lan. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol.

10.6 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid etholaeth Gogledd Caerdydd trwy ddychwelyd ward etholiadol Ffynnon Taf i etholaeth arfaethedig Pontypridd a Llantrisant. Roedd y cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon a gafwyd ynglŷn â'r wardiau hynny. Fodd bynnag, o ganlyniad, byddai'n rhaid i wardiau etholiadol Gogledd Llandaf, Gabalfa, Pentwyn a Chyncoed i gyd gael eu trosglwyddo i etholaethau eraill i gyflawni'r amrediad etholwyr statudol. Derbyniwyd nifer o gynrychiolaethau ynglŷn ag etholaethau Caerdydd yn ystod y cyfnodau ymgynghori, yn enwedig Gogledd Caerdydd. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn cefnogi cadw ac ymestyn etholaeth Gogledd

Caerdydd ac yn amlygu'r cysylltiadau agos rhwng wardiau Gabalfa, Gogledd Llandaf a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais.

10.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cadw ei gynnig cychwynnol. Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig, ac mae'r dewisiadau amgen a gynigiwyd yn llai dymunol i'r rhanbarth cyfan. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwrthwynebiad i gynnwys ward Ffynnon Taf; fodd bynnag, bu angen ei hychwanegu er mwyn bodloni'r cwota statudol. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi bod cryn gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol a chynnwys Ffynnon Taf yn etholaeth Gogledd Caerdydd.

10.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff North ar hyn o bryd):

Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Gogledd Llandaf (5,992), Llanisien (13,492), Pontprennau/Pentref Llaneirwg (8,047), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,928); a

2. Ward etholiadol Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

10.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,143 o etholwyr, sydd 3.1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff North. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Gogledd Caerdydd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

10.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r cynnig cychwynnol a chafodd rai trefniadau daearyddol amgen. Fodd bynnag, roedd yr holl gynrychiolaethau'n cefnogi enw'r etholaeth arfaethedig.

10.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw o'r cynnig cychwynnol.

10.12 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Cardiff North a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Gogledd Caerdydd.

Gogledd Caerdydd



H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

11. Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)

11.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff South and Penarth** ar hyn o bryd):

Butetown (7,834), Grangetown (13,257), y Sblot (9,081) a Trowbridge (11,076);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff South and Penarth** ar hyn o bryd):

Cornerswell (4,069), Llandochau (1,578), Plymouth (4,584), St. Augustine's (5,318), Stanwell (3,365) a Sili (3,696); a

3. Ward etholiadol Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol **Vale of Glamorgan** ar hyn o bryd).

11.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,246 o etholwyr, sydd 4.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff South and Penarth**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **De Caerdydd a Phenarth**.

11.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth. Roedd rhai cynrychiolaethau'n codi'r ffaith y byddai ward etholiadol Trowbridge yn cael ei hynysu'n llwyr oddi wrth weddill yr etholaeth o ganlyniad i drosglwyddo ward etholiadol Rhymni i etholaeth arfaethedig Canol Caerdydd, a oedd yn dileu'r prif lwybr trafnidiaeth

o Dde Caerdydd a Phenarth i Trowbridge. Un datrysiad a gynigiwyd oedd cynnwys Trowbridge mewn etholaeth Dwyrain Caerdydd a gosod Cathays mewn etholaeth arfaethedig Canol Caerdydd a Phenarth. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn gwrthwynebu De Caerdydd a Phenarth gan unigolion a argymhellodd ddychwelyd ardal Penarth i etholaeth Bro Morgannwg. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn argymell cadw ward etholiadol Dinas Powys yn etholaeth Bro Morgannwg.

11.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol fân newidiadau i etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Er mwyn mynd i'r afael â mater Trowbridge, cynigiodd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol ychwanegu ward etholiadol Rhymni at Dde Caerdydd a Phenarth a dychwelyd ward etholiadol Dinas Powys i etholaeth Bro Morgannwg. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol ar gyfer De Caerdydd a Phenarth. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig creu etholaeth y Barri a De Caerdydd yn cynnwys wardiau Cadog, Castleland, Court, Gibbonsdown, Buttrills, Dyfan, Baruc ac Illtud, a throsglwyddo wardiau y Sblot, Trowbridge, Llandochau, Cornerswell a Dinas Powys i etholaeth gymdogol.

11.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ddychwelyd Dinas Powys i etholaeth Bro Morgannwg, ac o ganlyniad byddai nifer o wardiau sy'n ffurfio rhan o Dref y Barri yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig y Barri, De Caerdydd a Phenarth. Byddai hyn yn creu cymuned hollt yn Nhref y Barri. Aeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r afael â mater datgysylltu Trowbridge hefyd trwy greu etholaeth Canol a Dwyrain Caerdydd.

11.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ward etholiadol Trowbridge wedi'i hynysu ac wedi ceisio mynd i'r afael â hynny. Mae'r Comisiwn yn cydymdeimlo â'r cynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai Dinas Powys gael ei chynnwys mewn etholaeth Bro Morgannwg. Er y byddai etholaeth o'r fath o fewn y

cwota statudol, mae'n creu effaith gynyddol ar yr etholaethau amgylchynol ar draws y rhanbarth. Mae'r Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd, ond nid oedd o'r farn bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cyfiawnhau hollti Tref y Barri. Nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r cynigion amgen sy'n rhannu Tref y Barri oherwydd byddai hynny'n gwaethygu'r gwrthwynebiad a gafodd y Comisiwn a oedd yn datgan bod preswylwyr Dinas Powys yn edrych tuag at y Barri ar gyfer eu gwasanaethau. Byddai cynnwys ardal Penarth yn etholaeth Bro Morgannwg yn mynd dros y cwota statudol ac yn ei gwneud yn anodd iawn cyflawni etholaethau sy'n dod o fewn yr amrediad statudol yng Nghaerdydd.

11.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):

Butetown (7,834), Grangetown (13,257) a'r Sblot (9,081);

2. Ward etholiadol Cathays (13,099) o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):

Cornerswell (4,069), Llandochau (1,578), Plymouth (4,584), St. Augustine's (5,318), Stanwell (3,365) a Sili (3,696); a

4. Ward etholiadol Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd).

11.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,269 o etholwyr, sydd 1.5% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff South and Penarth. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw De Caerdydd a Phenarth.

Enw arfaethedig yr etholaeth

11.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi mân newid i'r enw a hefyd rhai cynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylid cadw enw'r etholaeth. Fodd bynnag, cynigiwyd rhai trefniadau daearyddol amgen, ynghyd ag enwau amgen, fel y Barri a De Caerdydd.

11.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i'r trefniant daearyddol ac felly newid i'r enw arfaethedig, gan awgrymu etholaeth y Barri, De Caerdydd a Phenarth.

11.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Cardiff South and Penarth a'r enw amgen swyddogol a awgrymir yw De Caerdydd a Phenarth.

De Caerdydd a Phenarth



12. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)

12.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Cardiff West** ar hyn o bryd):

Caerau (7,859), Treganna (11,457), Creigiau/Sain Ffagan (4,409), Trelái (9,576), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Glanyrafon (9,621); a

2. Ward etholiadol Pont-y-clun (6,061) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Pontypridd** ar hyn o bryd).

12.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,947 o etholwyr, sydd 0.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff West**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Gorllewin Caerdydd**.

12.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ward etholiadol Pont-y-clun yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Roeddent yn datgan bod y ward etholiadol o fewn ffin awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a bod ganddi fwy o gysylltiadau cymunedol ag ardal Llantrisant a Thonysguboriau na Chaerdydd. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd ac yn gwrthod y gwrthgynigion gan y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

12.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol drosglwyddo ward etholiadol Glanyrafon o etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd i etholaeth Canol Caerdydd a chynnwys ward etholiadol Gogledd

Llandaf yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Cynigiodd Plaid Cymru greu set wahanol iawn o drefniadau ar draws Caerdydd, gydag etholaeth Gorllewin Caerdydd yn derbyn wardiau etholiadol Gabalfa, Gogledd Llandaf a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais, tra bod wardiau etholiadol Glanyrafon, Creigiau/Sain Ffagan, Pentyrch a Phont-y-clun yn trosglwyddo allan i etholaethau cymdogol. Roedd cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymestyn etholaeth Gorllewin Caerdydd ymhellach i ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf trwy gynnwys wardiau etholiadol Brynna, Llanharan a Llanhari, a throsglwyddo wardiau etholiadol Radur a Phentyrch i etholaeth Gogledd Caerdydd. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol.

12.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ddefnyddio etholaeth bresennol gyfan Cardiff West a chynnwys ward etholiadol Gogledd Llandaf o etholaeth Gogledd Caerdydd. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys ward etholiadol Pont-y-clun mewn etholaeth amgen gymdogol, fel y cynigiwyd gan nifer o ymatebwyr.

12.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y gefnogaeth dros gynnwys Pont-y-clun mewn etholaeth Pontypridd neu Rondda Cynon Taf. Fodd bynnag, mae'r newid hwn yn ei gwneud yn anodd creu etholaethau cydlynol ar draws gweddill Caerdydd. Er y cyflwynwyd trefniadau amgen, prin oedd y cynrychiolaethau a oedd yn eu cefnogi. Cafodd y Comisiwn rywfaint o gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol hefyd. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cadw ei gynnig cychwynnol.

12.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff West ar hyn o bryd):

Caerau (7,859), Treganna (11,457), Creigiau/Sain Ffagan (4,409), Trelái (9,576), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Glanyrafon (9,621); a

2. Ward etholiadol Pont-y-clun (6,061) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

12.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,947 o etholwyr, sydd 0.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff West. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Gorllewin Caerdydd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

12.9 Derbyniodd y Comisiwn rywfaint o dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r cynnig cychwynnol a hefyd rhai trefniadau daearyddol amgen. Fodd bynnag, roedd yr holl gynrychiolaethau'n cefnogi enw'r etholaeth arfaethedig.

12.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw o'r cynnig cychwynnol.

12.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Cardiff West a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Gorllewin Caerdydd.

Gorllewin Caerdydd



13. Ceredigion Preseli

13.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ceredigion (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Ceredigion** ar hyn o bryd):

Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522), Aberteifi/Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi/Cardigan-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol/Central (1,358), Aberystwyth Gogledd/North (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraed (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troed-yr-aur (1,110) ac Ystwyth (1,673); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Preseli Pembrokeshire** ar hyn o bryd):

Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099), Dinas (1,313), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,208), Wdig (1,509), Treletert (1,873), Llanrhian (1,232), Trefdraeth (878), Tyddewi (1,521), Llandudoch (1,775), Scleddau (1,158) a Solfach (1,274).

13.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,269 o etholwyr, sydd 3.9% uwchlaw Cwota

Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Ceredigion Preseli**.

13.3 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys yn etholaeth Ceredigion Preseli ar y sail bod gan yr ardal i'r gogledd o Glunderwen gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol gwell â'r ardal. Roedd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau'r achos hwn ar sail ieithyddol ac yn awgrymu er mwyn cyflawni'r cwota etholiadol ar draws gorllewin Cymru, y gallai Tyddewi gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro. Dadleuodd y cynrychiolaethau nad oes gan Dyddewi lawer yn gyffredin ag Aberystwyth. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau o awdurdod lleol Sir Benfro yn unig neu o ardal awdurdod lleol Ceredigion. Fodd bynnag, byddai'r ddwy etholaeth hyn y tu allan i'r cwota etholiadol.

13.4 Cynigiodd Llafur Cymru drosglwyddo Solfach a Thyddewi allan o etholaeth Ceredigion Preseli a chynnwys Maenclochog yn lle hynny. Roedd Plaid Cymru yn cefnogi'r newidiadau hyn ond hefyd wedi cynnwys cymuned Treletert yn y cyfnewid rhwng y 2 etholaeth. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

13.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig cychwynnol. Gwnaethant gydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â maint daearyddol yr etholaeth. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod yr etholaethau a grëwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn yn dilyn y cysylltiadau ffyrdd mwyaf cyfleus sydd ar gael a'u bod yn gweddu orau i ffiniau gweinyddol a naturiol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol rai mân newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Gwnaethant argymell cyfnewid nifer fach o wardiau rhwng etholaethau Ceredigion Preseli a Chanol a De Sir Benfro: cyfnewid Maenclochog am Dyddewi, Solfach a Threletert.

13.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno y gellid gwneud mân newidiadau i wella'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal ac adeiladu ar y cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol presennol. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig dileu Tyddewi, Solfach a Threletert o etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli a chynnwys ward Maenclochog yn lle hynny.

13.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ceredigion (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Ceredigion ar hyn o bryd):

Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522), Aberteifi/Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi/Cardigan-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol/Central (1,358), Aberystwyth Gogledd/North (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraed (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troed-yr-aur (1,110) ac Ystwyth (1,673); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099), Dinas (1,313), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,208), Wdig (1,509), Llanrhian (1,232), Maenclochog (2,462), Trefdraeth (878), Llandudoch (1,775) a Scleddau (1,158).

13.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,063 o etholwyr, sydd 0.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Ceredigion Preseli.

Enw arfaethedig yr etholaeth

13.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn. Awgrymwyd enw amgen i'r Comisiwn, sef Ceredigion a Phreseli.

13.10 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw o'r cynigion cychwynnol.

13.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Ceredigion Preseli. Mae 2 ran yr enw hwn yn cynrychioli'r ffaith bod ardal gyfan prif gyngor Ceredigion a'r ardal i'r gogledd o'r Preseli wedi'u cynnwys. Mae'r Comisiwn o'r farn bod dwy ran yr enw yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.


Ceredigion Preseli
0
20
Cilomedrau
Graddfa 1:420,000
1.Aberaeron (1,088)
2.Aber-porth (1,839)
3.Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522)
4.Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895)
5.Aberteifi/Cardigan- Teifi (824)
6.Aberystwyth Bronglais (936)
7.Aberystwyth Canol/Central (1,358)
8.Aberystwyth Gogledd/North (1,478)
9.Aberystwyth Penparcau (2,084)
10.Aberystwyth Rheidol (1,776)
11.Ciliau Aeron (1,613)
12.Faenor (1,985)
13.Llanbedr Pont Steffan (1,660)
14.Llanbadarn Fawr – Padarn (767)
15.Llanbadarn Fawr – Sulien (973)
16.Llandyfriog (1,466)
17.Llandysiliogogo (1,653)
18.Llandysul Town (1,067)
19.Llanfarian (1,193)
20.Llanfihangel Ystrad (1,666)
21.Llansanffraid (1,935)
22.Ceinewydd (810)
23.Pen-parc (1,933)
24.Tirymynach (1,403)
25.Trefeurig (1,382)
26.Troed-yr-aur (1,110)
27.Cilgerran (1,594)
28.Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,495)
29.Gogledd Orllewin Abergwaun(1,208)
30.Wdig(1,509)
31.Trefdraeth (878)
32. Y Borth (1,677)
Aberystwyth Area
Ceulan-a-Maesmor (1,551)
Melindwr (1,578)
Ystwyth (1,673)
Lledrod (1,812)
Tregaron (951)
Llangeitho (1,168)
Llangybi (1,186)
Llanrhystyd (1,255)
Llanwenog (1,419)
Llannarth (1,222)
Capel Dewi (1,068)
Penbryn (1,762)
Beulah (1,413)
Clydau (1,189)
Crymych (2,099)
St. Dogmaels (1,775)
Maenclochog (2,462)
Dinas Cross (1,313)
Scleddau (1,158)
Llanrhian (1,232)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

14. Clwyd East (Dwyrain Clwyd)

14.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Delyn** ar hyn o bryd):

Dwyrain Bagillt (1,413), Gorllewin Bagillt (1,625), Brynffordd (1,789), Caerwys (2,050), Cilcain (1,519), Ffynnongroyw (1,474), y Fflint: y Castell (1,426), y Fflint: Coleshill (2,938), y Fflint: Oakenholt (2,538), y Fflint: Trelawny (2,710), Greenfield (1,983), Gronant (1,257), y Waun (1,646), Gwernymynydd (1,399), Helygain (1,427), Canol Treffynnon (1,465), Dwyrain Treffynnon (1,383) Gorllewin Treffynnon (1,762), yr Wyddgrug: Broncoed (2,134), Dwyrain yr Wyddgrug (1,556), De yr Wyddgrug (2,201), Gorllewin yr Wyddgrug (1,956), Mostyn (1,458), Llaneurgain (2,596), Northop Hall (1,398), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,496) a Chwitffordd (1,911);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Vale of Clwyd** ar hyn o bryd):

Dyserth (1,882), Llandyrnog (1,765), Canol Prestatyn (2,829), Dwyrain Prestatyn (3,162), Prestatyn: Meliden (1,529), Gogledd Prestatyn (4,729), De-orllewin Prestatyn (2,861) a Thremeirchion (1,344); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd West** ar hyn o bryd):

Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (2,033), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,170) a Rhuthun (4,260).

14.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,074 o etholwyr, sydd 3.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Delyn**.

14.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Rhuthun gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Clwyd, gan nad yw preswylwyr y dref yn uniaethu â phreswylwyr yn Sir y Fflint a bod ganddynt fwy o gysylltiad ag ardaloedd yng Nghlwyd i'r gorllewin. Dadleuodd y cynrychiolaethau y dylai'r ffin arfaethedig gynnwys Llandyrnog, Llanbedr Dyffryn Clwyd yn ogystal â Rhuthun, gan ddatgan bod y lleoedd hyn yn ganolog i Ddyffryn Clwyd. Dywedodd yr Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd fod gan Landyrnog gysylltiadau cryf â Rhuthun a'i chefnwlad wledig ac y gallai etholaeth arfaethedig Delyn greu cysylltiad hyfyw o gymunedau lled-wledig â diddordeb cyffredin mewn twristiaeth. Dadleuwyd hefyd nad yw cynnwys ardaloedd mwy trefol a diwydiannol o amgylch aber Afon Dyfrdwy yn cyd-fynd â'r etholaeth hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi cynnwys Rhuthun gyda wardiau etholiadol i'r de, fel Llandrillo a Chorwen. Cynigiwyd y dylai'r wardiau hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ar y sail bod ymdeimlad cryf iawn o gymuned rhwng yr ardaloedd hyn.

14.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol aildrefnu'r etholaethau yn yr ardal hon i greu 2 etholaeth newydd arfaethedig, sef Clwyd Dwyrain a Gorllewin Clwyd, wedi'u ffurfio'n bennaf o etholaethau arfaethedig Delyn a Chlwyd. Cynhwyswyd ward etholiadol Rhuthun mewn etholaeth Dwyrain Clwyd ynghyd â wardiau eraill Sir Ddinbych. Aildrefnodd Plaid Cymru yr etholaethau yn yr ardal hefyd, gan gynnig cynnwys ward etholiadol Rhuthun yn eu hetholaeth arfaethedig Meirionnydd, Nant Conwy a Dinbych. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cynnwys y ward etholiadol hon yn eu hetholaeth arfaethedig Gogledd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Ni chynigiodd Llafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol.

14.5 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ardaloedd Bagillt a'r Fflint gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd bod gan yr ardaloedd hyn fwy yn gyffredin â'r etholaeth honno. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn dadlau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio yn ôl gwahanol ddiwylliannau'r ardaloedd, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol. Cynhwysodd y Blaid Geidwadol ardaloedd Bagillt a'r Fflint mewn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy hefyd. Rhannodd Plaid Cymru yr ardal, gan gynnwys y Fflint mewn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a Bagillt mewn etholaeth arfaethedig Delyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gadw'r ardaloedd o fewn etholaeth Delyn.

14.6 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu 2 etholaeth newydd. Byddai un yn cynnwys ardaloedd fel Conwy, ardal Llandudno, Colwyn, Deganwy a Llandrillo-yn-Rhos, a byddai'r llall yn cynnwys ardaloedd fel Dinbych, Bae Cinmel, Llanelwy, y Rhyl, Corwen a Llangollen. Dywedasant fod sawl cynrychiolaeth a oedd yn dadlau dros gynnwys wardiau'r Fflint a Bagillt mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd yn cynnwys mwy na 12,000 o etholwyr, felly byddai eu cynnwys yn golygu bod angen gwneud addasiadau mawr ar draws y rhanbarth er mwyn bodloni'r cwota etholiadol. O ganlyniad, nid oedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnwys y wardiau hyn yn eu hetholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Cynhwysodd y Comisiynwyr Cynorthwyol Rhuthun mewn etholaeth gyda'r wardiau etholiadol i'r de ohoni.

14.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi ceisio mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau, lle y bo'n bosibl, trwy greu etholaethau wedi'u seilio ar y gwahanol ddiwylliannau yng ngogledd Cymru ac etholaeth arfordirol yn bennaf sy'n cyfuno ardaloedd mwy poblog gogledd Cymru. Mae'r Comisiwn yn cytuno y dylai wardiau etholiadol y Fflint a Bagillt (gan gynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Castell y Fflint, Côlshill y Fflint, Oakenholt y Fflint a Trelawny Fflint) gael eu cynnwys mewn etholaeth Alun a Glannau

Dyfrdwy gan eu bod yn rhannu mwy o gysylltiadau lleol a chysylltiadau cyfathrebu â'r ardaloedd hynny. Mae'r Comisiwn hefyd yn cytuno bod gan Ruthun fwy yn gyffredin â'r cymunedau i'r de ohoni, sy'n edrych tuag at Ruthun ar gyfer eu gwasanaethau.

14.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):

Argoed (2,167), Brynffordd (1,789), Caerwys (2,050), Cilcain (1,519), Ffynnongroyw (1,474), Greenfield (1,983), Gronant (1,257), y Waun (1,646), Gwernymynydd (1,399), Helygain (1,427), Canol Treffynnon (1,465), Dwyrain Treffynnon (1,383) Gorllewin Treffynnon (1,762), Coed-llai (1,627), yr Wyddgrug: Broncoed (2,134), Dwyrain yr Wyddgrug (1,556), De yr Wyddgrug (2,201), Gorllewin yr Wyddgrug (1,956), Mostyn (1,458), New Brighton (2,414), Llaneurgain (2,596), Northop Hall (1,398), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,496) a Chwitffordd (1,911);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Dyserth (1,882), Llandyrnog (1,765), Canol Prestatyn (2,829), Dwyrain Prestatyn (3,162), Prestatyn: Meliden (1,529), Gogledd Prestatyn (4,729), De-orllewin Prestatyn (2,861) a Thremeirchion (1,344);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (2,033), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,170), Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,830) a Rhuthun (4,260);

4. Ward etholiadol Llangollen (3,302) o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd); a

5. Ward etholiadol Llangollen Wledig (1,631) o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd).

14.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,395 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Clwyd East. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Clwyd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

14.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a phenderfynodd gynnig trefniant daearyddol sylweddol wahanol i'w gynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal hon. Derbyniodd y Comisiwn nifer o drefniadau amgen ac enwau amgen ar gyfer y cynigion yn yr ardal, fel creu etholaethau Dwyrain Clwyd a Gorllewin Clwyd, a Llandudno a Cholwyn.

14.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

14.12 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Clwyd East a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Clwyd.

Dwyrain Clwyd



15. Clwyd North (Gogledd Clwyd)

15.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Vale of Clwyd** ar hyn o bryd):

Bodelwyddan (1,612), Canol Dinbych (1,462), Dinbych Isaf (3,483), Dinbych Uchaf/Henllan (2,265), Rhuddlan (2,913), Dwyrain y Rhyl (3,693), De y Rhyl (2,874), De-ddwyrain y Rhyl (6,253), De-orllewin y Rhyl (3,732), Gorllewin y Rhyl (3,283), Dwyrain Llanelwy (1,472), Gorllewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd West** ar hyn o bryd):

Llanfair Dyffryn (1,830), Efenechtyd (1,321) a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,496); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd West** ar hyn o bryd):

Abergele Pensarn (1,959), Betws-yn-Rhos (1,623), Colwyn (3,373), Eirias (2,800), Gele (3,997), Glyn (3,088), Bae Cinmel (4,607), Llanddulas (1,353), Llansannan (1,495), Llysfaen (1,906), Pentre Mawr (2,861), Rhiw (4,991) a Thowyn (1,845).

15.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,380 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth hon oedd **Clwyd**.

15.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn datgan bod Cyngor Tref Bae Colwyn yn cael ei rannu yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cyngor tref hwn wedi'i ffurfio o nifer o gymunedau yn yr ardal. Galwodd y cynrychiolaethau hyn am gadw ward etholiadol Llandrillo-yn-Rhos gyda'r cymunedau eraill sy'n ffurfio ardal y cyngor tref. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn dadlau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio gan ystyried gwahanol ddiwylliannau'r ardal, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol.

15.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol greu 2 etholaeth newydd a oedd yn wahanol i etholaethau arfaethedig Delyn a Chlwyd y Comisiwn. Creodd Plaid Cymru 2 etholaeth arall yng ngogledd Cymru hefyd a oedd yn wahanol iawn i'r rhai a amlinellwyd yn y cynigion cychwynnol, gyda Meirionnydd, Nant Conwy a Dinbych yn ymestyn ar hyd ardal wledig gyfan gogledd Cymru. Byddai eu hetholaeth Llandudno a Cholwyn yn ymestyn ar draws mwyafrif arfordir gogledd Cymru ac yn cael ei chyfuno â Llanelwy.

15.5 Dychwelodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn i un etholaeth. Fodd bynnag, roedd creu'r etholaethau arfaethedig yn rhannu cymuned Abergele. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu 2 etholaeth newydd, gydag un yn cynnwys ardaloedd fel Conwy, ardal Llandudno, Colwyn, Deganwy a Llandrillo-yn-Rhos, a'r llall yn cynnwys ardaloedd fel Dinbych, Bae Cinmel, Llanelwy, y Rhyl, Corwen a Llangollen.

15.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau sy'n datgan na ddylai ardal Cyngor Tref Bae Colwyn gael ei rhannu rhwng etholaethau, ac felly mae wedi uno'r cymunedau hyn yn yr etholaeth arfaethedig hon. Lle y bo'n bosibl, mae'r Comisiwn wedi ceisio mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai'r etholaethau gael eu seilio ar y gwahanol ddiwylliannau yng ngogledd Cymru. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi creu'r etholaeth arfordirol hon yn bennaf sy'n cyfuno ardaloedd mwy poblog gogledd Cymru.

15.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Bodelwyddan (1,612), Canol Dinbych (1,462), Dinbych Isaf (3,483), Dinbych Uchaf/Henllan (2,265), Rhuddlan (2,913), Dwyrain y Rhyl (3,693), De y Rhyl (2,874), De-ddwyrain y Rhyl (6,253), De-orllewin y Rhyl (3,732), Gorllewin y Rhyl (3,283), Dwyrain Llanelwy (1,472), Gorllewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Abergele Pensarn (1,959), Colwyn (3,373), Eirias (2,800), Gele (3,997), Glyn (3,088), Bae Cinmel (4,607), Llanddulas (1,353), Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llysfaen (1,906), Mochdre (1,425), Pentre Mawr (2,861), Rhiw (4,991) a Thowyn (1,845).

15.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,150 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Clwyd North. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Gogledd Clwyd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

15.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a phenderfynodd gynnig trefniant daearyddol sylweddol wahanol i'w gynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal. Derbyniodd y Comisiwn nifer o drefniadau

amgen ac enwau amgen ar gyfer yr ardal, fel creu 2 etholaeth sef Dwyrain Clwyd a Gorllewin Clwyd, a Llandudno a Cholwyn.

15.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

15.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Clwyd North a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Gogledd Clwyd.



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

16. Dwyfor Meirionnydd

16.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Dwyfor Meirionnydd** ar hyn o bryd):

Aberdaron (698), Aberdyfi (907), Abererch (986), Abermaw (1,591), Abersoch (519), Bala (1,413), Botwnnog (734), Bowydd a'r Rhiw (1,235), Brithdir a Llanfachreth/y Ganllwyd/Llanelltud (1,132), Bryn-crug/Llanfihangel (772), Clynnog (736), Corris/Mawddwy (1,023), Cricieth (1,280), Diffwys a Maenofferen (779), Dolbenmaen (900), Gogledd Dolgellau (953), De Dolgellau (1,072), Dyffryn Ardudwy (1,169), Efail Newydd/Buan (1,026), Harlech (1,516), Llanelhaearn (1,187), Llanbedr (768), Llanbedrog (709), Llandderfel (1,135), Llanengan (847), Llangelynin (1,625), Llanuwchllyn (686), Llanystumdwy (1,547), Morfa Nefyn (945), Nefyn (1,003), Penrhyndeudraeth (1,826), Dwyrain Porthmadog (1,178), Gorllewin Porthmadog (1,329), Porthmadog Tremadog (933), Gogledd Pwllheli (1,528), De Pwllheli (1,310), Teigl (1,355), Trawsfynydd (1,088), Tudweiliog (668) a Thywyn (2,476); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Arfon** ar hyn o bryd):

Bethel (1,025), Bontnewydd (865), Cadnant (1,514), Cwm-y-Glo (753), Deiniolen (1,463), Groeslon (1,374), Llanberis (1,613), Llanllyfni (915), Llanrug (1,396), Llanwnda (1,507), Menai (Caernarfon) (1,724), Peblig (Caernarfon) (1,603), Penisarwaun (1,365), Pentir (2,159), Pen-y-groes (1,369), Seiont (2,233), Tal-y-sarn (1,399), Waunfawr (1,298) a'r Felinheli (1,803).

16.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,962 o etholwyr, sydd 1.9% islaw Cwota Etholiadol y

Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Dwyfor Meirionnydd**.

16.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ynglŷn â wardiau etholiadol Pentir, Ogwen, Gerlan ac Arllechwedd, gyda'r holl ymatebwyr yn dadlau bod y wardiau hyn yn rhan annatod o ardal Arfon o ran cysylltiadau lleol a hunaniaeth. Dywedodd rhai cynrychiolaethau y byddai'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal yn rhannu Dinas Bangor rhwng 2 etholaeth, a dadleuwyd bod ward etholiadol Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau'n gwrthwynebu dileu Dinas Bangor o etholaeth Caernarfon. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cyfeirio at faint daearyddol yr etholaeth arfaethedig hefyd.

16.4 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau yng ngogledd Cymru ar sail amgylcheddau diwylliannol tebyg. Roedd y trefniant a dderbyniwyd yn rhan o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol yn cynnwys etholaethau a oedd y tu hwnt i'r amrediad etholwyr gofynnol. Fodd bynnag, roedd y trefniadau a ddarparwyd yn yr ail gyfnod ymgynghori yn cynnwys etholaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran y cwota etholiadol. Awgrymwyd mân newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn a oedd yn creu etholaethau o fewn y cwota etholiadol, ond nid oeddent wedi ystyried yr effeithiau pellgyrhaeddol y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar weddill Cymru.

16.5 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newid bach i etholaeth Dwyfor Meirionnydd trwy symud ward Pentir a'i chyfuno â gweddill Dinas Bangor yn Aberconwy. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys Pentir yn etholaeth Aberconwy hefyd. Roedd cynnig Plaid Cymru yn cynnwys ail-lunio ffiniau etholaethau yng ngogledd Cymru i greu etholaeth Menai a oedd yn cynnwys Caernarfon a Bangor; fodd bynnag, roedd y cynllun hwn yn rhannu cymuned Conwy rhwng etholaethau.

16.6 Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod gwahaniaeth barn ynglŷn â ffurfweddiad yr etholaethau yn yr ardal. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnwys Pentir, Bethesda a Phenrhosgarnedd gyda gweddill Dinas Bangor ac etholaeth bresennol Arfon mewn etholaeth arfaethedig Menai. Gwnaethant hefyd ddychwelyd ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn i un etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, roedd creu'r etholaethau hyn yn rhannu cymuned Abergele.

16.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ward Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor ac felly y dylai gael ei chynnwys yn yr un etholaeth. Mae'r Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd; fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn credu bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cyfiawnhau rhannu cymuned Abergele. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n dda trwy gysylltiadau trafnidiaeth a'u bod yn debyg o ran cymeriad. Felly, mae'r Comisiwn yn dod i'r casgliad fod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

16.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd):

Aberdaron (698), Aberdyfi (907), Abererch (986), Abermaw (1,591), Abersoch (519), Bala (1,413), Botwnnog (734), Bowydd a'r Rhiw (1,235), Brithdir a Llanfachreth/y Ganllwyd/Llanelltud (1,132), Bryn-crug/Llanfihangel (772), Clynnog (736), Corris/Mawddwy (1,023), Cricieth (1,280), Diffwys a Maenofferen (779), Dolbenmaen (900), Gogledd Dolgellau (953), De Dolgellau (1,072), Dyffryn Ardudwy (1,169), Efail Newydd/Buan (1,026), Harlech (1,516), Llanelhaearn (1,187), Llanbedr (768), Llanbedrog (709), Llandderfel (1,135), Llanengan (847), Llangelynin (1,625), Llanuwchllyn (686), Llanystumdwy (1,547), Morfa Nefyn (945), Nefyn (1,003), Penrhyndeudraeth (1,826),

Dwyrain Porthmadog (1,178), Gorllewin Porthmadog (1,329), Porthmadog Tremadog (933), Gogledd Pwllheli (1,528), De Pwllheli (1,310), Teigl (1,355), Trawsfynydd (1,088), Tudweiliog (668) a Thywyn (2,476); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Bethel (1,025), Bontnewydd (865), Cadnant (1,514), Cwm-y-Glo (753), Deiniolen (1,463), Groeslon (1,374), Llanberis (1,613), Llanllyfni (915), Llanrug (1,396), Llanwnda (1,507), Menai (Caernarfon) (1,724), Peblig (Caernarfon) (1,603), Penisarwaun (1,365), Pen-y-groes (1,369), Seiont (2,233), Tal-y-sarn (1,399), Waunfawr (1,298) a'r Felinheli (1,803).

16.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,803 o etholwyr, sydd 4.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Dwyfor Meirionnydd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

16.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn; fodd bynnag, derbyniodd y Comisiwn nifer o drefniadau amgen ar gyfer yr ardal hefyd, ac awgrymwyd enwau amgen ar eu cyfer. Roedd rhai o'r cynrychiolaethau a oedd yn cynnwys enwau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig yn holi pam nad oedd cyfeiriad at Arfon yn yr enw arfaethedig. Cafodd y Comisiwn awgrymiadau amgen fel Arfon Dwyfor Meirionnydd, Arfon Dwyfor, a Gwynedd.

16.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

16.12 Mae’r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i’r casgliad mai’r enw sy’n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw’r enw unigol Dwyfor Meirionnydd. Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw hwn yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a’r Saesneg.


Dwyfor Meirionnydd
Ardal Caernarfon
0
10
Cilometrau
Graddfa: 1: 381,900
Llanberis (1,613)
Llanaelhaearn (1,187)
Clynnog (736)
Llanystumdwy (1,547)
Dolbenmaen (900)
Llanllyfni (915)
Botwnnog (734)
Aberdaron (698)
Teigl (1,355)
Trawsfynydd (1,088)
Llandderfel (1,135)
Harlech (1,516)
Llanbedr (768)
Llanuwchllyn (686)
Dyffryn Ardudwy (1,169)
Corris/Mawddwy (1,023)
Llangelynin (1,625)
Aberdyfi (907)
Tywyn (2,476)
1. Abererch (986)
2. Abermaw (1,591)
3. Aber-soch (519)
4. Y Bala (1,413)
5. Bowydd a Rhiw (1,235)
6. Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd (1,132)
7. Bryn-crug/Llanfihangel (772)
8. Criccieth (1,280),
9. Diffwys a Maenofferen (779)
10. Gogledd Dolgellau (953)
11. De Dolgellau (1,072)
12. Efail Newydd/Buan (1,026)
13. Llanbedrog (709)
14. Llanengan (847)
15. Morfa Nefyn (945)
16. Nefyn (1,003)
17. Penrhyndeudraeth (1,826)
18. Dwyrain Porthmadog (1,178)
19. Gorllewin Porthmadog (1,329)
20. Porthmadog-Tremadog (933)
21. Gogledd Pwllheli (1,528)
22. De Pwllheli (1,310)
23. Tudweiliog (668)
24. Bethel (1,025)
25. Y Bontnewydd (865)
26. Cadnant (1,514)
27. Cwm-y-glo (753)
28. Deiniolen (1,463)
29. Y Groeslon (1,374)
30. Llanrug (1,396)
31. Llanwnda (1,507)
32. Menai (Caernarfon) (1,724)
33. Peblig (Caernarfon) (1,603)
34. Penisa'r-waun (1,365)
35. Pen-y-groes (1,369)
36. Seiont (2,233)
37. Tal-y-sarn (1,399)
38. Waunfawr (1,298)
39. Y Felinheli (1,803)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

17. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)

17.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Gower** ar hyn o bryd):

Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tregŵyr (3,978), Kingsbridge (3,506), Casllwchwr Isaf (1,795), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Casllwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Swansea West** ar hyn o bryd):

Y Cocyd (10,473), Dyfnant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857), Mayals (2,148) a Sgeti (11,304).

17.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,214 o etholwyr, sydd 2.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Swansea West and Gower.** Yr enw amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Gorllewin Abertawe a Gŵyr.**

17.3 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cynnig gwrthgynnig ar gyfer Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a Chanol a Gogledd Abertawe, gan ddatgan y byddai'r trefniant amgen yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well o fewn Dinas a Sir Abertawe o ran ffydd, addysg a diwylliant. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r gwrthgynnig, gan ddadlau ei fod yn sicrhau na fyddai cymunedau lleiafrifol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau ac y byddai myfyrwyr yn byw ac yn astudio yn yr un etholaeth.

17.4 Roedd y Blaid Geidwadol yn gryf o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol drefniadau ychydig yn wahanol ar draws Abertawe i wneud iawn am eu newidiadau arfaethedig i etholaethau Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, ac Aberhonddu a Maesyfed. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol greu etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe a oedd yn cynnwys wardiau ychwanegol o ganol Abertawe, gyda wardiau Casllwchwr Uchaf, y Cocyd, Penyrheol, Casllwchwr Isaf, Kingsbridge a Gorseinon yn cael eu trosglwyddo allan i etholaeth arfaethedig Gogledd Abertawe. Cynigiodd cyflwyniad Plaid Cymru greu trefniant gwahanol ar gyfer Abertawe, gydag etholaeth Lliw a Thawe wedi'i ffurfio o rannau o ogledd Abertawe a rhannau o Gwm Nedd. O ganlyniad i greu'r etholaeth Lliw a Thawe hon, cynigiodd Plaid Cymru hefyd greu etholaethau Dwyrain Abertawe, a Gorllewin Abertawe a Gŵyr o weddill Dinas a Sir Abertawe. Gwnaeth cyflwyniad Plaid Cymru newidiadau tebyg i rai'r Democratiaid Rhyddfrydol, gyda wardiau Kingsbridge, Gorseinon a Chasllwchwr yn cael eu trosglwyddo allan a ward fwy canolog Uplands yn cael ei throsglwyddo i mewn. Cynigiodd Llafur Cymru greu etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenllergaer, ac yn dileu wardiau etholiadol Mayals a Sgeti.

17.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniadau gwahanol i'r cynigion cychwynnol ar gyfer ardal Abertawe gan eu bod yn credu'n gryf y dylai Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf fod yn rhan o ardal Abertawe. Roedd hyn yn golygu bod angen siâp gwahanol ar gyfer yr etholaethau i fodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr ardal gyda chytref Abertawe/Castell-nedd. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r cynnig cychwynnol yn eithaf lleiafsymiol, gan adlewyrchu rhai o'r cynrychiolaethau a wnaed. Byddai wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol yn cael eu dileu, a ward etholiadol Uplands yn cael ei hychwanegu, gan ei huno â ward Sgeti yn yr un etholaeth.

17.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn credu bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau rhannu cymuned y Mwmbwls; yn rhan o'r gwrthgynnig, byddai cymuned y Mwmbwls yn cael ei rhannu ar draws etholaethau arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanol Abertawe. Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn ei bod yn amhriodol creu etholaethau ar sail ffydd, gwahaniaethau hiliol neu statws addysgol.

17.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tregŵyr (3,978), Kingsbridge (3,506), Casllwchwr Isaf (1,795), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Casllwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Cocyd (10,473), Dyfnant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857), Mayals (2,148) a Sgeti (11,304).

17.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,214 o etholwyr, sydd 2.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Gower and Swansea West. Yr enw amgen a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Enw arfaethedig yr etholaeth

17.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn argymell rhai mân newidiadau i'r cynnig cychwynnol, a derbyniodd rai cynigion sylweddol wahanol ar gyfer Abertawe gyfan o ganlyniad i gynnwys ardal Cwm Tawe yng nghynigion Abertawe. Cynigiwyd enwau amgen gan y Blaid Geidwadol a Chymdeithas Gŵyr, a oedd o'r farn y dylid rhoi'r enw Gŵyr a Gorllewin Abertawe i'r etholaeth arfaethedig gan y byddai'n cynnwys etholaeth bresennol Gower yn ei chyfanrwydd.

17.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

17.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Gower and Swansea West a'r enw amgen a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Gŵyr a Gorllewin Abertawe



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

18. Llanelli

18.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Llanelli** ar hyn o bryd):

Bigyn (4,544), Porth Tywyn (3,278), Bynea (3,282), Dafen (2,456), Elli (2,357), Felinfoel (1,334), Glan-y-môr (4,312), Glyn (1,661), Hendy (2,697), Hengoed (3,352), Cydweli (2,818), Llangennech (3,954), Llannon (4,079), Lliedi (3,825), Llwynhendy (3,010), Pen-bre (3,417), Pontyberem (2,154), Swiss Valley (2,097), Trimsaran (1,887), Tycroes (1,862) a Thyisha (2,390); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Carmarthen East and Dinefwr** ar hyn o bryd):

Gors-las (3,906), Llangynnwr (2,077), Llangyndeyrn (2,905) a Llanismel (2,318).

18.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,972 o etholwyr, sydd 1.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Llanelli**.

18.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi creu 2 etholaeth yn cynnwys wardiau etholiadol o Sir Gaerfyrddin yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, roedd cryn wrthwynebiad i gynnwys ward Llangynnwr yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Fel y dywedwyd mewn nifer o'r cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn, mae gorsaf drenau Caerfyrddin o fewn ward etholiadol Llangynnwr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys yr

ardaloedd o etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr mewn etholaeth Llanelli o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng y 2 ardal.

18.4 Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn yr ail gyfnod ymgynghori a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardaloedd gwledig o Gaerfyrddin yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd y gwrthwynebiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwahaniaethau rhwng y 2 ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth hefyd o blaid etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn yr ail gyfnod ymgynghori.

18.5 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol nifer o drefniadau amgen, ond gwnaethant nodi nad oeddent yn adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol gyda newid i un ward etholiadol, gan argymell bod Llangynnwr yn cael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin yn seiliedig ar y dadleuon a wnaed yn y cynrychiolaethau.

18.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y dryswch a fyddai'n cael ei greu trwy beidio â chynnwys ward etholiadol Llangynnwr, sy'n cynnwys gorsaf drenau Tref Caerfyrddin, yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Yn anffodus, o ganlyniad i'r angen i gynnig etholaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol, nid yw'r Comisiwn wedi gallu mynd i'r afael â'r pryderon eraill ynglŷn â chynnwys y wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd; fodd bynnag, mae'r ddwy etholaeth arfaethedig yn dod yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Gaerfyrddin.

18.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Llanelli ar hyn o bryd):

Bigyn (4,544), Porth Tywyn (3,278), Bynea (3,282), Dafen (2,456), Elli (2,357), Felinfoel (1,334), Glan-y-môr (4,312), Glyn (1,661), Hendy (2,697), Hengoed (3,352), Cydweli (2,818), Llangennech (3,954), Llannon (4,079), Lliedi (3,825), Llwynhendy (3,010), Pen-bre (3,417), Pontyberem (2,154), Swiss Valley (2,097), Trimsaran (1,887), Tycroes (1,862) a Thyisha (2,390); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):

Gors-las (3,906), Llangyndeyrn (2,905) a Llanismel (2,318).

18.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,895 o etholwyr, sydd 4.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Llanelli.

Enw arfaethedig yr etholaeth

18.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw arfaethedig yr etholaeth.

18.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Llanelli. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw hwn yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Llanelli



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

19. Merthyr Tydfil and Upper Cynon (Merthyr Tudful a Chynon Uchaf)

19.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. Ardal gyfan prif gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn cynnwys y wardiau etholiadol canlynol (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Merthyr Tydfil and Rhymney** ar hyn o bryd):

Bedlinog (2,977), Cyfarthfa (5,457), Dowlais (5,014), Gurnos (3,477), Ynysowen (2,798), y Parc (3,296), Penydarren (3,818), Plymouth (4,096), y Dref (5,998), Treharris (5,270) a Faenor (2,880);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol **Cynon Valley** ar hyn o bryd):

Dwyrain Aberdâr (4,909), Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed (7,404), Cwm-bach (3,751), Hirwaun (3,167), Pen-y-waun (1,973) a Rhigos (1,370); a

3. Ward etholiadol Nelson (3,563) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Caerphilly** ar hyn o bryd).

19.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,218 o etholwyr, sydd 3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Merthyr Tydfil and Aberdare**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Merthyr Tudful ac Aberdâr**.

19.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Cynon Valley. Amlygodd nifer o'r cynrychiolaethau y cysylltiadau lleol agos

sy'n bodoli rhwng ardaloedd yng Nghwm Cynon, fel Aberpennar, Aberdâr ac Aberaman, yn ogystal â chysylltiadau Hirwaun a Rhigos â'r ardal. Dadleuodd cynrychiolaethau eraill y byddai anghenion tref gyfagos Merthyr Tudful yn gorbwyso pryderon ac anghenion preswylwyr Cwm Cynon. Dywedodd rhai cynrychiolaethau fod y 2 ardal yn sylweddol wahanol ac yn haeddu eu cynrychiolaeth unigol eu hunain. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn dadlau yn erbyn cyfuno hanner isaf Cwm Cynon ag ardal Pontypridd.

19.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol fynd i'r afael â phryderon preswylwyr Cwm Cynon yn rhannol trwy drosglwyddo wardiau Gogledd a De Aberaman o etholaeth arfaethedig Pontypridd i'w hetholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, a chynnwys ward Cwm-bach ym Mhontypridd. Aeth Plaid Cymru i'r afael â phryderon preswylwyr Cwm Cynon hefyd trwy gynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman, De Aberaman, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar a Phenrhiw-ceibr mewn etholaeth arfaethedig Aberdâr a Merthyr Tudful, gyda wardiau etholiadol Nelson, Treharris, Bedlinog ac Ynysowen yn cael eu trosglwyddo i etholaeth gymdogol. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol fynd i'r afael â phryderon Cwm Cynon i ryw raddau trwy ychwanegu wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman o etholaeth arfaethedig Pontypridd at eu hetholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, gyda Nelson yn cael ei throsglwyddo i'w hetholaeth arfaethedig Islwyn.

19.5 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi cyfansoddiad sylfaenol etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr. Fodd bynnag, gwnaethant ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gwrthwynebiadau lleol ar lefel ward ac argymell cynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman yn yr etholaeth hon a throsglwyddo ward etholiadol Nelson allan i etholaeth Caerffili. Byddent wedi hoffi trin ardal Aberpennar mewn ffordd debyg, ond fe'u cyfyngwyd gan y cwota statudol. O ran Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd, ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y pwyntiau a wnaed gan yr Aelod Seneddol a gwrthgynnig manwl ar wahân, ond canfuont fod yr amryw opsiynau a amlinellwyd yn y gwrthgynnig yn ddiffygiol, gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol a negyddol i sawl etholaeth amgylchynol.

19.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwrthwynebiad i rannu etholaeth bresennol Cynon Valley. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw ddewisiadau amgen hyfyw a fyddai'n cadw'r etholaeth gyfan yn gyflawn o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r Comisiynwyr Cynorthwyol y gellir gwneud newidiadau bach i'r etholaeth hon i liniaru rhai o'r pryderon. Y newidiadau mwyaf priodol y gellir eu hargymell ar yr un pryd â chynnal yr etholaethau cymdogol a gefnogir yn dda yw dychwelyd 2 ward Aberaman i etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful a Chynon Uchaf, gan felly ddod â 2 ward o ardal Cwm Cynon yn ôl i'r etholaeth, a chynnwys 'Cynon' yn enw'r etholaeth. Mae'r Comisiwn yn cynnig trosglwyddo ward Nelson i'w etholaeth arfaethedig yng Nghaerffili, er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol ac am y rhesymau a roddir uchod mewn perthynas â'r etholaeth honno.

19.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:

1. Ardal gyfan prif gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn cynnwys y wardiau etholiadol canlynol (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):

Bedlinog (2,977), Cyfarthfa (5,457), Dowlais (5,014), Gurnos (3,477), Ynysowen (2,798), y Parc (3,296), Penydarren (3,818), Plymouth (4,096), y Dref (5,998), Treharris (5,270) a Faenor (2,880); a'r

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Cynon Valley ar hyn o bryd):

Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Dwyrain Aberdâr (4,909), Gorllewin Aberdâr/ Llwydcoed (7,404), Cwm-bach (3,751), Hirwaun (3,167), Pen-y-waun (1,973) a Rhigos (1,370).

19.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,805 o etholwyr, sydd 1.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Merthyr Tydfil and Upper Cynon. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Merthyr Tudful a Chynon Uchaf.

Enw arfaethedig yr etholaeth

19.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn, er bod nifer o gynrychiolaethau'n gofyn am newidiadau mwy helaeth. Derbyniodd y Comisiwn rai dewisiadau amgen i'r enw hefyd, sef yn bennaf rhoi'r enw yn nhrefn yr wyddor fel Aberdâr a Merthyr Tudful.

19.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw a gynigiwyd yn y cam cynigion cychwynnol.

19.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Merthyr Tydfil and Upper Cynon a'r enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Merthyr Tudful a Chynon Uchaf.

Merthyr Tudful a Chynon Uchaf

20. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)

20.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Preseli Pembrokeshire** ar hyn o bryd):

Burton (1,503), Camros (2,190), Hwlffordd: y Castell (1,674), Hwlffordd: Garth (1,660), Hwlffordd: Portfield (1,765), Hwlffordd: Prendergast (1,628), Hwlffordd: y Priordy (1,907), Johnston (2,044), Llangwm (1,814), Maenclochog (2,462), Pont Fadlen (1,619), Canol Aberdaugleddau (1,578), Dwyrain Aberdaugleddau (1,571), Aberdaugleddau: Hakin (1,774), Aberdaugleddau: Hubberston (2,004), Gogledd Aberdaugleddau (2,047), Gorllewin Aberdaugleddau (1,523), Dwyrain Neyland (1,793), Gorllewin Neyland (1,590), Rudbaxton (945), Llanisan-yn-Rhos (1,125), yr Aberoedd (1,196) a Chas-wis (1,581); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** ar hyn o bryd):

Amroth (992), Caeriw (1,179), Dwyrain Williamston (1,965), Hundleton (1,416), Cilgeti/Begeli (1,830), Llanbedr Felffre (1,284), Llandyfái (1,429), Maenorbŷr (1,655), Martletwy (1,603), Arberth (1,704), Arberth Wledig (1,293), Canol Doc Penfro (1,091), Doc Penfro: Llanion (1,915), Doc Penfro: y Farchnad (1,357), Doc Penfro: Pennar (2,442), Penfro: Cil-maen (1,022), Penfro: Gogledd St Mary (1,675), Penfro: De St Mary (1,063), Penfro: St Michael (2,082), Penalun (1,398), Saundersfoot (1,904), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1,658) a De Dinbych-y-pysgod (1,664).

20.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,614 o etholwyr, sydd 1.7% uwchlaw Cwota

Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Mid and South Pembrokeshire**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Canol a De Sir Benfro**.

20.3 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn dweud y dylai ward etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys o fewn etholaeth Ceredigion Preseli ar y sail bod gan yr ardal i'r gogledd o Glunderwen gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol cryfach â'r ardal. Roedd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau'r achos hwn ar sail ieithyddol ac yn awgrymu er mwyn cyflawni'r cwota etholiadol ar draws gorllewin Cymru, gallai Tyddewi gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro gan nad oes ganddi lawer yn gyffredin ag Aberystwyth. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth hefyd a fyddai'n creu etholaethau o awdurdod lleol Sir Benfro yn unig neu o ardal awdurdod lleol Ceredigion; fodd bynnag, byddai'r ddwy etholaeth ganlyniadol y tu allan i'r cwota etholiadol.

20.4 Cynigiodd Llafur Cymru drosglwyddo Solfach a Thyddewi o etholaeth Ceredigion Preseli a chynnwys Maenclochog yn lle hynny. Roedd Plaid Cymru yn cefnogi'r newidiadau, ond cynhwysodd gymuned Treletert yn y cyfnewid rhwng y 2 etholaeth hefyd. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol na'r Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

20.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig cychwynnol, ar yr un pryd â chydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â maint daearyddol yr etholaeth. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod yr etholaethau a grëwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn yn dilyn y cysylltiadau ffyrdd mwyaf cyfleus sydd ar gael a'u bod yn cyd-fynd orau â ffiniau gweinyddol a naturiol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol rai mân newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gyfnewid nifer fach wardiau rhwng etholaethau Ceredigion Preseli a De Sir Benfro, sef cyfnewid Maenclochog am Dyddewi, Solfach a Threletert.

20.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno y gallai rhai mân newidiadau gael eu gwneud i wella'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig dileu Maenclochog o'r cynnig cychwynnol a chynnwys Tyddewi, Solfach a Threletert.

20.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Burton (1,503), Camros (2,190), Hwlffordd: y Castell (1,674), Hwlffordd: Garth (1,660), Hwlffordd: Portfield (1,765), Hwlffordd: Prendergast (1,628), Hwlffordd: y Priordy (1,907), Johnston (2,044), Treletert (1,873), Llangwm (1,814), Pont Fadlen (1,619), Canol Aberdaugleddau (1,578), Dwyrain Aberdaugleddau (1,571), Aberdaugleddau: Hakin (1,774), Aberdaugleddau: Hubberston (2,004), Gogledd Aberdaugleddau (2,047), Gorllewin Aberdaugleddau (1,523), Dwyrain Neyland (1,793), Gorllewin Neyland (1,590), Rudbaxton (945), Tyddewi (1,521), Llanisan-yn-Rhos (1,125), Solfach (1,274), yr Aberoedd (1,196) a Chas-wis (1,581); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Amroth (992), Caeriw (1,179), Dwyrain Williamston (1,965), Hundleton (1,416), Cilgeti/Begeli (1,830), Llanbedr Felffre (1,284), Llandyfái (1,429), Maenorbŷr (1,655), Martletwy (1,603), Arberth (1,704), Arberth Wledig (1,293), Canol Doc Penfro (1,091), Doc Penfro: Llanion (1,915), Doc Penfro: y Farchnad (1,357), Doc Penfro: Pennar (2,442), Penfro: Cil-maen (1,022), Penfro: Gogledd St Mary (1,675), Penfro: De St Mary (1,063), Penfro: St Michael (2,082), Penalun (1,398),

Saundersfoot (1,904), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1,658) a De Dinbych-y-pysgod (1,664).

20.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,820 o etholwyr, sydd 4.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Mid and South Pembrokeshire. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Canol a De Sir Benfro.

Enw arfaethedig yr etholaeth

20.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer y cynnig cychwynnol.

20.10 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i'r enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

20.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Mid and South Pembrokeshire a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Canol a De Sir Benfro. Byddai'r etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Benfro. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw arfaethedig yn adlewyrchu'r wardiau etholiadol yn yr etholaeth arfaethedig yn gywir, ac yn gwahaniaethu'r ardal o wardiau etholiadol gogleddol ardal prif gyngor Sir Benfro, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig.


Canol a De Sir Benfro
0
5
cilomedrau
Graddfa 1:266,900
Tyddewi (1,521)
Solfach (1,274)
Treletert (1,873)
Wiston (1,581)
Camros (2,190)
Rudbaxton (945)
Martletwy (1,603)
Llanbedr Felffre (1,284)
Amroth (992)
Havens (1,196)
Llanisan-yn-Rhos (1,125)
Burton (1,503)
Caeriw (1,179)
Maenorbŷr (1,655)
Penalun (1,398)
Hundleton (1,416)
1. East Williamston (1,965)
2. Hwlffordd: Y Castell (1,674)
3. Hwlffordd: Garth (1,660)
4. Hwlffordd: Portfield (1,765)
5. Hwlffordd: Prendergast (1,628)
6. Hwlffordd: Y Priordy (1,907)
7. Johnston (2,044)
8. Cilgeti/Begeli (1,830)
9. Llandyfái (1,429)
10. Llangwm (1,814)
11. Pont Fadlen (1,619)
12. Canol Aberdaugleddau (1,578)
13. Dwyrain Aberdaugleddau (1,571)
14. Aberdaugleddau: Hakin (1,774)
15. Aberdaugleddau: Hubberston (2,004)
16. Gogledd Aberdaugleddau (2,047)
17. Gorllewin Aberdaugleddau (1,523)
18. Arberth (1,704)
19. Arberth Wledig (1,293)
20. Dwyrain Neyland (1,793)
21. Gorllewin Neyland (1,590)
22. Canol Doc Penfre (1,091)
23. Doc Penfro: Llanion (1,915)
24. Doc Penfro: Y Farchnad (1,357)
25. Doc Penfro: Pennar (2,442)
26. Penfro: Monkton (1,022)
27. Penfro : Gogledd St. Mary (1,675)
28. Penfro: De St. Mary (1,063)
29. Penfro: St. Michael (2,082)
30. Saundersfoot (1,904)
31. Gogledd Dinbych-y-Pysgod (1,658)
32. De Dinbych-y-Pysgod (1,664)
Ardal Doc Penfro
Ardal Hwlffordd
Ardal Milford
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

21. Monmouthshire (Sir Fynwy)

21.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Monmouth** ar hyn o bryd):

Caer-went (1,699), Cantref (1,668), Castell (1,611), Croesonnen (1,609), Crucornau (1,773), Devauden (1,228), Dixton gydag Osbaston (1,968), Drybridge (3,034), Goetre Fawr (2,045), Grofield (1,308), Lansdown (1,644), Larkfield (1,484), Llanbadog (1,099), Llanelly Hill (3,286), Llanfoist Fawr (1,971), Llangybi Fawr (1,477), Llanofer (1,781), Llandeilo Gresynni (1,527), Llanwenarth Ultra (1,128), Maerdy (1,430), Llanfihangel Troddi (985), Overmonnow (1,662), Porthsgiwed (1,885), Priory (1,546), Raglan (1,618), Llanarfan (1,304), St. Christopher's (1,756), Llangynfarch (2,346), St. Mary's (1,539), Drenewydd Gelli-farch (1,850), Thornwell (1,961), Tryleg Unedig (2,249), Brynbuga (1,930) a Wyesham (1,701); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Newport East** ar hyn o bryd):

Castell Cil-y-coed (1,768), Llanddewi (1,404), Green Lane (1,482), Mill (2,256), Rogiet (1,365), Hafren (1,325), The Elms (2,523) a West End (1,456).

21.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,681 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Monmouthshire**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Sir Fynwy**.

21.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig

ar y sail y byddai'n cydffinio â ffin yr awdurdod lleol. Cefnogwyd yr etholaeth arfaethedig gan y Blaid Geidwadol, Llafur Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal â'r Aelodau Seneddol presennol ar gyfer Mynwy a Dwyrain Casnewydd. Cefnogwyd y cynnig cychwynnol hefyd gan bob un o'r 4 grŵp trawsbleidiol yng Nghyngor Sir Fynwy.

21.4 Rhoddodd rhai cynrychiolaethau, gan gynnwys honno a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, drefniadau amgen. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cyfuno'r ardal i'r gogledd o'r etholaeth arfaethedig ag ardaloedd o Bowys, a wardiau etholiadol yn ne'r etholaeth arfaethedig â wardiau i'r dwyrain mewn etholaeth arfaethedig Casnewydd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan breswylwyr yn ardal Cil-y-coed hefyd, a gododd bryderon ynglŷn â chael eu trosglwyddo i etholaeth Sir Fynwy, sy'n sedd Geidwadol yn draddodiadol, pan oeddent yn credu eu bod yn cael eu gwasanaethu'n dda gan eu Haelod Seneddol presennol.

21.5 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r cynnig cychwynnol. Ar ôl ystyried y cynigion amgen, daethant i'r casgliad pendant, ar sail cysylltiadau lleol, ffurfweddiad y rhwydwaith ffyrdd a ffactorau statudol eraill, fod y cynnig cychwynnol yn amgenach.

21.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn bwriadu cadw ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r etholaeth arfaethedig yn adnabyddadwy i'r etholwyr, a byddai'r awdurdod lleol cyfan yn cael ei wasanaethu'n dda o fewn un etholaeth Seneddol. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion amgen; fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn bod y trefniadau amgen hyn yn llai dymunol gan y byddent yn cynnwys awdurdod lleol ychwanegol. Teimlai hefyd fod y trefniant yn y cynnig cychwynnol yn fwy cydnaws â Rheol 5 y ddeddfwriaeth ac yn rhoi eglurder i'r etholwyr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid y cynnig cychwynnol.

21.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Caer-went (1,699), Cantref (1,668), Castell (1,611), Croesonnen (1,609), Crucornau (1,773), Devauden (1,228), Dixton gydag Osbaston (1,968), Drybridge (3,034), Goetre Fawr (2,045), Grofield (1,308), Lansdown (1,644), Larkfield (1,484), Llanbadog (1,099), Llanelly Hill (3,286), Llanfoist Fawr (1,971), Llangybi Fawr (1,477), Llanofer (1,781), Llandeilo Gresynni (1,527), Llanwenarth Ultra (1,128), Maerdy (1,430), Llanfihangel Troddi (985), Overmonnow (1,662), Porthsgiwed (1,885), Priory (1,546), Raglan (1,618), Llanarfan (1,304), St. Christopher's (1,756), Llangynfarch (2,346), St. Mary's (1,539), Drenewydd Gelli-farch (1,850), Thornwell (1,961), Tryleg Unedig (2,249), Brynbuga (1,930) a Wyesham (1,701); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):

Castell Cil-y-coed (1,768), Llanddewi (1,404), Green Lane (1,482), Mill (2,256), Rogiet (1,365), Hafren (1,325), The Elms (2,523) a West End (1,456).

21.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,681 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Monmouthshire. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Sir Fynwy.

Enw arfaethedig yr etholaeth

21.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r etholaeth arfaethedig a hefyd yn awgrymu bod yr enw arfaethedig yn synhwyrol gan fod yr etholaeth yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdod lleol o'r un enw. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn awgrymu y dylid rhoi'r enw Dwyrain Mynwy i'r etholaeth arfaethedig gan fod ardal awdurdod lleol Sir Fynwy yn rhychwantu rhan ddwyreiniol Sir Fynwy hanesyddol yn unig. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth hefyd.

21.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Monmouthshire a'r enw amgen swyddogol yw Sir Fynwy.

Sir Fynwy


0
10
Cilomedrau
Graddfa: 1: 193,600
Ardal Cas-gwent
Ardal Y Fenni
Ardal Cil-y-coed
Crucornau Fawr (1,773)
Y Maerdy (1,430)
Llandeilo Gresynni (1,527)
Bryn Llanelli 3,286)
Llan-ffwyst Fawr (1,971)
Llanofer (1,781)
Llanfihangel Troddi (985)
Rhaglan (1,618)
Goetre Fawr (2,045)
Tryleg Unedig (2.249)
Llanbadog (1,099)
Devauden (1,228)
St. Arvans (1,304)
Llangybi Fawr (1,477)
Drenewydd Gelli-farch (1,850)
Caer-went (1,699)
Mill (2,256)
Rogiet (1,365)
1.Cantref (1,668)
2.Y Castell (1,611)
3.Croesonnen (1,609)
4.Dixton gydag Osbaston (1,968)
5.Drybridge (3,034)
6.Grofield (1,308)
7.Lansdown (1,644)
8.Larkfield (1,484)
9.Llanwenarth Tu Draw (1,128)
10.Overmonnow (1,662)
11.Porth Sgiwed (1,885)
12.Y Priordy (1,546)
13.St. Christopher's (1,756)
14.St. Kingsmark (2,346)
15.St Mary's (1,539)
16.Thornwell (1,961),
17.Brynbuga (1,930)
18.Wyesham (1,701)
19.Castell Caldicot (1,768)
20. Llanddewi (1,404)
21.Green Lane (1,482)
22.Hafren (1,325)
23.The Elms (2,523)
24.West End (1,456)
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

22. Montgomeryshire and Glyndŵr (Maldwyn a Glyndŵr)

22.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Montgomeryshire** ar hyn o bryd):

Banwy (847), Aberriw (1,102), Blaen Hafren (1,876), Caersŵs (1,831), yr Ystog (1,292), Dolforwyn (1,652), Forden (1,215), Glantwymyn (1,701), Cegidfa (1,827), Ceri (1,607), Llanbrynmair (798), Llandinam (1,155), Llandrinio (1,763), Llandysilio (1,441), Llanfair Caereinion (1,301), Llanfihangel (895), Llanfyllin (1,217), Llanidloes (2,149), Llanwddyn (846), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815), Llansantffraid (1,563), Machynlleth (1,701), Meifod (1,069), Trefaldwyn (1,107), Canol y Drenewydd (2,122), Dwyrain y Drenewydd (1,401), Gogledd y Drenewydd: Llanllwchaearn (1,796), Gorllewin y Drenewydd: Llanllwchaearn (1,447), De'r Drenewydd (1,215), Rhiwcynon (1,724), Tre-wern (1,066), y Trallwng: Castell (962), y Trallwng: Gungrog (1,995), a'r Trallwng: Llanerchyddol (1,602);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd South** ar hyn o bryd):

Cefn (3,768), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685), Gogledd y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Llangollen Wledig (1,631), Pen-y-cae (1,525), Pen-y-cae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madoc (1,169) a Rhiwabon (2,078); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Clwyd South** ar hyn o bryd):

Corwen (1,799), Llandrillo (931) a Llangollen (3,302).

22.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,363 o etholwyr, sydd 1.4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Montgomeryshire and Glyndŵr**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Maldwyn a Glyndŵr.**

22.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol, gyda rhai cynrychiolaethau'n awgrymu y dylai Rhuthun gael ei chyfuno ag ardaloedd fel Llandrillo a Chorwen. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn argymell ychwanegu wardiau etholiadol Ponciau, Pant a Johnstown at y cynnig cychwynnol, er bod nifer o gynrychiolaethau'n dadlau bod gan yr ardal hon gysylltiadau cryf â Wrecsam. Cafodd y Comisiwn gryn gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol; roedd y gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar gadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod gan Sir Drefaldwyn gysylltiadau da â'r ardaloedd yn Ne Clwyd i'r gogledd o'r etholaeth bresennol.

22.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newidiadau i'r cynnig cychwynnol a theimlai y gellid cyflawni canlyniad dymunol trwy rannu ward etholiadol Ponciau a lleoli elfennau Rhosllanerchrugog a Phonciau o'r ward yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, ac elfen Esclusham yn Wrecsam. Roedd cefnogaeth i'r cynnig, a dywedodd cynrychiolaethau fod rhaniad clir rhwng Rhosllanerchrugog ac Esclusham, felly byddai hyn yn ffordd synhwyrol o rannu'r ardal. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol rannu Sir Drefaldwyn trwy ymestyn sedd Aberhonddu a Maesyfed i'r gogledd, gan gynnwys y Drenewydd a'r cymunedau amgylchynol. Yna, gwnaethant gynnig ymestyn sedd Sir Drefaldwyn i Dde Clwyd. Cynigiodd Plaid Cymru newid ffiniau Sir Drefaldwyn trwy osod wardiau etholiadol Machynlleth, Glantwymyn, Llanbrynmair, Llandrillo a Chorwen mewn etholaeth Meirionnydd Nant Conwy.

22.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r peth gorau fyddai cynnwys rhannau o Sir Drefaldwyn mewn etholaeth arfaethedig gydag Aberhonddu a Maesyfed o ganlyniad i'r cysylltiadau â Chyngor Sir Powys. Cydnabuont y gefnogaeth gref dros gadw etholaeth Sir Drefaldwyn, am resymau

diwylliannol a hanesyddol yn y bôn, ond nid oeddent o'r farn eu bod yn dyngedfennol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth Sir Drefaldwyn a Meirionnydd drwy gyfuno rhai o'r wardiau o Sir Drefaldwyn â rhai o'r wardiau o Feirionnydd.

22.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o'r farn bod cryn gefnogaeth dros gadw etholaeth bresennol Montgomeryshire a'i chyfuno â wardiau i'r gogledd yng Nghlwyd ac ar gyrion Wrecsam. Nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau o blaid rhannu ward etholiadol Ponciau, ac felly mae'n cynnig etholaeth sy'n cynnwys ward etholiadol Ponciau i gyd.

22.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Montgomeryshire ar hyn o bryd):

Banwy (847), Aberriw (1,102), Blaen Hafren (1,876), Caersŵs (1,831), yr Ystog (1,292), Dolforwyn (1,652), Forden (1,215), Glantwymyn (1,701), Cegidfa (1,827), Ceri (1,607), Llanbrynmair (798), Llandinam (1,155), Llandrinio (1,763), Llandysilio (1,441), Llanfair Caereinion (1,301), Llanfihangel (895), Llanfyllin (1,217), Llanidloes (2,149), Llanwddyn (846), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815), Llansantffraid (1,563), Machynlleth (1,701), Meifod (1,069), Trefaldwyn (1,107), Canol y Drenewydd (2,122), Dwyrain y Drenewydd (1,401), Gogledd y Drenewydd: Llanllwchaearn (1,796), Gorllewin y Drenewydd: Llanllwchaearn (1,447), De'r Drenewydd (1,215), Rhiwcynon (1,724), Tre-wern (1,066), y Trallwng: Castell (962), y Trallwng: Gungrog (1,995), a'r Trallwng: Llanerchyddol (1,602);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Cefn (3,768), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685), Gogledd y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Esclusham (2,013), Johnstown (2,461), Pant (1,528), Pen-y-cae (1,525), Pen-y-cae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madoc (1,169), Ponciau (1,169) a Rhiwabon (2,078); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Corwen (1,799) a Llandrillo (931).

22.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,953 o etholwyr, sydd 4.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Montgomeryshire and Glyndŵr. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Maldwyn a Glyndŵr.

Enw arfaethedig yr etholaeth

22.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol a'r enw arfaethedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, pan gynigiwyd trefniadau daearyddol amgen, awgrymwyd enwau amgen hefyd. Ystyriodd y Comisiwn yr enw Sir Drefaldwyn a Berwyn hefyd. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn ag enw arfaethedig yr etholaeth.

22.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

22.11 Mae’r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i’r casgliad mai’r enw sy’n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Montgomeryshire and Glyndŵr a’r enw amgen swyddogol a gynigir yw Maldwyn a Glyndŵr.

Maldwyn a Glyndŵr



23. Neath and Swansea East (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe)

23.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Swansea East** ar hyn o bryd):

Bôn-y-maen (5,391), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514);

2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Gower** ar hyn o bryd);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Aberavon** ar hyn o bryd):

Canol Coedffranc (2,892), Gogledd Coedffranc (1,811) a Gorllewin Coedffranc (3,587); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Neath** ar hyn o bryd):

Aberdulais (1,712), Blaengwrach (1,491), Gogledd Bryn-coch North (1,787), De Bryn-coch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-nedd (4,468), Gogledd Castell-nedd (2,931), De Castell-nedd (3,694), Onllwyn (935), Pelenna (936), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).

23.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,641 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw Cwota

Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Swansea East and Neath**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd**.

23.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf mewn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod yr ardal wedi'i chysylltu'n well â gweddill Cwm Tawe a'i bod yn edrych tuag at Abertawe a Chastell-nedd fel cytrefi. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu ei gynigion cychwynnol ar gyfer Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau'n dadlau bod wardiau etholiadol Abertawe yn edrych tuag at ganol dinas Abertawe yn bennaf ac y dylid eu cadw mewn etholaeth wedi'i seilio ar Abertawe, yn hytrach nag ymuno â wardiau o ardal awdurdod lleol wahanol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hefyd. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu'r trefniant ar gyfer Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd ar y sail y dylai'r etholaeth gael ei hymestyn i gynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf, nad oes ganddi lawer o gysylltiadau ag etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, sydd eisoes yn fawr. Fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau'n cytuno â chynnwys rhai wardiau, fel Canol Coedffranc, Gorllewin Coedffranc a Gogledd Coedffranc, yn ogystal â wardiau Clydach, St. Thomas a Bôn-y-maen, fel ychwanegiadau synhwyrol at etholaeth Castell-nedd.

23.4 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe yn gryf. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfuno ardal Cwm Tawe Uchaf â rhannau o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd i ffurfio etholaeth Castell-nedd gyda Gogledd-orllewin Abertawe. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol drosglwyddo wardiau etholiadol Gogledd Coedffranc, Gorllewin Coedffranc a De Coedffranc, St. Thomas a Bôn-y-maen allan, gan eu disodli â'r 9 ward etholiadol o Gwm Tawe Uchaf. Ni chynigiodd y Blaid Lafur unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig creu etholaeth Lliw a Thawe a oedd yn cynnwys llawer o Ogledd Abertawe a'r rhan ogledd-orllewinol o etholaeth Castell-

nedd. Gwnaethant hefyd gynnig creu etholaeth Castell-nedd ac Aberafan o weddill etholaeth Castell-nedd. Roedd cynnig Plaid Cymru yn rhannu cymuned Coedffranc.

23.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth Dyffryn Lliw a oedd yn cynnwys, yn fras, ardal hen Gyngor Bwrdeistref Dosbarth Dyffryn Lliw, a fodolai o 1974 i 1996. Roedd yn cynnwys rhannau o Orllewin Abertawe a Chanol Abertawe, ac ardaloedd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gnwaed cynnig Lliw a Thawe tebyg gan Blaid Cymru, a oedd yn cynnwys ardal Cwm Tawe mewn etholaeth wedi'i seilio ar Abertawe/Castell-nedd. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth o'r enw Castell-nedd, Aberafan a Maesteg hefyd, gan gynnwys llawer o'r cynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth Aberafan Porthcawl, heb ardal Porthcawl, a chan gynnwys wardiau etholiadol Caerau, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg. Roedd yr etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys rhan o Gwm Nedd hefyd.

23.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynnig mân newid i'w gynnig cychwynnol trwy ddychwelyd 3 ward Coedffranc i etholaeth sy'n cynnwys wardiau eraill o etholaeth bresennol Aberavon yn Aberafan Porthcawl a disodli'r wardiau hynny â ward etholiadol Glandŵr. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Cymru a'r Comisiynwyr Cynorthwyol, ond credai fod rhannu Cwm Nedd rhwng 2 etholaeth yn creu ffin eithaf anghyffredin rhyngddynt. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ei newidiadau arfaethedig i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn arwain at gysylltiad ffordd sy'n denau rhwng rhannau o'r etholaeth. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod mater y cysylltiad ffordd yn digwydd yn anffodus o ganlyniad i natur ddaearyddol rhwydweithiau teithio'r Cwm, a chynigir y newidiadau fel modd o fynd i'r afael â'r cynrychiolaethau yn ymwneud â rhannau eraill o'r rhanbarth.

23.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):

Bôn-y-maen (5,391), Glandŵr (4,821), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514);

2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Aberdulais (1,712), Blaengwrach (1,491), Gogledd Bryn-coch (1,787), De Bryn-coch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-nedd (4,468), Gogledd Castell-nedd (2,931), De Castell-nedd (3,694), Onllwyn (935), Pelenna (936), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).

23.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,172 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Neath and Swansea East. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Enw arfaethedig yr etholaeth

23.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi rhai mân newidiadau i'r cynnig cychwynnol, a chafodd rai cynigion sylweddol wahanol ar gyfer Abertawe gyfan hefyd o ganlyniad i gynnwys ardal Cwm Tawe yng nghynigion Abertawe. Cynigiwyd enwau amgen, gan gynnwys gan y Blaid Geidwadol, a oedd o'r farn y dylid rhoi'r enw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe i'r etholaeth arfaethedig oherwydd byddai hynny'n adlewyrchu'r ffaith yn well bod Castell-nedd yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r etholaeth arfaethedig.

23.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

23.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Neath and Swansea East a'r enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.


Castell-nedd a Dwyrain Abertawe
0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:108,200
Onllwyn (935)
Glyn-nedd (2,577)
Blaen-gwrach (1,491)
Blaendulais (1,554)
Resolfen (2,387)
Creunant (1,508)
Aberdulais (1,712)
Tonna (2,072)
Pelenna (936)
Gogledd Bryn-côch (1,787)
Dyffryn (2,447)
Clydach (5,821)
Llansamlet (11,107)
Bôn-y-maen (5,391)
St. Thomas (5,514)
1. De Bryn-côch (4,547)
2. Llangatwg (1,365)
3. Cimla (3,107)
4. Glandŵr (4,821)
5. Dwyrain Castell-nedd (4,468)
6. Gogledd Castell-nedd (2,931)
7. De Castell-nedd (3,694)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

24. Newport East (Dwyrain Casnewydd)

24.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Newport East** ar hyn o bryd):

Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Liswerry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Newport West** ar hyn o bryd):

Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pilgwenlli (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).

24.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Newport East**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Dwyrain Casnewydd**.

24.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau gan breswylwyr ardal Cil-y-coed a oedd yn gwrthwynebu'r symudiad arfaethedig o etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Roedd y gwrthwynebiad wedi'i seilio ar y gynrychiolaeth draddodiadol ar gyfer etholaeth Mynwy a'r teimlad bod preswylwyr wedi cael eu cynrychioli'n wych gan eu cynrychiolydd Dwyrain Casnewydd. Roedd 3 o'r 4 plaid wleidyddol gymwys yn cefnogi'r cynnig cychwynnol. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth i'w gynigion cychwynnol gan Aelodau Seneddol presennol Dwyrain Casnewydd a Mynwy hefyd.

24.4 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol ac yn nodi bod yr holl bleidiau gwleidyddol, heblaw am Blaid Cymru, yn ei gefnogi hefyd.

24.5 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o'r farn bod cadw'r etholaeth arfaethedig yn creu'r etholaethau mwyaf priodol a chydlynol ar draws yr ardal. Mae'r holl wardiau etholiadol o fewn Dinas Casnewydd, ac mae'r wardiau sy'n cael eu trosglwyddo allan o etholaeth bresennol Newport East i gyd yn dod o ardal prif gyngor Sir Fynwy ac yn cael eu cyfuno â wardiau eraill o ardal y prif gyngor hwnnw.

24.6 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):

Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Liswerry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):

Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pilgwenlli (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).

24.7 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth yw Newport East. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Casnewydd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

24.8 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r enw a'r trefniadau ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon. Hyd yn oed pan gynigiwyd trefniadau amgen, roedd y cyflwyniadau'n cadw enw arfaethedig yr etholaeth. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw'r etholaeth arfaethedig.

24.9 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Newport East a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Dwyrain Casnewydd.

Dwyrain Casnewydd



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

25. Newport West and Islwyn (Gorllewin Casnewydd ac Islwyn)

25.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Newport West** ar hyn o bryd):

Allt-yr-ynn (7,088), Gaer (6,543), Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421) a Pharc Tredegar (3,329); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Caerphilly** ar hyn o bryd):

Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas a Machen (7,902), Morgan Jones (5,636), Penyrheol (9,021), St. James (4,267) a Sant Martin (6,582).

25.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,394 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Newport West and Caerphilly.** Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.**

25.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion cychwynnol yn yr ardal hon, a chafodd drefniant amgen a enillodd gryn gefnogaeth yn yr ardal leol. Roedd y trefniant amgen hwn yn cyfuno Islwyn â Gorllewin Casnewydd, ac yn cynnig etholaeth newydd Caerffili hefyd. Roedd y gefnogaeth i'r trefniant amgen hwn wedi'i seilio ar y cysylltiadau lleol a'r cysylltiadau teithio yn yr ardal. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynigion cychwynnol yn yr ardal, gan gynnwys gan rai Aelodau Seneddol.

25.4 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal ac yn llwyr yn erbyn y gwrthgynnig. Roeddent o'r farn nad yw'r cysylltiadau yn yr ardal sydd dan sylw yn y gwrthgynnig mor gryf â'r rhai yn y cynigion cychwynnol. ododd y Ceidwadwyr y mater a grëwyd gan gynigion cychwynnol ward amddifad Nelson, a gafodd sylw gan y trefniant amgen, chynigiodd newidiadau pellach i'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal. Cafodd y Comisiwn wrthwynebiad ychwanegol i'r gwrthgynnig hefyd, gyda rhai sylwadau'n gwrthwynebu cynnwys y Coed-duon a Phontllanfraith mewn etholaeth Caerffili o ganlyniad i'w cysylltiadau ag Islwyn.

25.5 Cynigiodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol newidiadau sylweddol i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth Gorllewin Casnewydd a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga a Crosskeys yn unig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac etholaeth Caerffili a oedd yn cynnwys llawer o fasn Caerffili a rhannau o Islwyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol 2 etholaeth Caerffili gyda Gogledd Islwyn a Gorllewin Casnewydd gydag Islwyn, a oedd yn drefniant gwahanol i'r gwrthgynnig a grybwyllwyd yn 25.3 uchod.

25.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod Islwyn yn rhan fwy uniongyrchol o gyrion Casnewydd na Chaerffili, yn enwedig o ran cysylltiadau rheilffordd a'r rhwydwaith ffyrdd yn seiliedig ar yr A467. Roeddent yn cytuno â'r trefniant amgen a gynigiwyd ac yn ei argymell yn seiliedig ar gysylltiadau lleol rhwng y dref a'r ardal yn uniongyrchol o'i hamgylch.

25.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cytuno ei bod yn fwy naturiol ar gyfer Caerffili i greu etholaeth wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod mwy o gysylltiadau lleol rhwng Gorllewin Casnewydd ac Islwyn na rhwng Gorllewin Casnewydd a basn Caerffili, ac felly mae'n cynnig etholaeth sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn wedi mynd i'r afael â mater ward amddifad Nelson hefyd.

25.8 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):

Allt-yr-ynn (7,088), Gaer (6,543), Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421) a Pharc Tredegar (3,329); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):

Aber-carn (4,139), Argoed (2,035), y Coed-duon (6,330), Crosskeys (2,527), Crymlyn (4,332), Trecelyn (4,892), Penmaen (4,219), Dwyrain Rhisga (4,611), Gorllewin Rhisga (3,973) ac Ynys-ddu (2,978).

25.9 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,367 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Newport West and Islwyn. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

Enw arfaethedig yr etholaeth

25.10 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn yn ogystal

â newid i enw'r etholaeth i adlewyrchu'r trefniant newydd. Derbyniodd y Comisiwn yr enw amgen Gorllewin Casnewydd a Threcelyn.

25.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw i adlewyrchu'r trefniant newydd, gan argymell Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

25.12 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Newport West and Islwyn a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

Gorllewin Casnewydd ac Islwyn



26. Pontypridd

26.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Pontypridd** ar hyn o bryd):

Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), y Ddraenen Wen (3,180), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Cynon Valley** ar hyn o bryd):

Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyn-coch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw-ceibr (4,056) ac Ynys-y-bwl (3,433).

26.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,237 o etholwyr, sydd 2.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Pontypridd**.

26.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn dadlau yn erbyn cynnwys ardaloedd o Gwm Cynon mewn etholaeth gyda Phontypridd. Roedd y dadleuon yn gwrthwynebu rhannu Cwm Cynon yn bennaf. Roedd cynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd yn dadlau y dylai Pont-y-clun gael ei chynnwys mewn etholaeth Pontypridd, a dadleuodd rhai cynrychiolaethau y dylai

Ffynnon Taf gael ei chynnwys mewn etholaeth gydag ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau o blaid ychwanegu Ffynnon Taf at Ogledd Caerdydd, gan gynnwys gan yr Aelod Seneddol presennol dros Ogledd Caerdydd.

26.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol aduno ward etholiadol Ffynnon Taf ag etholaeth Pontypridd, ond nid aethant aeth i'r afael â'r cynrychiolaethau yn ymwneud â Phont-y-clun. Fodd bynnag, aeth y Blaid Geidwadol i'r afael yn rhannol â phryderon preswylwyr Cwm Cynon trwy drosglwyddo wardiau Gogledd a De Aberaman o etholaeth arfaethedig Pontypridd i'w hetholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, a chynnwys ward Cwm-bach mewn etholaeth Pontypridd. Cynigiodd Plaid Cymru fynd i'r afael â phryderon preswylwyr Pont-y-clun a Ffynnon Taf trwy osod y wardiau etholiadol hyn o fewn etholaeth Pontypridd. Aeth Plaid Cymru i'r afael â phryderon preswylwyr Cwm Cynon hefyd trwy gynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman, De Aberaman, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar a Phenrhiw-ceibr mewn etholaeth arfaethedig Aberdâr a Merthyr Tudful. Nid oedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a oedd yn cyfeirio at Bont-y-clun na Ffynnon Taf. Fodd bynnag, gwnaethant gynnig mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â Chwm Cynon trwy ychwanegu wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman at eu hetholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Tonyrefail a Gorllewin Tonyrefail o etholaeth Rhondda yn eu hetholaeth arfaethedig Pontypridd gyda Chynon Isaf.

26.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys wardiau etholiadol Pont-y-clun a Ffynnon Taf yn eu hetholaeth arfaethedig Pontypridd a Llantrisant. Byddai'r cynnig yn creu etholaeth sy'n cynnwys Llantrisant, Pont-y-clun a Phontypridd, ynghyd â Ffynnon Taf ac ardal Cwm Cynon Isaf. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd drosglwyddo wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman allan i wneud iawn am gynnwys Ffynnon Taf a Phont-y-clun.

26.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol,

mae'r Comisiwn o blaid y cynrychiolaethau sy'n datgan y dylai Cwm Cynon gael ei gadw o fewn un etholaeth. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar yr etholaethau eraill yn ne Cymru ac yn cynhyrchu canlyniadau llai dymunol. Mae'r Comisiwn wedi trosglwyddo rhai o wardiau etholiadol Cwm Cynon i etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful a Chynon Uchaf (Gogledd Aberaman a De Aberaman yn benodol). Fodd bynnag, ni allai gadw Cwm Cynon i gyd o fewn un etholaeth. Mae'r Comisiwn hefyd o blaid y cynrychiolaethau sy'n datgan y dylai Pont-y-clun a Ffynnon Taf gael eu cynnwys o fewn etholaeth Pontypridd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn, er mwyn creu etholaethau cydlynol ar draws y rhanbarth, ei bod yn well i'r wardiau etholiadol hyn gael eu gosod o fewn etholaethau Caerdydd, fel y cynigiwyd.

26.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):

Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), y Ddraenen Wen (3,180), Llanhari (199), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Cynon Valley ar hyn o bryd):

Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyn-coch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw-ceibr (4,056) ac Ynys-y-bwl (3,433); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Brynna (3,616), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022).

26.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,743 o etholwyr, sydd 0.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Pontypridd.

Enw arfaethedig yr etholaeth

26.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi gwneud newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, er mwyn creu etholaethau ar draws y rhanbarth sy'n gydlynol ac yn cadw at y ddeddfwriaeth, ni fu'n bosibl gwneud newidiadau mor bellgyrhaeddol â'r rhai hynny a awgrymwyd mewn llawer o'r cynrychiolaethau. Derbyniodd y Comisiwn enwau amgen ar gyfer y trefniadau a gynigiwyd hefyd, fel Pontypridd a Llantrisant, a Phontypridd a Chynon Isaf.

26.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

26.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Pontypridd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw hwn yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pontypridd


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:90,440
1. Pentre'r Eglwys (4,424)
2. Glyncoch (2,006)
3. Y Ddraenen-wen (3,180)
4. Dwyrain Aberpennar (2,254)
5. Gorllewin Aberpennar (3,123)
6. Penrhiw-ceibr (4,056)
7. Tref Pontypridd (2,208)
8. Canol Rhydfelen/Ilan (3,037)
9. Tonysguboriau (1,965)
10. Trefforest (2,862)
11. Tyn-y-nant (2,454)
Ynys-y-bwl (3,433)
Abercynon (4,441)
Cilfynydd (2,110)
Rhondda (3,458)
Trallwng (2,824)
Graig (1,885)
Beddau (3,172)
Ton-teg (3,183)
Tref Llantrisant (3,187)
Llanilltud Faerdref (4,825)
Llanharan (2,819)
Brynna (3,616)
Llanhari (3,221)
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

27. Rhondda

27.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Rhondda** ar hyn o bryd):

Cwm Clydach (1,987), y Cymer (3,977), Glynrhedynog (3,114), Llwynypia (1,637), Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynys-hir (2,380) ac Ystrad (4,285);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Ogmore** ar hyn o bryd):

Brynna (3,616), Gilfach Goch (2,437), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Pontypridd** ar hyn o bryd):

Llanhari (199), Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896).

27.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,684 o etholwyr, sydd 2.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Rhondda**.

27.3 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig cychwynnol ymhlith y pleidiau gwleidyddol a'r

cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Tonyrefail a Gorllewin Tonyrefail o etholaeth Rhondda mewn etholaeth arfaethedig Pontypridd gyda Chynon Isaf. O ganlyniad, gwnaethant gynnig cyfuno rhan o etholaeth Rhondda â Bro Ogwr mewn etholaeth Rhondda ac Ogwr.

27.4 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth Rhondda yn gyfan gwbl.

27.5 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn parhau i gredu y byddai'r cynnig cychwynnol yn creu etholaeth gydlynol. Fodd bynnag, er mwyn ymdrin ag etholaethau diwygiedig mewn rhannau eraill o dde Cymru, bu'n rhaid i'r Comisiwn wneud mân newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Mae'r Comisiwn wedi gallu cadw etholaeth bresennol Rhondda i gyd o fewn yr etholaeth arfaethedig.

27.6 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Rhondda ar hyn o bryd):

Cwm Clydach (1,987), y Cymer (3,977), Glynrhedynog (3,114), Llwynypia (1,637), Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynys-hir (2,380) ac Ystrad (4,285);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):

Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896);

3. Ward etholiadol Gilfach Goch (2,437) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Felindre (2,087), Hendre (3,175) a Phen-prysg (2,474).

27.7 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,764 o etholwyr, sydd 4.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Rhondda.

Enw arfaethedig yr etholaeth

27.8 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r cynrychiolaethau a gafwyd ynglŷn ag etholaethau eraill, bu'n rhaid i'r Comisiwn gynnig newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Cafodd y Comisiwn drefniant amgen gan y Democratiaid Rhyddfrydol, a awgrymodd yr enw amgen Rhondda ac Ogwr hefyd, a fyddai'n adlewyrchu eu trefniant amgen yn well.

27.9 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw arfaethedig.

27.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Rhondda. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw hwn yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhondda


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:86,740
Treherbert
(4,158)
Y Maerdy
(2,283)
Treorci
(5,693)
4
Ystrad
(4,285)
Tylorstown
(3,054)
Pentre
(3,902)
1. Felindre (2,087)
2. Llwynypia (1,637)
3. Tonypandy (2,686)
4. Glynrhedynog (3,114)
2
Ynys-hir
(2,380)
Cwm Clydach
(1,987)
Trealaw
(2,895)
3
Porth
(4,282)
Pen-y-graig
(3,929)
Cymer
(3,977)
Gorllewin
Tonyrefail
(4,896)
Dwyrain Tonyrefail
(4,433)
Gilfach
Goch
(2,437)
Pen-prysg
(2,474)
Hendre
(3,175)
1
Comisiwn Ffiniau
i Gymru
Boundary Commission
for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

28. Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)

28.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Gower** ar hyn o bryd):

Llangyfelach (3,946), Mawr (1,438), Penlle'r-gaer (2,553), Pontarddulais (4,954);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol **Swansea East** ar hyn o bryd):

Cwmbwrla (5,622), Glandŵr (4,821), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol **Swansea West** ar hyn o bryd):

Y Castell (10,312), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834).

28.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,199 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Swansea Central and North**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Canol a Gogledd Abertawe**.

28.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cyflwyno gwrthgynnig ar gyfer etholaethau Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a Chanol a Gogledd Abertawe. Dadleuodd y cynrychiolaethau

fod y trefniant amgen yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn Ninas a Sir Abertawe yn well ar sail ffydd, addysg a diwylliant. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r gwrthgynnig, gan ddadlau ei fod yn sicrhau nad yw cymunedau lleiafrifol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau a bod myfyrwyr yn byw ac astudio yn yr un etholaeth. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf (Pontardawe a'r cyffiniau) mewn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr ardal wedi'i chysylltu'n well â gweddill Cwm Tawe a'i bod yn edrych i'r de tuag at Abertawe a Chastell-nedd.

28.4 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe yn gryf. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol drefniadau ychydig yn wahanol ar draws Abertawe i wneud iawn am eu newidiadau arfaethedig i etholaethau Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, ac Aberhonddu a Maesyfed. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol greu etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe a oedd yn cynnwys wardiau ychwanegol o ganol Abertawe (Townhill, y Castell ac Uplands), gyda wardiau Casllwchwr Uchaf, y Cocyd, Penyrheol, Casllwchwr Isaf, Kingsbridge a Gorseinon yn cael eu trosglwyddo allan i etholaeth arfaethedig Gogledd Abertawe. Roedd Plaid Cymru, o ganlyniad i greu eu hetholaeth arfaethedig Lliw a Thawe, wedi cynnig creu etholaethau Dwyrain Abertawe, a Gorllewin Abertawe a Gŵyr o weddill Dinas a Sir Abertawe. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig ymestyn Aberhonddu a Maesyfed i awdurdod lleol Sir Fynwy i gyfuno ag ardal y Fenni, er mwyn i ardal Dyffryn Aman gael ei chynnwys mewn etholaeth Lliw a Thawe sy'n cynnwys llawer o ogledd Abertawe. Cynigiodd Llafur Cymru greu etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe ddiwygiedig a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer, ar draul wardiau etholiadol Mayals a Sgeti. Roedd y newid canlyniadol i etholaeth Canol a Gogledd Abertawe yn golygu symud wardiau Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer i etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a chynhwyswyd ward Treforys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Roedd y cynnig yn rhannu cymuned y Mwmbwls rhwng eu hetholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr ac etholaeth arfaethedig Canol Abertawe.

28.5 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniadau gwahanol i'r cynigion cychwynnol ar gyfer ardal Abertawe, gan ddadlau'n gryf y dylai Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf fod yn rhan o ardal Abertawe. Mae holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr ardaloedd hyn gyda chytref Abertawe/Castell-nedd. Roedd hyn yn golygu bod angen siâp gwahanol ar gyfer yr etholaethau i sicrhau eu bod yn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Roedd y newidiadau arfaethedig i'r cynnig cychwynnol yn eithaf lleiafsymiol ac yn adlewyrchu rhai o'r cynrychiolaethau a wnaed. Tynnwyd wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol ymaith, ac ychwanegwyd ward etholiadol Uplands, gan ei huno â ward Sgeti yn yr un etholaeth.

28.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn credu bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cyfiawnhau rhannu cymuned y Mwmbwls; yn rhan o'r gwrthgynnig, rhannwyd cymuned y Mwmbwls ar draws etholaethau arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanol Abertawe. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r cynigion i gynnwys Cwm Tawe mewn etholaeth Abertawe yn cael effaith bellgyrhaeddol ar ei allu i greu etholaethau cydlynol ar draws gweddill y wlad o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn ei bod yn amhriodol creu etholaethau ar sail ffydd, gwahaniaethau hiliol neu statws addysgol.

28.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llangyfelach (3,946), Mawr (1,438), Penlle'r-gaer (2,553), Pontarddulais (4,954);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol Swansea East ar hyn o bryd):

Cwmbwrla (5,622), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Castell (10,312), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834).

28.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,378 o etholwyr, sydd 2.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Swansea Central and North. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Canol a Gogledd Abertawe.

Enw arfaethedig yr etholaeth

28.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi rhai mân newidiadau i'r cynnig cychwynnol, ynghyd â rhai cynigion sylweddol wahanol ar gyfer Abertawe gyfan o ganlyniad i gynnwys ardal Cwm Tawe yng nghynigion Abertawe. Cynigiwyd enwau amgen, gan gynnwys gan Lafur Cymru, a gynigiodd yr enw Canol Abertawe.

28.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

28.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Swansea Central and North a'r enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Canol a Gogledd Abertawe.

.

Canol a Gogledd Abertawe



29. Torfaen

29.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Torfaen** ar hyn o bryd):

Abersychan (5,044), Blaenafon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynyscoy (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Pant-teg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pŵl (1,438), St. Cadocs a Phen-y-garn (1,341), St. Dials (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbrân Uchaf (4,207) a Waunfelin (1,847); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Monmouth** ar hyn o bryd):

Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).

29.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Torfaen**.

29.3 Cafodd y Comisiwn gyfanswm o 9 cynrychiolaeth a oedd yn cefnogi ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Cofrestrodd yr Aelodau Seneddol dros Dorfaen a Mynwy eu cefnogaeth i'r cynnig, gan ddweud eu bod yn cefnogi'r ffaith bod yr etholaeth arfaethedig yn cydffinio â ffiniau'r

awdurdod lleol. Roedd y Blaid Geidwadol, Llafur Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol. Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth nad oeddent yn cefnogi'r cynnig cychwynnol, gan gynnwys y cyflwyniad gan Blaid Cymru, a oedd yn cyfuno ardaloedd o Dorfaen â Blaenau Gwent a Threfynwy, gan groesi nifer o ffiniau awdurdod lleol.

29.4 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol ac yn nodi bod yr holl bleidiau gwleidyddol, heblaw am Blaid Cymru, yn ei gefnogi hefyd.

29.5 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cadw ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Ystyriodd y cynigion amgen; fodd bynnag, mae'n credu bod y trefniant yn y cynnig cychwynnol yn cyd-fynd yn well â Rheol 5 y ddeddfwriaeth ac yn rhoi eglurder i'r etholwyr. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai effeithiau'r trefniadau amgen arfaethedig ar yr ardaloedd amgylchynol yn llai dymunol hefyd.

29.6 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Torfaen ar hyn o bryd):

Abersychan (5,044), Blaenafon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynyscoy (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Pant-teg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pŵl (1,438), St. Cadocs a Phen-y-garn (1,341), St. Dials (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbrân Uchaf (4,207) a Waunfelin (1,847); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).

29.7 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Torfaen.

Enw arfaethedig yr etholaeth

29.8 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn. Derbyniodd y Comisiwn enwau amgen ar gyfer trefniadau daearyddol amgen, fel Sirhywi. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw arfaethedig yr etholaeth.

29.9 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw'r enw unigol Torfaen. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw hwn yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Torfaen


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:79,050
1. Bryn-wern (1,295)
2. Coed Efa (1,859)
3. Gogledd Croesyceiliog (2,745)
4. De Croesyceiliog (1,460)
5. Fairwater (3,918)
6. Greenmeadow (2,028)
7. Gogledd Llanyrafon (1,803)
8. Pontnewydd (5,186)
9. Pont-y-pŵl (1,438)
10. Snatchwood (1,819)
11. St. Cadocs a Phenygarn (1,341)
12. Llanfihangel Llantarnam (3,317)
Blaenavon (4,575)
Abersychan (5,044)
Trefddyn (2,463)
Pontnewynydd (1,129)
New Inn (4,777)
Waunfelin (1,847)
Cwmynysgoi (987)
Panteg (5,828)
Cwmbrân (4,207)
De Llanyrafon (1,946)
Two Locks (4,715)
Llantarnam (4,864)
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

30. Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)

30.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol **Vale of Glamorgan** ar hyn o bryd):

Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadog (7,244), Castleland (3,442), Court (3,370), y Bont-faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtud (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint-y-brid (2,732) a Gwenfô (2,915).

30.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Vale of Glamorgan**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Bro Morgannwg**.

30.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol ac yn argymell dychwelyd ardal Penarth i Fro Morgannwg. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn argymell cadw ward etholiadol Dinas Powys yn etholaeth Bro Morgannwg gan fod preswylwyr yn tueddu i edrych tuag at y Barri a chymunedau eraill o fewn Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau ac amwynderau, yn hytrach na Chaerdydd.

30.4 Cynigiodd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol ychwanegu ward etholiadol Dinas Powys at Fro Morgannwg. Ni chynigiodd y Blaid Lafur unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Cynigiodd cyflwyniad Plaid Cymru greu etholaeth y Barri a De Caerdydd trwy ddileu wardiau Cadog, Castleland, Court, Gibbonsdown, Buttrills, Dyfan, Baruc ac Illtud, a chynnwys Dinas Powys mewn etholaeth Bro Morgannwg a Phorthcawl.

30.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod ymlyniad i etholaeth bresennol Vale of Glamorgan, a oedd yn cyd-fynd â'r cwota statudol, a bod cefnogaeth gan y pleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, gwnaethant ddadlau hefyd y byddai cadw'r etholaeth bresennol yn ei chyfanrwydd neu i raddau helaeth iawn yn arwain at ganlyniadau anfoddhaol mewn mannau eraill, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Felly, gwnaethant argymell creu etholaeth Bro Morgannwg a Phorthcawl ac etholaeth y Barri, De Caerdydd a Phenarth, gan rannu tref y Barri ar draws y 2 etholaeth hyn.

30.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau o blaid cynnwys ardal Penarth yn etholaeth Bro Morgannwg gan fod hyn yn mynd dros y cwota statudol. Er bod cadw Dinas Powys ym Mro Morgannwg yn arwain at etholaeth sy'n dod o fewn y cwota statudol o hyd, mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn creu etholaethau sy'n dod o fewn yr amrediad statudol yng Nghaerdydd. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai creu etholaeth y Barri a De Caerdydd nid yn unig yn rhannu tref y Barri ar draws 2 etholaeth, ond byddai'n creu gwrthwynebiad pellach o ganlyniad i ddadleuon ymatebwyr bod Dinas Powys yn edrych tuag at y Barri ar gyfer gwasanaethau, yn hytrach na Chaerdydd. Byddai cynnwys y Barri mewn etholaeth gyda Chaerdydd yn creu problemau tebyg i'r cynnig cychwynnol ar gyfer preswylwyr Dinas Powys.

30.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd):

Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadog (7,244), Castleland (3,442), Court (3,370), y Bont-faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtud (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint-y-brid (2,732) a Gwenfô (2,915).

30.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Vale of Glamorgan. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Bro Morgannwg.

Enw arfaethedig yr etholaeth

30.9 Ni chafodd y Comisiwn lawer o gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn, er bod etholaeth bresennol Vale of Glamorgan o fewn y cwota statudol, y byddai cadw'r etholaeth hon yn niweidiol i weddill ei gynigion. Ni chafodd y Comisiwn enwau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

30.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

30.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Vale of Glamorgan a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Bro Morgannwg.

Bro Morgannwg



31. Wrexham (Wrecsam)

31.1 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Wrexham** ar hyn o bryd):

Gwaunyterfyn (2,177), Parc Borras (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Acton Fechan (1,843), Llai (3,513), Maes-y-dre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosesni (2,827), yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol **Clwyd South** ar hyn o bryd):

Bronington (2,620), Bryn Cefn (1,543), Coed-poeth (3,482), Esclusham (2,013), Gwenfro (1,217), Johnstown (2,461), Marchwiel (1,830), New Broughton (2,842), Owrtyn (2,710), Pant (1,528) a Phonciau (3,521).

31.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,596 o etholwyr, sydd 3% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Wrexham**. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd **Wrecsam**.

31.3 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys gan yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam a De Clwyd, a oedd y dweud bod wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd yn rhannu cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag Alun a Glannau Dyfrdwy i'r gogledd. Dadleuodd y cynrychiolaethau y dylai'r wardiau etholiadol hyn aros o fewn etholaeth Wrecsam. Cafodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau a oedd yn argymell cynnwys wardiau etholiadol Ponciau, Pant a Johnstown mewn cynigion amgen, er bod llawer o gynrychiolaethau'n dadlau bod gan yr ardal hon gysylltiadau cryf â Wrecsam. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd y dylai ardal prif gyngor Wrecsam i gyd gael ei chynnwys o fewn un etholaeth.

31.4 Roedd y pleidiau gwleidyddol yn cytuno y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig Wrecsam. Cynigiodd y Blaid Geidwadol newidiadau i'r cynnig cychwynnol a theimlai y gellid cyflawni canlyniad dymunol trwy rannu ward etholiadol Ponciau. Roedd hyn yn cynnwys gosod elfennau Rhosllanerchrugog a Phonciau y ward yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, ac elfen Esclusham yn Wrecsam. Roedd cefnogaeth i'r cynnig, gyda chynrychiolaethau'n datgan bod y rhaniad clir rhwng Rhosllanerchrugog ac Esclusham yn golygu bod hyn yn ffordd synhwyrol o rannu'r ardal. Mae cynnig Plaid Cymru ar gyfer yr ardal hon yn cynnig trefniant gwahanol iawn i'r cynigion cychwynnol, gan ddychwelyd wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd i etholaeth Wrecsam. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn trosglwyddo wardiau etholiadol Coed-llai a Chaergwrle i'w hetholaeth arfaethedig Wrecsam. Roedd trosglwyddo ward Caergwrle yn rhannu cymuned yr Hôb, gyda ward etholiadol yr Hôb yn aros mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Mewn cyferbyniad â'r pleidiau gwleidyddol eraill a ddarparodd drefniadau amgen, ni chynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol rannu cymuned na ward etholiadol er mwyn dychwelyd Brymbo a Mwynglawdd i etholaeth Wrecsam.

31.5 Aeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r afael â phryderon cynrychiolaethau a oedd yn argymell cadw wardiau Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth Wrecsam. Fodd bynnag, roedd y cynnig yn hollti cymuned Gresffordd. Credai'r Comisiynwyr Cynorthwyol ei bod yn ymddangos bod gan yr Orsedd,

yn arbennig, rywfaint o gysylltiad ag Alun a Glannau Dyfrdwy. Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol y bydd llawer o'r farn bod eu cynnig ar gyfer yr etholaeth yn llai na delfrydol, ond heb ddatgysylltu rhai wardiau etholiadol, mae'n amhosibl bodloni'r amrediad etholiadol statudol heb ymledu'n helaeth i ardaloedd eraill, yr ystyriwyd ei fod yn annymunol. Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd y cynrychiolaethau a awgrymodd gael ardal gyfan y prif gyngor o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl ei chynnwys i gyd o fewn yr etholaeth oherwydd byddai hyn tua 10-15,000 o etholwyr yn fwy na'r uchafswm statudol, yn dibynnu ar ble y tynnir y ffiniau.

31.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a awgrymodd rannu ward etholiadol Ponciau. Felly, mae wedi cynnig cynnwys ward etholiadol Ponciau i gyd mewn etholaeth arfaethedig wahanol. Polisi'r Comisiwn yw creu etholaethau Seneddol sy'n cynnwys wardiau etholiadol ac ardaloedd cymunedol cyfan lle bynnag y bo'n bosibl, oherwydd ystyrir bod y rhain wedi cael eu creu gan gydnabod cysylltiadau lleol. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a ddywedodd y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu cynnwys mewn etholaeth Wrecsam.

31.7 Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Wrexham ar hyn o bryd):

Gwaunyterfyn (2,177), Parc Borras (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Acton Fechan (1,843), Llai (3,513), Maes-y-dre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosesni (2,827), yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Bronington (2,620), Brymbo (3,021), Bryn Cefn (1,543), Coed-poeth (3,482), Gwenfro (1,217), Marchwiel (1,830), Mwynglawdd (1,870), New Broughton (2,842) ac Owrtyn (2,710).

31.8 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,964 o etholwyr, sydd 3.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw Wrexham. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw Wrecsam.

Enw arfaethedig yr etholaeth

31.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r newidiadau hyn, a chytundeb ar yr enw ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

31.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw o'r cynnig cychwynnol ar gyfer eu trefniant amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

31.11 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sy'n fwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yw Wrexham a'r enw amgen swyddogol a gynigir yw Wrecsam.


Wrecsam
0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:145,600
Llai
(3,513)
Yr Orsedd
(2,643)
Holt
(2,479)
Brymbo
(3,021)
Mwynglawdd
(1,870)
Marchwiail
(1,830)
Bronington
(2,620)
Owrtyn
(2,710)
Ardal Ganolog Wrecsam
1. Acton (2,177)
2. Parc Borras (1,968)
3. Bryn Cefn (1,543)
4. Brynyffynnon (2,477)
5. Cartrefle (1,545)
6. Coedpoeth (3,482)
7. Erddig (1,444)
8. Garden Village (1,656)
9. Dwyrain a Gorllewin Gresfordd (2,337)
10. Grosvenor (1,698)
11. Gwenfro (1,217)
12. Dwyrain a De Gwersyllt (3,601)
13. Gogledd Gwersyllt (1,995)
14. Gorllewin Gwersyllt (2,263)
15. Hermitage (1,544)
16. Little Acton (1,843)
17. Maesydre (1,420)
18. Marford a Hoseley (1,824)
19. Brychdwn Newydd (2,842)
20. Offa (1,428)
21. Queensway (1,377)
22. Rhosesni (2,827)
23. Smithfield (1,376)
24. Stansty (1,641)
25. Whitegate (1,594)
26. Wynnstay (1,159)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

32. Ynys Môn

32.1 Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn mynnu bod etholaeth unigol yn cael ei ffurfio o ardal Cyngor Sir Ynys Môn. Nid yw'r etholaeth hon yn ddarostyngedig i'r cwota etholwyr statudol.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig bod etholaeth sirol bresennol **Ynys Môn** yn cael ei chadw, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ynys Môn:

Aethwy (5,175), Bro Aberffraw (3,023), Bro Rhosyr (3,919), Caergybi (5,504), Canolbarth Môn (6,537), Llifon (4,104), Lligwy (4,810), Seiriol (4,650), Talybolion (4,762), Twrcelyn (5,497) ac Ynys Gybi (4,434).

32.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 52,415 o etholwyr, sydd 28.6% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig o 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Ynys Môn**. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig, ond gan fod enw'r etholaeth wedi cael ei gosod yn y Ddeddf, nid yw'r Comisiwn wedi cynnig dewis amgen. Mae Ynys Môn yn enw cydnabyddedig a dyna enw presennol yr etholaeth a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw hwn yn dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.


Ynys Môn
Twrcelyn (5,497)
Talybolion (4,762)
Ynys Gybi (4,434)
Llifon (4,104)
Canolbarth Môn (6,537)
Ligwy (4,810)
Seiriol (4,650)
Aethwy (5,175)
Bro Rhosyr (3,919)
Bro Aberffraw (3,023)
1. Caergybi (5,504)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]
0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:194,600

Pennod 7:

Manylion cyhoeddi

Cyhoeddi cynigion diwygiedig

1. Mae'r cynigion a'r mapiau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn: www.comffin-cymru.gov.uk ac ar borth ymgynghori'r Comisiwn yn: www.cffg-arolygon.org.uk. Anfonwyd copi o'r cynigion hyn at brif gynghorau yng Nghymru, Aelodau Seneddol a'r holl bleidiau gwleidyddol.
2. Cyhoeddir Adroddiad Diwygiedig y Comisiwn ei hun (yr adroddiad hwn) ochr yn ochr ag adroddiad gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn crynhoi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ac yn manylu ar yr argymhellion annibynnol a wnaed i'r Comisiwn yn seiliedig ar y cynrychiolaethau hyn.
3. Mae cynrychiolaethau a wnaed yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, yn ogystal â thrawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd ledled Cymru, ar gael ar wefan y Comisiwn a'i borth ymgynghori ochr yn ochr â'r cynrychiolaethau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol (a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2021).

Mannau adneuo

4. Yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn rhoi'r cyfeiriadau ym mhob etholaeth Seneddol arfaethedig ble y gall y cyhoedd archwilio copi o'r cynigion hyn a map manylach sy'n eu darlunio.

Pennod 8:

Y trydydd cyfnod ymgynghori: 19 Hydref 2022 i 15 Tachwedd 2022

1. Mae'r Comisiwn bellach yn dechrau ei ymgynghoriad ynglŷn â'i gynigion diwygiedig. Bydd y trydydd cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 19 Hydref 2022 ac yn dod i ben ar 15 Tachwedd 2022.
2. Yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori, caiff aelodau'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau roi eu barn yn ysgrifenedig (cynrychiolaethau ysgrifenedig) am unrhyw un o gynigion diwygiedig y Comisiwn. Ceir gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg, a cheir eu darparu i'r Comisiwn trwy un o'r ffyrdd canlynol:

- defnyddio porth ymgynghori'r Comisiwn: www.bcw-reviews.org.uk
- trwy e-bost: cffg@ffiniau.cymru
- trwy ffacs: 029 2046 4820
- trwy'r post: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd, CF24 0BL

3. Bydd y Comisiwn yn cydnabod ei fod wedi derbyn pob cynrychiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir trwy unrhyw un o'r dulliau hyn.
4. Mae'r Comisiwn yn gofyn i bob cynrychiolaeth ysgrifenedig egluro pa ardal neu ardaloedd o Gymru y mae'n ymwneud â nhw. Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig egluro p'un a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion diwygiedig y Comisiwn, a rhoi eu rhesymau dros gymeradwyo neu wrthwynebu.
5. Mae'r Comisiwn yn argymell os bydd unigolion, grwpiau neu sefydliadau'n cyflwyno cynrychiolaethau sy'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn, y dylai'r cynrychiolaethau hynny gynnwys gwrthgynigion. Mae'n debygol y bydd mwy o bwys yn cael ei roi i wrthwynebiad sy'n cynnwys gwrthgynnig ymarferol na datganiad syml o wrthwynebiad. At hynny, oherwydd y gofyniad bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth arfaethedig ddod o fewn yr amrediad statudol, bu'n rhaid i'r Comisiwn baratoi ei gynigion ar sail Cymru gyfan. Bydd newidiadau

cymharol fach hyd yn oed i ffiniau mewn un etholaeth yn cael effeithiau cynyddol ar etholaethau eraill. Yn unol â hynny, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn o'r farn bod gwrthgynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth yr effeithir arni yn fwy darbwyllol na chynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad un etholaeth yn unig heb roi sylw i unrhyw ganlyniadau ar gyfer etholaethau eraill.

6. Gofynnir i'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau hefyd gofio'r cyflwyniadau y mae'r Comisiwn eisoes wedi'u hystyried o ran yr ymgynghoriadau ar ei gynigion cychwynnol. Mae croeso i ymatebwyr gyflwyno unrhyw gynrychiolaeth, ond mae cyflwyniadau newydd (neu'r rhai hynny sy'n cynnwys tystiolaeth newydd), yn hytrach nag ailgyflwyno cynrychiolaethau a ystyriwyd eisoes, yn debygol o fod yn fwy defnyddiol i'r Comisiwn.
7. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio bod ei gynigion diwygiedig yn ymwneud ag etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru yn unig. Nid ydynt yn effeithio ar etholaethau'r Senedd, ac nid ydynt ychwaith yn effeithio ar ffiniau prif gynghorau, wardiau etholiadol na chymunedau, trethi neu wasanaethau. Felly, ni fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wneir ynglŷn â'r materion hyn. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio hefyd na fydd yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau, neu rannau o gynrychiolaethau, sy'n gwneud sylwadau ar nifer y seddau Seneddol a neilltuwyd i Gymru neu'r amrediad etholwyr statudol. Gosodwyd y rhain gan y Senedd, ac ni all y Comisiwn eu newid.
8. Nid oes darpariaeth statudol ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus neu ail gyfnod ymgynghori yn yr ymgynghoriad ar gynigion diwygiedig y Comisiwn.

Cyhoeddi cynrychiolaethau

9. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi sylwadau y mae'n eu cael yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori (yn ogystal ag yn ystod camau eraill adolygiad 2023).
10. Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion sy'n cymryd rhan yn arolwg 2023, bydd y Comisiwn yn defnyddio'r dull canlynol o olygu gwybodaeth bersonol a gynhwysir yn y cynrychiolaethau ysgrifenedig y mae'n eu cyhoeddi.
11. O ran cynrychiolaethau gan ffigurau cyhoeddus a swyddogion (fel cynghorwyr, Aelodau Seneddol

neu Aelodau o'r Senedd) sy'n gweithredu mewn rhinwedd swyddogol:

- bydd y Comisiwn yn cyhoeddi enw unrhyw ffigur cyhoeddus neu swyddog sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol
- bydd yr holl gyfeiriadau post ac e-bost, rhifau ffôn a llofnodion yn cael eu dileu

12. O ran cynrychiolaethau gan aelodau'r cyhoedd, a chan ffigurau cyhoeddus neu swyddogion sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol:

- bydd y Comisiwn yn dileu enw a chyfeiriad post unigolion sy'n cyflwyno cynrychiolaethau, ond bydd yn cyhoeddi lleoliad bras cyfeiriad post yr unigolyn – hynny yw, trwy gyfeirio at y pentref, y dref neu'r ddinas a ddatganwyd
- bydd yr holl gyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a llofnodion yn cael eu dileu

13. Bydd y Comisiwn hefyd yn dileu unrhyw beth mewn cynrychiolaeth a allai fod yn anghyfreithlon neu'n enllibus.
14. Mae polisi diogelu data a phreifatrwydd y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Comisiwn yn prosesu data personol unigolion sy'n cymryd rhan yn arolwg 2023. Gellir ei weld yn: https://comffin-cymru.gov.uk/tudalen/polisi-diogelu-data-phreifatrwydd.

Y Gymraeg

15. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd, ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.
16. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei holl ddogfennau arweiniad, adroddiadau a'r cynrychiolaethau y mae'n eu derbyn drwy gydol arolwg 2023 yn Gymraeg a Saesneg ar ei wefan.

Pennod 9:

Gwybodaeth ychwanegol

Hawlfraint y Goron

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn darparu'r mapiau manwl, sydd ar gael yn y mannau adneuo, o dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau manwl hyn, a'r mapiau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon, yn ddarostyngedig i hawlfraint y Goron. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron ac fe allai arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai unrhyw olygydd papur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau fel rhan o erthygl am y cynigion cychwynnol gysylltu â'r Swyddfa Hawlfraint yn yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

Ymholiadau

2. Os bydd arnoch angen gwybodaeth ychwanegol am gynigion diwygiedig y Comisiwn, neu agweddau eraill ar waith y Comisiwn, cysylltwch â'r canlynol:

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

Caerdydd

CF24 0BL

Rhif ffôn: 029 2046 4819

Rhif ffacs: 029 2046 4820

E-bost: cffg@ffiniau.cymru

Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

Atodiad 1:

Cynigion diwygiedig: etholaethau

Enw'r etholaeth	Enw amgen	Nifer etholwyr	Amrywiant o UKEQ
Aberafan Porthcawl		75,270	2.6%
Alyn and Deeside	Alun a Glannau Dyfrdwy	75,695	3.1%
Bangor Aberconwy		70,468	-4.0%
Blaenau Gwent and Rhymney	Blaenau Gwent a Rhymni	71,079	-3.2%
Brecon, Radnor and Cwm-tawe	Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe	72,113	-1.7%
Bridgend	Pen-y-bont	76,464	4.2%
Caerfyrddin	Carmarthen	72,683	-1.0%
Caerphilly	Caerffili	72,325	-1.5%
Cardiff East	Dwyrain Caerdydd	72,463	-1.3%
Cardiff North	Gogledd Caerdydd	71,143	-3.1%
Cardiff South and Penarth	De Caerdydd a Phenarth	72,269	-1.5%
Cardiff West	Gorllewin Caerdydd	73,947	0.8%
Ceredigion Preseli		74,063	0.9%
Clwyd East	Dwyrain Clwyd	76,395	4.1%
Clwyd North	Gogledd Clwyd	76,150	3.8%
Dwyfor Meirionnydd		69,803	-4.9%
Gower and Swansea West	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	75,214	2.5%
Llanelli		69,895	-4.8%
Merthyr Tydfil and Upper Cynon	Merthyr Tudful a Chynon Uchaf	74,805	1.9%
Mid and South Pembrokeshire	Canol a De Sir Benfro	76,820	4.7%
Monmouthshire	Sir Fynwy	72,681	-1.0%
Montgomeryshire and Glyndŵr	Maldwyn a Glyndŵr	76,953	4.9%
Neath and Swansea East	Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	72,172	-1.7%
Newport East	Dwyrain Casnewydd	76,159	3.8%

Enw'r etholaeth	Enw amgen	Nifer etholwyr	Amrywiant o UKEQ
Newport West and Islwyn	Gorllewin Casnewydd ac Islwyn	76,367	4.1%
Pontypridd		73,743	0.5%
Rhondda		69,764	-4.9%
Swansea Central and North	Canol a Gogledd Abertawe	71,378	-2.7%
Torfaen		70,591	-3.8%
Vale of Glamorgan	Bro Morgannwg	70,426	-4.0%
Wrexham	Wrecsam	70,964	-3.3%
Ynys Môn	Ynys Môn	52,415	-28.6%

Atodiad 2:

Mynegai o'r etholaethau presennol

Etholaeth Bresennol	Rhif y Du-dalen
Aberavon	32, 34, 144
Aberconwy	42, 44
Alyn and Deeside	37, 39
Arfon	42, 45, 108, 111
Blaenau Gwent	48, 50
Brecon and Radnorshire	53, 55
Bridgend	32, 35, 58, 60
Caerphilly	68, 70, 154
Cardiff Central	73, 75, 85
Cardiff North	78, 80
Cardiff South and Penarth	73, 75, 83, 85
Cardiff West	88, 89
Carmarthen East and Dinefwr	63, 65, 119, 121
Carmarthen West and South Pembrokeshire	63, 65, 128, 130
Ceredigion	92, 94
Clwyd South	37, 101, 139, 141, 183, 186
Clwyd West	42, 45, 97, 100, 103, 105
Cynon Valley	123, 126, 159, 161
Delyn	37, 40, 97, 100
Dwyfor Meirionnydd	108, 110
Gower	114, 116, 144, 147, 169, 171
Islwyn	48, 50, 68, 70, 156
Llanelli	119, 121

Etholaeth Bresennol	Rhif y Du-dalen
Merthyr Tydfil and Rhymney	48, 50, 123, 125
Monmouth	133, 135, 175, 177
Montgomeryshire	138, 140
Neath	53, 56, 144, 147
Newport East	133, 135, 150, 151
Newport West	150, 151, 154, 156
Ogmore	58, 60, 161, 164, 166
Pontypridd	78, 80, 88, 90, 159, 161, 164, 166
Preseli Pembrokeshire	92, 96, 128, 130
Rhondda	164, 165
Swansea East	144, 147, 169, 172
Swansea West	114, 116, 169, 172
Torfaen	175, 176
Vale of Clwyd	97, 100, 103, 105
Vale of Glamorgan	83, 86, 179, 180
Wrexham	183, 185
Ynys Mon	188

Atodiad 3:

Mannau adneuo

Etholaeth arfaethedig	Cyfeiriad man adneuo
Aberafan Porthcawl	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Alun a Glannau Dyfrdwy	Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe CH5 3FF
Bangor Aberconwy	Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU
Blaenau Gwent a Rhymni	Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6DN
Aberhonddu, Maesyfed a Cwm-Tawe	y Gaer, Glamorgan Street, Aberhonddu LD3 7DW
	Neuadd y Sir, Llandrindod LD1 5LG
	Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Trefyclo, Lawnt Fowlio, Trefyclo, Powys LD7 1DR.
Pen-y-bont	Swyddfeydd y Ddinas, Stryd yr Angel, Pen-y-bont CF31 4WB
	Llyfrgell Maesteg, North Lane, Maesteg CF34 9AA
Caerfyrddin	Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerfyrddin, Unit A, St Catherine's Walk Caerfyrddin, SA31 1GA
	Gwasanaethau Etholiadol, Bloc 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ
Caerffili	Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG
Dwyrain Caerdydd	Llyfrgell Llanrhymni, Countisbury Avenue, CF3 5NQ
Gogledd Caerdydd	Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Park Road, Yr Eglwys Newy-dd CF14 7XA
De Caerdydd a Phenarth	Hyb Grangetown, Havelock Place, Grangetown CF11 6PA
	Llyfrgell Penarth, Stanwell Road, Penarth CF64 2YT
	Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW
Gorllewin Caerdydd	Llyfrgell Canton, Library Street, Canton CF5 1QD
Ceredigion Preseli	Llyfrgell Aberaeron, Neuadd y Sir, Stryd y Farchnad, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0 AT
Dwyfor Meirionnydd	Neuadd y Sir, Caernarfon LL55 1SH
	Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli LL53 5AA
	Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau LL40 2YB
Dwyrain Clwyd	Llyfrgell Llangollen, Y Capel, Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NY
	Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN
	Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NB
Gogledd Clwyd	Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ
	Llyfrgell Y Rhyl, Stryd yr Eglwys, Y Rhyl LL18 3AA

Etholaeth arfaethedig	Cyfeiriad man adneuo
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	Llyfrgell Gorseinon, 15 West Street, Gorseinon, Abertawe SA4 4AA
	Llyfrgell Tregŵyr, Stryd Mansel, Tregŵyr, Abertawe SA4 3BU
Llanelli	Llyfrgell Llanelli, Llanelli SA15 3AS
Merthyr Tudful a Cynnon Uchaf	Llyfrgell Ganolog, Green Street, Aberdâr CF44 7AG
	Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN
Canol a De Sir Benfro	Gwasanaethau Etholiadol, Uned 23 Ystâd Ddiwydiannol Thornton, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 2RR
	Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP
Sir Fynwy	Llyfrgell Y Fenni, Stryd Baker, Y Fenni NP7 5BD
	Hyb Cymunedol Mynwy, Rolls Hall, Trefynwy NP25 3BY
	Hyb Cymunedol Cas-gwent, Manor Way, Cas-gwent NP16 5HZ
	Llyfrgell Gilwern, Canolfan Addysg Gymunedol, Common Road, Gilwern NP7 0DS
	Hyb Cymunedol Brynbuga, 35 Stryd Maryport, Brynbuga NP15 1AE
	Hyb Cymunedol Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-y-coed NP26 5DB
Maldwyn a Glyndŵr	Y Lanfa, The Canal Wharf, Y Trallwng, Powys SY21 7AQ
	Swyddfa Ardal, Swyddfeydd y Parc, Y Drenewydd SY16 2NZ
Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd SA11 3QZ
Dwyrain Casnewydd	East Hub 282 Cylch Ringland, Casnewydd NP19 9PS
Gorllewin Casnewydd ac Islwyn	Llyfrgell Coed-duon, 192 High Street, Coed-duon NP12 1AJ
	Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR
Pontypridd	Gwasanaethau Etholiadol, 10-12 Gelliwastad Road, Pontypridd CF37 2BW
Rhondda	Swyddfeydd y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX
	Llyfrgell Pencoed, Pen-y-bont Road, Pencoed CF35 5RA
Canol a Gogledd Abertawe	Llyfrgell Treforys, Heol Treharne, Abertawe SA6 7AA
	Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN
Torfaen	Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB
Bro Morgannwg	Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri CF63 4RU
	Llyfrgell y Barri, Library Kings Square, Y Barri CF63 4RW
Wrecsam	Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1WF
Ynys Môn	Gwasanaethau Etholiadol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022